# Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth

Consultancy.coop cydweithredfa PAC Rhif OC352683
Swyddfa gofrestredig : 37 Cardiff Road, Dinas Powys, CF64 4DH, Tel: 029 2051 4034
www.consultancy.coop
info@consultancy.coop

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ..... 5
1 Cyflwyniad ..... 9
2 Cefndir a Chyd-destun ..... 13
2.1 Cyd-destun polisi a rheoleiddio ..... 13
2.2 Gwaith blaenorol ..... 14
Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ..... 14
Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ..... 16
2.3 Cyllid Presennol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth ..... 18
3 Gofynion ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru ..... 21
3.1 Yr Angen am Gysondeb ..... 21
Strwythur a Llywodraethant ..... 22
Codi tâl ..... 25
Cost y gwasanaeth ..... 26
Gweithlu cynaliadwy ..... 27
3.2 Mynd i'r afael â heriau ariannol ..... 29
3.3 Profiadau Cerddorol, Addysg Gerddoriaeth a Dysgu cerddoriaeth ..... 30
Profiadau cerddorol ..... 31
Addysg / hyfforddiant Cerddoriaeth ..... 33
Dysgu cerddoriaeth ..... 34
3.4 Rôl technoleg ..... 36
3.5 Crynodeb ..... 37
4 Modelau Cyflenwi Amgen ..... 38
4.1 Astudiaeth achos: Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ..... 39
4.2 Modelau Amgen Arall ..... 47
4.3 Canolfannau cerddoriaeth yn Lloegr a'r Cynllun Cerddoriaeth Cenedlaethol i Loegr ..... 49
4.4 Y Profiad Albanaidd ..... 50
4.5 Gogledd Iwerddon ..... 51
4.6 Sut mae'r Profiad mewn Mannau Eraill yn Berthnasol i Gymru? ..... 52
5 A ddylid creu Cynllun Addysg Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru? ..... 53
5.1 Cefndir ..... 53

5.2 Beth yn union fyddai'r amcanion ar gyfer Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol? ....... 54

5.3 Beth ddylai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru ei gynnwys? ....... 55

Cerddoriaeth yn ysgolion ....... 56

Gwersi offerynnol ac ensembles ....... 57

Hyfforddiant cychwynnol i athrawon ....... 58

Datblygiad Proffesiynol ....... 58

Adnoddau ....... 59

Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru ....... 59

6 Ystyriaethau allweddol wrth gamu tuag at fodel cyflenwi newydd ....... 60

6.1 Rhanddeiliaid Allweddol ....... 60

Rôl yr ysgolion ....... 60

Darparwyr ....... 61

Y gweithlu – tiwtoriaid cerddoriaeth ....... 62

6.2 Yr Ysgogiadau Allweddol ar gyfer Gweithredu ....... 63

Cydweithio Strategol ....... 63

Ysgogiadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru ....... 64

Dulliau cyflawni penodol ....... 65

6.3 Crynhoad ....... 66

7 Opsiynau i'w hystyried ....... 66

7.1 Meini Prawf ....... 67

7.2 Opsiynau Heb Gorff Cenedlaethol ....... 68

Opsiwn 1: Y *status quo* – gwasanaethau ar wahân sydd yn crebachu'n raddol gyda chydgysylltu llac ....... 68

Opsiwn 2: Caniatáu i'r farchnad benderfynu ar y ddarpariaeth ....... 70

7.3 Opsiynau 3, 4 a 5 – Beth ddylid ei wneud yn genedlaethol? ....... 72

Opsiwn 3: Corff cydlynu cenedlaethol cryf yn cynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/darparwyr preifat ....... 76

Opsiwn 4: Model rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol ....... 78

Opsiwn 5: Gwasanaeth cwbl genedlaethol ....... 81

7.4 Beth fuasai ffynhonnell y cyllid? ....... 83

Cyllid cyhoeddus ....... 83

Marchnad breifat – rhieni/warcheidwaid ....... 83

Grantiau a chodi arian ....... 84

8 Casgliadau ....... 85

Atodiad 1. Y grŵp gorchwyl a gorffen – Y cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru ........ 88
Atodiad 2. Cynllun Cerddoriaeth Cenedlaethol Lloegr ........ 89

Tabl 1. Sefydliadau wedi eu cynnwys yn y cyfweliadau rhanddeiliaid........ 11
Tabl 2. Llywodraethant a rheolaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru ........ 23
Tabl 3. Ffioedd ar gyfer ysgolion a rhieni (ble bo yna ffigyrau ar gael)........ 25
Tabl 4. Statws cyflogaeth tiwtoriaid ........ 28

## Crynodeb Gweithredol

Roedd y brîff ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn ymwneud â nodi ac asesu opsiynau dyfodol darpariaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. Ei gwaith oedd ystyried y dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau addysg ledled Cymru, nodi arfer gorau, ystyried modelau amgen yn unol â'r anghenion a'r galw am wasanaethau o'r fath, ac ystyried dichonoldeb yr opsiynau sydd ar gael. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyflenwi i gorff 'hyd braich' cenedlaethol, a chyflwyno opsiynau mewn perthynas â pha ffurf y dylai'r corff hwn ei gymryd, ac ystyried a ddylid paratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol neu beidio.

Seliwyd yr astudiaeth ddichonoldeb ar gryn dipyn o waith a oedd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, yn arbennig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru, a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny ac ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Iaith Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyllid a mynediad at addysg gerddorol. Er bod y gwaith yma wedi nodi'r un heriau allweddol o ran diffyg cysondeb a chydlyniad wrth ddarparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth yng Nghymru, lluniwyd casgliadau croes o'r canfyddiadau. Un o nodau pwysig yr astudiaeth ddichonoldeb hon, felly, oedd datblygu dealltwriaeth fanylach o oblygiadau gwaith cydlynu cenedlaethol cryfach wrth ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth a'r gofynion ar gyfer hynny.

Wrth gynnal yr ymchwil gyda'r rhanddeiliaid, yn fuan iawn daeth i'r amlwg bod y materion yr oedd gwaith blaenorol wedi ymdrechu i'w datrys yn deillio o heriau hynod gymhleth ar sawl lefel:

- Cymhlethdod y manylion o ran cydlynu'r defnydd o diwtoriaid cerddoriaeth, offerynnau, cefnogaeth gwricwlaidd, ac ystod eang o gynigion gwahanol yn ymwneud â phrofiadau cerddorol a gwersi cerdd, gydag adnoddau sy'n prinhau a statws aneglur Gwasanaethau Cerddoriaeth mewn ysgolion Cymru.
- Cymhlethdod strategol o ran addasu gwasanaethau i dirwedd sy'n newid o ran deall sut mae angen cynllunio Gwasanaethau Cerddoriaeth er mwyn cyflawni canlyniadau penodol (e.e. cynhwysiant, lles, adnabod a datblygu talent cerddorol).
- Cymhlethdod gwleidyddol o ran y berthynas rhwng rhanddeiliaid allweddol sydd eisoes dan straen, y pwysau ar yr isadeiledd cyflenwi presennol, a'r hen hanes oedd yn atal cynnydd o ran dod o hyd i atebion ar y cyd er mwyn cyflwyno cysondeb a chydlyniad wrth ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. .

Y casgliad a ddeilliodd o'r canfyddiad cynnar hwn oedd bod angen i'r gwaith ymchwil a dadansoddi ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb hon ymwneud yn bennaf â'r mater o gydgysylltu strategol, h.y. y cwestiwn o sut y gellid creu fframwaith addas buasai'n helpu rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y buasai angen i ddarpariaeth addysg cerddoriaeth yng Nghymru gwireddu er mwyn cyflawni canlyniadau ac amcanion penodol. .

Cadarnhaodd dadansoddiad o strwythur a threfniadau llywodraethu'r ddarpariaeth bresennol ddarlun o system mewn cyfnod o ansicrwydd gydag ychydig iawn o gysondeb a chydlyniad o ran natur, cost a phris y ddarpariaeth a braidd ddim ffocws ar ganlyniadau. Yn ogystal, cyfeiriodd yr ymchwil rhanddeiliaid at bryderon ynghylch cynaliadwyedd gyrfa yn addysgu cerddoriaeth. Amlygwyd pwysau ariannol yn gyson fel cyfyngiad hynod sylweddol

ar gryfhau sefyllfa cerddoriaeth mewn ysgolion a sicrhau bod Gwasanaethau Cerddoriaeth ar gael mewn ffordd cyson.

Daeth y cydadwaith pwysig rhwng profiadau cerddorol, addysg cerddoriaeth yn yr ysgol neu breifat, ac addysgu cerddoriaeth i'r amlwg fel ysbienddrych pwysig ar gyfer ystyried y ffordd orau o ddyrannu adnoddau er mwyn cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau a wnelo ag addysg gerddorol: profiadau cerddorol fel ymyriadau tymor byr sydd wedi'u cynllunio i ysgogi diddordeb mewn cerddoriaeth; addysg neu hyfforddiant cerddoriaeth yn gyfle i'r rhai sy'n barod i wneud ymrwymiad allgyrsiol hirdymor i gerddoriaeth; ac addysgu cerddoriaeth fel y cyfrifoldeb craidd i ysgolion osod y sylfeini ar gyfer unrhyw ymgysylltu â cherddoriaeth.

Datgelodd y cyfweliadau â rhanddeiliaid ddadl barhaus ynghylch ffurf yr addysg gerddoriaeth fwyaf priodol o ran cynnwys, dulliau addysgu a'r ystod o ganlyniadau i'w cyflawni. Felly, bydd angen i'r gwaith o ddatblygu model darparu newydd ar gyfer addysg cerddoriaeth yng Nghymru fynd y tu hwnt i ad-drefnu sut y caiff hyfforddiant cerddoriaeth ei ddarparu a sut y telir amdano. Yn hytrach, bydd angen iddo fanteisio ar ddealltwriaeth gyffredinol o sut y gall yr ystod gyfan o wahanol gynigion ategu ei gilydd fel bod cerddoriaeth yn hygyrch i blant a phobl ifanc yn unol â'u gallu a'u dewisiadau. Un o'r gofynion allweddol ar gyfer llunio model cyflenwi newydd o'r fath yw cydnabod bod gwell integreiddiad strategol o ddarpariaeth ar wahanol lefelau, gan ddefnyddio ffrydiau ariannu gwahanol a chael ei fframio mewn gwahanol amcanion sefydliadol a pholisi, yn gam cyntaf hanfodol.

Cyn datblygu'r opsiynau, ystyriwyd modelau darparu amgen a'r hyn y buasai angen i Gynllun Cenedlaethol ei gynnwys er mwyn helpu llunio amgylchedd gwahanol ar gyfer darparu addysg gerddorol yng Nghymru.

Mae modelau darparu amgen yn bodoli ar nifer o lefelau gwahanol, yn amrywio o gwmni hynod lwyddiannus Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych, sy'n darparu portffolio o wasanaethau sy'n debyg iawn i ddarpariaeth bresennol Gwasanaeth Cerddoriaeth awdurdodau lleol a gwahanol gyfluniadau o wasanaethau cyhoeddus o dan oruchwyliaeth a chydlyniant awdurdodau lleol, i seilwaith canolfannau Lloegr a'r gwahanol ffyrdd o ariannu Gwasanaethau Cerddoriaeth Yr Alban. Caiff y ddealltwriaeth hon o'r gwahanol ddulliau ac ysgogiadau y gall lywio'r ddarpariaeth wrth symud ymlaen ei hadlewyrchu yn natur a strwythur yr opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Mae barn rhanddeiliaid a'r galwadau parhaus am gydlyniant a chydgysylltu gwell yn awgrymu y dylid cael Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru. Buasai angen i gynllun o'r fath fod yn eiddo i randdeiliaid allweddol yng Nghymru a chael ei ddefnyddio i ymgorffori nifer o egwyddorion a dyheadau yn natblygiad Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae glasbrint ar gyfer cynllun o'r fath wedi'i nodi yn yr adroddiad er mwyn cynnig templed trafodaeth gychwynnol i randdeiliaid yng Nghymru.

Ynghyd â'r darparwyr presennol a thiwtoriaid cerddoriaeth unigol, yn hollbwysig mae rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod addysg cerddoriaeth yn hygyrch i ddysgwyr yng Nghymru. Mae adborth gan

gynrychiolwyr presennol y gwasanaeth addysg gerddorol yn awgrymu bod y gost a'r diddordeb cymharol mewn addysg gerddorol o ran penaethiaid yn benderfynyddion pwysig ar gyfer darpariaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm a'r defnydd o wasanaethau addysg cerddoriaeth. Bydd cyrraedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel yr ysgol a'u cynnwys yn y drafodaeth hon yn hanfodol er mwyn cryfhau addysg gerddorol yng Nghymru. Felly dylid gwneud gwaith ymchwil ychwanegol gydag ysgolion er mwyn profi'r gwahanol opsiynau a deall sut y gallent ymwneud yn effeithiol â chyflawni canlyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg cerddoriaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ddulliau i ddylanwadu a helpu i lywio'r ddarpariaeth addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'n hanfodol cydweithio'n strategol â chyrff allweddol sy'n rhanddeiliaid, ynghyd â galluoedd uniongyrchol Llywodraeth Cymru megis cyllid (e.e. arian ychwanegol wedi'i dargedu), deddfwriaeth (e.e. canllawiau statudol i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd), a dulliau darparu arbennig (e.e. mecanweithiau rheoli ansawdd, fframwaith cymwysterau ar gyfer athrawon cerdd, defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol mewn contractau). Mae'r rhain i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymyriadau unigol neu gellir eu defnyddio fel rhan o fodel cyflenwi mwy, neu drosfwaol.

Amlinellir pum opsiwn o fodelau cyflenwi posib i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog eu hystyried yn yr adroddiad hwn:

1. Cadw'r *status quo* – gwasanaethau ar wahân sydd yn crebachu'n raddol gyda chydgysylltu llac, yn seiliedig ar ddarpariaeth awdurdodau lleol
2. Caniatáu i rymoedd y farchnad benderfynu’r ddarpariaeth
3. Corff cydlynu cenedlaethol cryf sy'n cael ei redeg gan ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/busnesau preifat, a thiwtoriaid unigol. Buasai'r corff hwn yn estyniad o'r CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru) sy'n is-bwyllgor o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC/ADEW), er mwyn ffurfio corff ffurfiol mwy cynrychioliadol
4. Gwasanaeth rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol
5. Gwasanaeth Cenedlaethol.

Trafodir pob opsiwn o ran set gyson o feini prawf ac ystyriaethau, a gall rhai bod yn fwy dymunol a/neu ymarferol nag eraill. Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cadarnhau y bydd y rhan fwyaf o'r opsiynau a allai gael eu rhoi ar waith yn wynebu'r broblem bod gwella gwasanaethau addysg cerddoriaeth a thegwch mynediad yn dibynnu yn y pen draw ar rywun yn talu amdano. Felly, i ryw raddau, bydd dewis opsiwn yn cael ei benderfynu gan yr arian sydd ar gael i gefnogi seilwaith newydd a darpariaeth well.

Nid oes angen fawr ddim ymyriad neu gyllid ychwanegol ar y ddau ddewis heb gorff cenedlaethol — sef cadw'r *status quo* neu ganiatáu i'r farchnad bennu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn debygol o oresgyn materion cyfredol sy'n ymwneud â chysondeb a chydlyniaeth ac, yn benodol, cyfyngiadau o ran cynhwysiant, gweithlu cynaliadwy, a llwybrau dilyniant priodol ar gyfer disgyblion dawnus.

Mae'r tri opsiwn sydd â Chynllun Gweithredol Cenedlaethol a chorff cydlynu cenedlaethol yn cyflwyno ffordd o gronni a chydlynu'r defnydd o gyllid llywodraethol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth wrth greu amgylchfyd ble mae rhanddeiliaid chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu a darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth. Maent yn amrywio o ran y cydbwysedd rhwng atebolrwydd lleol a chydgysylltu cenedlaethol.

Mae'r defnydd o gontractau fframwaith yn cael ei gyflwyno fel mecanwaith allweddol i greu cyswllt effeithiol rhwng y Cynllun Cenedlaethol, dadleuon ehangach yn ymwneud â natur Gwasanaethau Cerddoriaeth, a darparu ar lawr gwlad.

Ble bo angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau, mae'n debygol y bydd llwybrau cyllido heblaw defnyddio cyllid cyhoeddus ar gael.

Mae datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth a gymeradwyir gan randdeiliaid allweddol yn gam cyntaf pwysig o ran sicrhau cysondeb a chydlyniant cenedlaethol. Felly bydd yn bwysig profi'r opsiynau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ar y dechrau gyda'r holl randdeiliaid allweddol.

**Casgliadau:**

- Dylid ystyried datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen sefydliad newydd i ddatblygu a chyflawni'r cynllun. Dylid profi'r opsiynau a awgrymwyd gyda rhanddeiliaid strategol a darparwyr Gwasanaethau Cerddoriaeth.
- Yr ysgolion sydd yn meddu ar y penderfyniadau allweddol o ran sut mae addysg gerddoriaeth yn cael ei darparu. Dylid ystyried ymchwil bellach i archwilio sut y maent yn penderfynu hyn a pha ffactorau sydd yn cael eu hystyried.
- Mae cynaliadwyedd y gweithlu tiwtoriaid cerdd yn achosi pryder. Dylid ystyried gwaith pellach er mwyn casglu barn tiwtoriaid cerdd am eu telerau ac amodau.

# 1 Cyflwyniad

O ganlyniad i argymhellion ymchwiliad 2018 gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol i gyllid ar gyfer – a mynediad i - addysg gerddorol yng Nghymru, comisiynwyd Consultancy.coop PAC gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb hon er mwyn nodi ac asesu opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth mewn ysgolion yng Nghymru.

Nododd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mehefin 2018 ddwy brif thema yn ymwneud â chydraddoldeb o ran cynhwysiant ac o ran y ddarpariaeth, ac 16 argymhelliad penodol ar gyfer gwella hynny. Cafodd safbwyntiau'r staff sy'n gweithio yn y sector, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, ac argaeledd yr addysg gerddorol i ddisgyblion eu hystyried gan yr adroddiad a'i argymhellion.

Canfu'r adroddiad bod yna wahaniaethau ledled Cymru o ran pa weithgareddau y mae'r gwahanol Wasanaethau Cerddoriaeth lleol yn eu cynnwys, ond gall y rhain gynnwys:

- Darpariaeth addysg gerddorol cyffredinol
- Gwersi offerynnol preifat
- Cyflenwi offerynnau cerddorol
- Grwpiau ar lefel sirol a rhanbarthol
- Cefnogaeth ar gyfer athrawon cerddoriaeth.

Rydym wedi canfod, ar y cyfan, bod Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfrifoldeb statudol ac weithiau caiff gwasanaethau eu darparu gan yr awdurdod lleol ei hun, ac weithiau gan sefydliadau eraill. Mae yna ddau gwmni cydweithredol, elusennau, a nifer o gwmnïau preifat sy'n darparu gwasanaethau. Darperir hyfforddiant offerynnol neu leisiol gan athrawon cerddoriaeth peripatetig sydd naill ai'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth neu sy'n hunangyflogedig ac ar gytundeb.

Yr amcan yn y pen draw a amlygwyd gan yr ymchwiliad yw cydraddoldeb i bawb. Buasai gan unrhyw ddisgybl mewn unrhyw ran o Gymru yr un mynediad i addysg gerddoriaeth; felly, dylai plentyn sy'n dymuno dysgu offeryn cerddorol yn Ynys Môn feddu ar yr un cyfle ag un yng Nghaerdydd, a dylai plentyn sy'n cael prydau ysgol am ddim dderbyn yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall.

**Y briff:**

Nod yr astudiaeth hon yw nodi ac asesu opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

**Amcanion**

1. Adolygu'r hyn sy'n bodoli a chreu tystiolaeth newydd i nodi'r dulliau presennol o ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth ledled Cymru.
2. Adnabod yr arferion gorau y dulliau presennol o ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth ledled Cymru.

3. Ystyried modelau amgen ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth, nodi'r anghenion a'r galw am wasanaethau o'r fath ac argymell cymorth ar gyfer gwasanaethau amgen.
4. Adolygu'r hyn sy'n bodoli a chreu tystiolaeth newydd i ystyried dichonoldeb yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth ledled Cymru. Bydd angen i hyn:
   a. Ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldebau darparu i gorff ' hyd braich' cenedlaethol unigol a chyflwyno opsiynau ar gyfer pa ffurf y dylai'r corff hwn ei gymryd (ynghyd ag opsiynau cyllido ar gyfer unrhyw gynnig).
   b. Nodi ac ystyried pa opsiynau eraill ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth ledled Cymru a allai fod yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.
5. Ystyried a ddylid paratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ai peidio ac, os felly, nodi ac argymell cynnwys unrhyw Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ystyried gwahanol drefniadau llywodraethu a chyflawni trosfwaol, cyffredinol a all greu'r strwythurau a'r mecanweithiau galluogi i weithio tuag at ddarpariaeth gyson a chydlynol ledled Cymru.

**Methodoleg**

Cynhaliwyd y tasgau ymchwil a dadansoddol canlynol er mwyn darparu'r dystiolaeth sy'n addas i'w hadolygu, er mwyn cynhyrchu'r dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer yr adroddiad astudiaeth ddichonoldeb hwn.

**Adolygiad o'r wybodaeth bresennol sy'n ymwneud â'r sefyllfa yn y maes addysg gerddorol yng Nghymru a gwledydd eraill:**

Y dystiolaeth ysgrifenedig a adolygwyd:

- Adroddiad 2015 y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a’r diweddariadau dilynol hyd 2019
- Taro'r Tant – adroddiad 2018 y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
- Yr arolwg o'r ddarpariaeth a gynhaliwyd yn 2015
- Amryw o ddogfennau yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y Canllawiau Statudol Drafft ar Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol
- Sicrhau dyfodol hirdymor i ensembles Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru 2016
- Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol
- Canllawiau ar gyfer defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion – Beth sydd wir yn gweithio?
- Arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol
- Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 – Estyn 2016
- *The Importance of Music – A National Plan for Music Education in England* – 2011
- *The State of Play, a review of music education in England 2019* – Undeb y Cerddorion, Music for All, Music Industries Association, UK Music
- *International Best Practice in Music Performance Education Models and Associated Learning – Outcomes for Wales* – Yr Athro Paul Carr, Prifysgol De Cymru
- *What’s Going on Now? – A study of young people making music across Scotland* – 2019
- Instrumental Music Services – Summary Tables – Llywodraeth Yr Alban 2018

### Cyfweliadau Rhanddeiliaid

Cynaliasom gyfweliadau un-i-un â'r rhanddeiliaid allweddol perthnasol a nodwyd mewn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau naill ai wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn, gan ddefnyddio fframwaith strwythuredig gydag unigolion hŷn o'r sefydliadau yn Nhabl 1:

Tabl 1. Sefydliadau wedi eu cynnwys yn y cyfweliadau rhanddeiliaid

| Grŵp Rhanddeiliaid a Enwyd yn y briff |
| --- |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW/ CCAC) |
| Cymdeithas Lleol Leol Cymru (WLGA/CLlC) |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD/ CBCDC) |
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (NYAW/CCIC) |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (ACW/CCC) |
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (BBC NOW/ CGG BBC) |
| Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC) |
| Music Education Council (MEC) |
| Opera Cenedlaethol Cymru (WNO / OCC) |

| Llywodraeth Cymru |
| --- |
| Cwricwlwm i Gymru |
| Grant Datblygu Disgyblion |
| Is-adran y Celfyddydau |

| Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| --- |
| Bethan Sayed AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cefnogi a Hybu'r Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Rhianon Passmore AC, Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol ar Gerddoriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

| Partïon eraill |
| --- |
| Anthem – elusen gwaddol cerddoriaeth |
| Pennaeth dros dro Gwasanaeth Cerdd Gogledd Iwerddon |
| Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Estyn |
| Cerdd Cydweithrol Sir Ddinbych<br>Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Caerdydd a Bro Morgannwg (CAVMS Ltd.) |
| Undeb y Cerddorion |

**CAGAC**

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Cerdd yr awdurdodau lleol yn cyfarfod yn rheolaidd fel CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru), sy'n is-bwyllgor i ADEW (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru).

Cyfarfuom â'r Pwyllgor Gweithredol, ac yna mynychwyd cyfarfod llawn o'r holl aelodau, a chynhaliwyd cyfarfod pellach gyda'u Cadeirydd.

Anfonwyd dogfen arolwg gynhwysfawr at benaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth pob awdurdod lleol, swyddogion enwebedig i'r rhai heb wasanaeth, yr elusen sy'n cwmpasu Gwynedd a Môn ar ran yr awdurdodau hynny, a'r mentrau cydweithredol sy'n cwmpasu Sir Ddinbych a Wrecsam. Yna, dilynwyd hynny gyda galwad ffôn ac, mewn rhai achosion, gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl. Mae gennym ddata o 11 cyfweliad a 14 ffurflen arolwg sy'n cwmpasu 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**Eraill**

Er mwyn dechrau gyda rhywfaint o fewnwelediad am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, penderfynasom gynnal nifer fach o gyfweliadau agoriadol i gasglu barn rhanddeiliaid sydd â phrofiad uniongyrchol o ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth mewn ysgolion. Defnyddiwyd y rhain i ddod o hyd i faterion i'w hystyried a nodi awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid. Defnyddiom ein rhwydweithiau cyfredol Cymru-gyfan ni, yn ogystal â chyfarfodydd a sefydlwyd at ddibenion eraill, er mwyn casglu barn. Buom yn siarad â 12 o benaethiaid mewn 9 awdurdod lleol, cynradd ac uwchradd, 20 o gadeiryddion cyrff llywodraethu mewn 7 awdurdod lleol, a nifer fach o rieni o 10 ysgol mewn 7 awdurdod lleol.

# 2 Cefndir a Chyd-destun

## 2.1 Cyd-destun polisi a rheoleiddio

Yn draddodiadol, roedd y cysyniad o wasanaeth cerddoriaeth yn berthnasol i'r adran o fewn awdurdod lleol a ddarparodd gefnogaeth drwy'r awdurdod lleol ar gyfer addysg gerddorol, staff cerddoriaeth peripatetig a ddefnyddir mewn ysgolion, efallai gwasanaeth cynghori ar gyfer athrawon cerddoriaeth, ac yn ddiweddar, profiadau cerddorol. Nid yw darparu gwasanaeth cerddoriaeth yn rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol, ac nid oes llawer o elfennau cyffredin o ran pa wasanaethau a ddarperir, sut y cânt eu darparu neu hyd yn oed a ydynt yn cael eu darparu o gwbl. Erbyn hyn mae yna fusnesau preifat, elusennau, cwmnïau cydweithredol, busnesau cymdeithasol, ac unigolion sy'n darparu un neu fwy o'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys gwasanaethau cerddoriaeth cyflawn. Gall unrhyw un o'r sefydliadau hyn, gan gynnwys gwasanaethau cerdd yr awdurdod lleol, gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Mae darparu addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion yn ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm cenedlaethol presennol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Caiff y gofyniad i ddarparu addysgu cerddoriaeth ei gryfhau yn y cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei gyflwyno o Fedi 2022, fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol (MDaP). O fewn y MDaP yma

ceir cerddoriaeth yn benodol yn ogystal â chelf, dawns, drama, ffilm, a chyfryngau digidol. Cyhoeddwyd y Canllawiau Statudol Drafft[1] ym mis Ebrill 2019 er mwyn casglu adborth. Mae'n nodi'r camau dilyniant a'r canlyniadau cyflawniad a ddisgwylir gan ddysgwyr. At hynny, mae'n ystyried yr elfennau a'r ffurfiau y dylid disgwyl i bob dysgwr eu meistroli ym mhob cam dilyniant. Mae'r rhain wedi'u datblygu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan Ysgolion Arloesi ar lefel gynradd ac uwchradd ledled Cymru. Mae'r ysgolion hyn bellach yn lledaenu eu profiadau'n eang wrth i'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith ddechrau.

Mae hwn yn newid mawr yn y fframwaith o ran sut y bydd cerddoriaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, a bydd angen i'n Gwasanaethau Cerddoriaeth fod yn elfen bwysig yn y gwaith o'i gyflwyno'n llwyddiannus.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn dasg fawr ond dim ond un o nifer o newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith mewn addysg yng Nghymru ar yr un pryd. Mae prosesau newydd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon, rheolaeth Llywodraeth Cymru o dâl ac amodau athrawon, safonau newydd o ddysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysgu, y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd a chyflwyno mesurau perfformiad newydd ar gyfer ysgolion, a'r posibiliad o fframweithiau newydd ar gyfer cymwysterau, yn dystiolaeth o'r newidiadau mwyaf i addysg Gymraeg ers degawdau. Yr her yw sicrhau bod beth bynnag a gynigir ar gyfer addysg gerddorol yn cyd-fynd â'r holl fentrau hyn.

## 2.2 Gwaith blaenorol

### Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Bu pryder ers rhai blynyddoedd ynghylch addysg gerddorol ymhlith y rhanddeiliaid a fu'n rhan o'r system[2]. Ym mis Ionawr 2015 sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y gweinidog a oedd yn y gyfrifol am Addysg a Sgiliau bryd hynny ‘i ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth a datblygu cynigion ar gyfer sicrhau, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, y gall awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddysgwyr ledled Cymru.' Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei adroddiad ym mis Mehefin 2015. Ym mis Ionawr 2017 Dechreuodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i ariannu ar gyfer addysg cerddoriaeth a mynediad ati, a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2018. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ddau ddiweddariad ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor – diweddariad blwyddyn a diweddariad terfynol. Felly, mae'r rhain wedi casglu tystiolaeth gan nifer o ffynonellau a rhanddeiliaid sy'n ymchwilio i gyflwr addysg cerddoriaeth yng Nghymru ac yn ceisio dod o hyd i atebion i'r problemau y mae'r sector yn eu hwynebu.

Mewn trefn gronolegol, y pedwar cyhoeddiad a gynhyrchwyd gan y ddau grŵp hyn yw:

---

[1] Canllawiau Statudol Drafft – Y Celfyddydau Mynegiannol

[2]: Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn. Ysgolion Cymru 2015

- Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth.– Mehefin 2015[3]
- Diweddariad Llywodraeth Cymru - Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wasanaethau cerdd: adroddiad ar ôl blwyddyn – 2017[4][5]
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Taro'r Tant – adroddiad 2018 y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Mehefin 2018
- Diweddariad Llywodraeth Cymru - Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Adroddiad cynnydd terfynol – Ebrill 2019[6]

Roedd yr Adroddiad Gorchwyl a Gorffen yn 2015 yn ddarlun o wasanaeth a oedd mewn cyfnod o newid:

> ‘Mae Gwasanaethau Cerddoriaeth ledled Cymru yn amrywio'n fawr o ran ystod, nifer y rhai sy'n manteisio arnynt a'u fforddiadwyedd. Ymhellach, caiff mynediad i ddysgwyr ei effeithio gan ddaearyddiaeth a phocedi sylweddol o amddifadedd uchel. Mae cymorth i ysgolion yn amrywio rhwng darpariaeth a arweinir gan y farchnad ar y naill law, a chymorth llwyr ALLau ar y llaw arall, ac yna economi gymysg mewn sawl ardal. Ceir amrywiaeth sylweddol yng nghost y gwersi y mae ysgolion yn talu amdanynt neu'n cael eu trosglwyddo i rieni. Gall ysgolion sybsideiddio'r costau dysgu a godir ar rieni i raddau amrywiol.’

Ac:

> ‘I grynhoi, rydym yn ystyried yr heriau i barhau i ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth o safon uchel i gynnwys:
>
> cynnal a datblygu darpariaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun lleihau cyllidebau ysgolion ac Awdurdodau Lleol a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd;
>
> anghysondeb y ddarpariaeth bresennol, anghydraddoldeb cynyddol o ran cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau;
>
> rhwystrau daearyddol i hyfforddiant arbenigol; cyflenwad ac ansawdd offerynnau arbenigol; lefelau uchel o amddifadedd;
>
> argaeledd darpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg;

[3] Report of the Task and Finish Group of Music Services in Wales
[4] Music Services: One Year On
[5] Taro’r Tant Ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati

[6] Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru Adroddiad cynnydd terfynol

dibyniaeth gynyddol ar ddisgyblion a rhieni i dalu am gostau dysgu.

Yn hynny o beth, daethant i'r casgliad:

> ‘Mae ysgolion yn greiddiol i hyfforddiant cerddoriaeth offerynnol a lleisiol, a dylai pob ysgol roi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu chwarae a chanu. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth mewn rhai ysgolion yn dibynnu'n ormodol ar agweddau a blaenoriaethau timau arwain ysgolion.’

Gwnaethpwyd cyfres o argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda'r nod o atal dirywiad a gwasanaethau mwy unffurf. Awgrymasant y dylai awdurdodau lleol weithio'n fwy cydweithredol ac annog ysgolion a chyrff llywodraethu i fabwysiadu polisïau codi tâl clir a theg ar gyfer addysgu cerddoriaeth. Roeddent yn cynnig canolfannau rhanbarthol fel mecanwaith posibl er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth. Ni fu yna unrhyw ddiffiniad o ba wasanaeth y dylai Gwasanaeth Cerddoriaeth ei ddarparu, felly cynigwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru, sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn yn Atodiad 1.

Nodwyd yn yr Adroddiad Cynnydd Terfynol Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran ei argymhellion, yn y bôn roedd cynnydd o'r fath yn araf, yn bennaf oherwydd toriadau mewn cyllid:

> ‘Adroddwyd nifer o heriau yn yr adroddiad diweddaru diwethaf ynghylch sicrhau gwasanaethau cyson a chydweithredol ar draws awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar anawsterau ariannu yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir rhwystrau ychwanegol oherwydd galw a demograffeg.’
>
> ‘Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth awdurdodau lleol yn gweithio tuag at fodloni'r amcanion a nodir yn y cylch gorchwyl (Atodiad 1 yn yr adroddiad yma) er bod problemau ariannu wedi achosi rhai anawsterau mewn llawer o ardaloedd.’

Mae hyn yn gweddu adroddiad llafar Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn lleihau eu gwariant ar wasanaethau anstatudol; ac nid yw gwasanaethau cerddoriaeth yn cael eu heithrio.

## Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cymerodd Adroddiad 2018 Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu[7] dystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau a gwnaeth gyfres o argymhellion. Ceir dyfyniad allweddol o'r adroddiad mewn perthynas â'i argymhelliad y dylid cael ymateb cenedlaethol i ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth fel a ganlyn:

> ‘Mae diffyg cysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd gwahanol iawn mewn

[7] Taro’r Tant: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11595/cr-ld11595-e.pdf

> perthynas â'r addysg cerddoriaeth sydd ar gael i ddisgyblion ysgol ac i'r rhai sy'n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth.'

Fe wnaeth adroddiad Taro'r Tant 16 o argymhellion, y cryfaf ohonynt oedd creu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth ac awgrymwyd y dylid cyflawni hyn drwy gorff cenedlaethol ' hyd braich'. Gwnaeth nifer o'r argymhellion awgrymiadau ynghylch sut y gellid gweithredu cynllun o'r fath, e.e. gofyn am ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid perthnasol ac awgrymu corff cynghori i fonitro ei gynnydd. Nododd y Gweinidog, yn ei hymateb ffurfiol, y buasai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Addysg Gerddorol yn rhan o'i gorchwyl hi.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflymu'r broses o weithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. At hynny, edrychodd ar nifer o eitemau eraill sydd y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, megis darparu mwy o gyllid ar gyfer offerynnau cerdd a sut y buasai'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth ar gyfer cerddoriaeth — Anthem bellach — yn gweithredu.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael adolygiad thematig gan Estyn o'r Gwasanaethau Cerddoriaeth. Nododd rhanddeiliaid y buasai hyn yn anodd yn absenoldeb unrhyw fframwaith statudol o ran yr hyn y dylid ei ddarparu. Rydym yn ystyried materion rheoli ansawdd a chysondeb yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Nodwyd tair thema allweddol arall o adroddiad y Pwyllgor, ac rydym wedi'u defnyddio fel sail i archwilio'r dewisiadau yn yr adroddiad hwn. Mae hyn oherwydd iddynt gael eu hamlygu hefyd gan nifer o'r rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â hwy:

- Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar delerau ac amodau cyflogaeth staff y gwasanaeth cerddoriaeth. Roedd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i'w hadolygu ' fel mater o frys '. Roedd pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu.
- Mae cydraddoldeb mynediad at addysg cerddoriaeth yn bwysig iawn. Tynnodd nifer o dystion sylw at y nifer isel a oedd yn derbyn hyfforddiant cerddoriaeth gan deuluoedd ag incwm is ac, yn arbennig, dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid hyrwyddo'r defnydd o arian grant datblygu disgyblion ar gyfer addysg gerddorol yn well.
- Roedd sawl tyst yn pryderu am y ffordd y mae'r system bresennol yn gweithredu o ran cyfleoedd dilyniant i gerddorion talentog. Roedd pryder ynghylch sut y gellid gwneud dilyniant ' pyramid Cymru ' i ensembles cenedlaethol yn decach. Argymhellodd yr adroddiad y dylid darparu mwy o gyllid ' er mwyn sicrhau bod pob disgybl sydd am wneud cynnydd tuag at ragoriaeth yn gallu gwneud hynny '.

Wrth edrych ar dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet — sef y Gweinidog Addysg erbyn hyn — i'r Pwyllgor, roedd ei phryderon yn adlewyrchu llawer o'r pryderon sydd gan y Pwyllgor cyffredinol; er enghraifft, yn ei thystiolaeth lafar, roedd yn cydnabod bod 'heriau o ran

sicrhau bod pob person ifanc, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau personol, yn gallu elwa'.

At hynny, dywedodd:

> 'Hoffwn ddatblygu system addysg sy'n seiliedig ar yr egwyddorion o degwch a rhagoriaeth. Felly, gwelaf fy rôl i a rôl y wladwriaeth yn un sy'n ceisio, ble bynnag y bo modd, lliniaru yr anfanteision hynny y mae rhai plant yn dioddef a hynny heb unrhyw fai arnynt hwy.' (Y Gweinidog Addysg - sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor 12[8])

O ran y Cwricwlwm i Gymru a'i effaith ar addysg cerddoriaeth, gwnaeth bwynt pwysig ynghylch pwy sy'n gyfrifol:

> 'O ran Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol, byddant yn cael cyfle i gyfrannu at y broses honno, ond yn y pen draw, bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar ôl 2020 neu 2021 unwaith eto yn fater i'r ysgolion unigol o ran y ffordd orau y gwelant y gwasanaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol o fewn eu sefydliad unigol ei hun. ' (ibid.)

Cydnabuwyd bod cyllid yn her i wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol:

> 'Mae'n heriol ac, fel y dywedoch chi, mae'n ddarlun cymysg, ac, oherwydd bod llawer o siroedd wedi datganoli cyllid i lawr i ysgolion, mae'n anodd iawn i wybod yn union yr arian sydd ar gael. Yr hyn sy'n bwysig i mi yw edrych ar y dystiolaeth o effaith y gwariant, oherwydd ein bod yn treulio llawer o amser yn edrych ar fewnbynnau, ond mewn gwirionedd mae angen inni edrych ar allbwn y gwariant hwnnw a'r gweithgarwch sy'n digwydd. Yr hyn sy'n bwysig i fi yw bod cerddoriaeth yn rhan hanfodol o bob agwedd ar ein cwricwlwm presennol.' (ibid.)

Trwy gydol yr adroddiad, mae'n eglur bod y Pwyllgor a'r Gweinidog wedi deall taw ar lefel yr ysgolion eu hunain mae'r penderfyniadau sylfaenol o ran darparu addysg cerddoriaeth.

## 2.3 Cyllid Presennol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth

Darperir cyllid ar gyfer addysg oedran statudol mewn ysgolion yng Nghymru yn yr un modd ag ar gyfer gwasanaethau eraill a ddarperir gan lywodraeth leol, sef yn bennaf gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol (Grant Cynnal Refeniw / RSG). Nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo, gan fod Llywodraeth Cymru yn ystyried taw awdurdodau lleol sydd orau i fesur anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny..

Felly, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r arian hwn a ffynonellau eraill o gyllid refeniw a godir yn lleol i ddiwallu anghenion yr holl wasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt yn y ffordd orau posib..

[8] Committee Evidence Session 12

Yn y pen draw, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ariannu a darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru.  Yr awdurdodau lleol sy'n penderfynu pa lefel o gymorth y maent yn ei darparu i Wasanaethau Cerddoriaeth yn eu hardal ar sail eu dealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae gan ysgolion y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r awdurdod lleol ynghylch cyllidebau ysgol drwy ddeialog ag awdurdodau, gan gynnwys drwy eu fforwm cyllideb, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae'n rhaid i awdurdodau ymgynghori â'u fforymau cyllideb ysgol a phob ysgol yn eu hardal wrth osod neu wneud newidiadau i fformiwla ariannu. Prif ddiben y fforwm yw rhoi cyfle i'r holl brif randdeiliaid dechrau trafodaeth gyda, a chynnig cyngor i'r awdurdod lleol mewn perthynas â chyllidebau ysgol ym mhob blwyddyn ariannol.

Unwaith y dosberthir yr arian, y pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol sydd yn penderfynu sut y dylid gwario cyllideb yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol o £3 miliwn ar gael ar gyfer darpariaeth addysg cerddoriaeth yn 2018/2019 a 2019/2020 — mae hyn wedi'i ddosbarthu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i awdurdodau lleol. Roedd y ffigwr hwn i gael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth gerddoriaeth yn unol ag ystod o feini prawf a awgrymwyd i ddiwallu anghenion lleol, gan gynnwys:

- Prynu offerynnau newydd a phrin, neu fregus
- Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i wersi, arholiadau a chyrsiau
- Costau mynychu cerddorfeydd, corau a bandiau
- Cychwyn ensemble roc a phop
- Cefnogi trefniadau cydweithredol cerddoriaeth

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi derbyn £100,000 i barhau â'u gwasanaethau cerddoriaeth, gan gynnwys ensembles ieuenctid.'[9]

Yn fwy na hynny, mae ysgolion yn cael Grant Datblygu Disgyblion blynyddol yn seiliedig ar y nifer o'u disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM).  Mae pob ysgol yn llunio cynllun cyhoeddus ar gyfer sut y bydd yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion er mwyn gwella cyrhaeddiad ei disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Gellid cynnwys addysg gerddorol a phrofiadau cerddorol yn y cynlluniau hyn.

Gan amlaf, gan ysgolion y rhyddid i wneud eu trefniadau eu hunain o ran sut maen nhw'n dewis darparu addysg cerddoriaeth, profiadau cerddorol ac addysgu cerddoriaeth trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn.  Gallant ddewis defnyddio eu staff eu hunain, prynu gan yr awdurdod lleol os oes ganddo Wasanaeth Cerddoriaeth, neu ddarparu ffynhonnell gan unrhyw ddarparwr arall.  Mewn trafodaeth gyda rhanddeiliaid, dywedwyd wrthym y gall fod rhagdybiaeth bod ysgolion yn defnyddio Gwasanaeth Cerdd yr awdurdod lleol ac mewn

[9] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru Rhagfyr 19eg 2018

nifer fach o awdurdodau lleol, bosib bod yr awdurdod lleol yn neilltuo'r gwario yn y modd hwnnw'n unig.

Yn ogystal, gall ysgolion fanteisio ar amryw o fentrau er mwyn darparu profiadau cerddorol gan elusennau cenedlaethol a lleol megis Opera Cenedlaethol Cymru neu Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, sydd gan amlaf yn rhad ac am ddim. Gallai hyn fod ar ffurf 'diwrnod / wythnos gerddoriaeth ' neu ymyriad mwy hirdymor.

Mae deddfwriaeth yn caniatáu i ysgolion godi tâl ar rieni am offerynnau cerdd neu hyfforddiant llais mewn amgylchiadau penodol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn egluro bod :

> ‘Er bod y gyfraith yn nodi bod yn rhaid i’r holl addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol fod yn rhad ac am ddim, mae gwersi cerddoriaeth yn eithriad i’r rheol hon. Caiff ysgolion godi tâl am hyfforddiant offerynnau cerdd a ddarperir i ddisgyblion unigol, neu grŵp o uchafswm o bedwar disgybl, os nad yw’r addysgu’n rhan hanfodol o’r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus y mae’r disgybl yn ei ddilyn.’ (Guidance for Governing Bodies on Charging for School Activities)[10]

Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd rhanddeiliaid fod rhieni/warcheidwaid yn talu am wersi a ddarperir yn ystod oriau ysgol ar safle'r ysgol i'r ysgol neu'n uniongyrchol i'r darparwr. Hefyd, gall rhieni/gwarcheidwaid ddewis talu am wersi y tu allan i oriau ysgol. Gall y rhain fod gan y darparwr a ddefnyddir gan yr ysgol, ond gellir eu trefnu'n annibynnol.

Dywedwyd wrthym fod profiadau cerddorol mewn ysgolion yn tueddu i fod am ddim, gan eu bod yn rhan o'r cwricwlwm yn y bôn, er y gellid gofyn i rieni/warcheidwaid gyfrannu tuag at dripiau i berfformiadau, ac os felly mae'r canllawiau arferol ar godi tâl yn berthnasol.

Codir tâl ar rieni/warcheidwaid am gymryd rhan mewn ensembles ar lefel yr awdurdod lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol hefyd, er y gall fod cymorth elusennol ar gael i ddysgwyr sydd ar incwm is drwy'r elusennau Cyfeillion sy'n gysylltiedig â rhai Gwasanaethau Cerddoriaeth. Mae gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru gynllun cymorth ariannol ar gyfer ensembles Cenedlaethol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – Cynllun Gweithredu i Gymru ym mis Mawrth 2015-20[11]. Mae hyn yn ymwneud â phob agwedd ar y celfyddydau mynegiannol, nid cerddoriaeth yn benodol. Roedd y cynllun, a drefnwyd i redeg o 2015 i 2020, yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £10 miliwn dros bum mlynedd i gyfateb i'r £10 miliwn a ymrwymwyd gan gyllid loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. O fewn y cynllun, ceir dwy ffrwd waith: yr ysgol greadigol arweiniol[12] a rhaglen

[10] Arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol
[11] Dysgu creadigol drwy’r celfyddydau
[12] Lead Creative Schools

celfyddydau ac addysg Cymru gyfan[13] . Yn fwy na hynny, roedd y cynllun yn nodi manylion y pedwar rhwydwaith[14] celfyddydau ac addysg ranbarthol. Daw'r rhaglenni hyn i ben yn 2020.

# 3 Gofynion ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru

Mae manteision addysg gerddoriaeth yn annadleuol ac yn cael eu cefnogi'n llwyr yn ymchwil academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys y sgiliau gwybyddol[15] ffisolegol[16], seicolegol[17], cymdeithasol, deallusol[18], emosiynol, personol a rhyngbersonol allanol y mae plant yn eu datblygu trwy ymwneud yn uniongyrchol â gweithgaredd cerddorol. Yn ogystal, maent yn cynnwys y manteision cerddorol cynhenid a ddaw yn sgil astudiaeth o'r fath.

Mae manteision chwarae cerddoriaeth mewn modd gweithredol yn ymestyn y tu hwnt i'r unigolyn i'r teulu ehangach a'r gymuned leol, e.e. drwy welliannau yn y gallu i gael mynediad i ystod eang o ddiwylliant a theimlo'n rhan o'r gymuned[19].

Er mwyn ystyried ffyrdd newydd o gyflwyno addysg gerddorol yng Nghymru, mae angen dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol ac anghenion datblygiadol allweddol. Felly, mae'r is-adrannau canlynol yn adolygu rhai o'r prif ffactorau sy'n sbarduno newid yn narpariaeth addysg cerddoriaeth yng Nghymru.

## 3.1 Yr Angen am Gysondeb

Mae cysondeb canlyniadau yn thema allweddol yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal ag yn yr ymchwil rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae nifer o agweddau yn arbennig o berthnasol ar gyfer ystyried yr opsiynau i wella'r ddarpariaeth. Yn fwyaf penodol, mae'r rhain yn cynnwys a fyddai, a sut y byddai, mwy o gysondeb yn sicrhau manteision o ran:

- strwythur a threfn lywodraethol addysg cerddoriaeth;
- y dull o godi ffioedd am Wasanaethau Cerddoriaeth;
- cost y ddarpariaeth;

[13] Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan
[14] Rhwydwaith Rhanbarthol Celfyddydau
[15] Gweler e.e. Anvari, S. H., Trainor, L. J., Woodside, J., & Levy, B. A. (2002). Relations among musical skills, phonological processing, and early reading ability in preschool children. Journal of Experimental Child Psychology, 83 (2), 111-130.; Gromko, J. E. (2005). The Effect of Music Instruction on Phonemic Awareness in Beginning Readers. Journal of Research in Music Education, 53(3), 199-209.; Daltrozzo, J. & Schön, D. (2009). Conceptual processing in music as revealed by N400 effects on words and musical targets. Journal of Cognitive Neuroscience, 21(10): 1882-1892.
[16] Gweler e.e. Ferguson, K. (2006). Social capital and children's wellbeing: a critical synthesis of the international social capital literature. International Journal of Social Welfare, 15(1), 2.; Cohen, G. (2006) 'The Creativity and Aging Study: The impact of professionally conducted cultural programs on older adults'. National Endowment for the Arts. Also available from http://www.nea.gov/resources/accessibility/CnA-Rep4-30-06.pdf [last accessed 30/9/11].
[17] Gweler e.e. Clift, S., Hancox, G., Staricoff, R., & Whitmore, C. (2008). A systematic mapping and review of non-clinical research on singing and health. Sidney De Haan Research Centre for Arts and Health, Canterbury: Canterbury Christ Church University.; Kreutz, G., Bongard, S., Rohrmann, S., Hodapp, V. & Grebe, D. (2004) Effects of Choir Singing or Listening on Secretory Immunoglobulin A, Cortisol, and Emotional State'. Journal of Behavioral Medicine, 27 (6), 623-635.
[18] Hetland, L. (2000). Learning to make music enhances spatial reasoning. Journal of Aesthetic Education, 179-238.
[19] Gweler e.g. Broh, B. (2002). Linking extracurricular programming to academic achievement: who benefits and why? Sociology of Education, 69-95.; Davidson, J., & Good, J. (2002). Social and musical co-ordination between members of a string quartet: An exploratory study. Psychology of Music, 30(2), 186.

- sicrhau bod gweithlu addysg gerddorol ar gael ac yn gynaliadwy.

### Strwythur a Llywodraethant

Mae'r corff cydlynu ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol — Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC) — yn fforwm allweddol ar gyfer ystyried strwythurau presennol y Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r corff hwn yn adrodd i CCAC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru).

Buom yn siarad â CAGAC fel grŵp ac â phenaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth unigol a chafwyd cynigion manwl gan 14 o'r 15 pennaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. At hynny, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn gydag 11 o'r penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth yma, yn ogystal â chyfweliad manwl gyda sefydliad Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych, sy'n cynnwys Dinbych a Wrecsam. Mae hyn yn golygu ein bod wedi casglu barn y rhanddeiliaid sy'n darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth, sy'n ymdrin â chyflenwi mewn 21 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r safbwyntiau a gasglwyd gennym yn dangos bod y llywodraethu a'r strwythurau sy'n sail i ddarpariaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn cael eu hystyried fel system mewn cyfnod o ansicrwydd:

- Yn ystod y cyfnod ymchwil, nid oedd gan ddau awdurdod lleol unrhyw bennaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth, ac mae dau o'r rhai a gyfwelwyd gennym, gan gynnwys pennaeth elusen (Gwasanaeth Ysgolion William Mathias, yn gwasanaethu Ynys Môn a Gwynedd), wedi ymadael ers hynny heb fod yna olynydd . Mae hyn yn gadael pum awdurdod lleol heb bennaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth ar hyn o bryd.
- Mae gan rai o'r penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth gyfrifoldebau adrannol eraill yn eu hadrannau addysg. Yn y cyfamser, mae rhai hefyd yn diwtoriaid cerdd.
- Nid oes Gwasanaeth Cerddoriaeth gan yr awdurdodau lleol ym Mhowys, Wrecsam na Sir Ddinbych, er bod Powys yn parhau â swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am addysg gerddorol.
- Mae elusen Cerddoriaeth Ieuenctid De Powys a Band Pres Gogledd Powys yn darparu profiadau cerddorol ond nid Gwasanaeth Cerddoriaeth cynhwysfawr.
- Mae staff a gyflogwyd yn flaenorol gan Wasanaethau Cerddoriaeth yn Sir Ddinbych a Wrecsam wedi ffurfio cwmnïau cydweithredol ar wahân i gynnig gwasanaethau o'r fath. Ar hyn o bryd maent yn rhannu Prif Weithredwr.
- Mae Cerdd Gwent yn darparu Gwasanaeth Cerddoriaeth ar gyfer Torfaen, Casnewydd, Mynwy a Blaenau Gwent, er bod cyfraniadau ariannol gan yr awdurdodau yma'n prinhau.
- Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg dan reolaeth Cyngor Caerdydd ar sail nid-er-mwyn-elw. Mae bron i hanner yr ysgolion yn defnyddio CAVMS Ltd., sy'n gwmni preifat.

Roedd rhai o aelodau CAGAC yn pryderu am ryddhau'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn wybodaeth fasnachol sensitif y gallai eu cystadleuwyr ei defnyddio. Yn unol â hynny, rydym wedi dienw'r rhan fwyaf o'r data, gan gynnwys unrhyw ddyfynbrisiau, ac eithrio Tabl 2, sy'n rhoi trosolwg o'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru.

Cafwyd oedi sylweddol wrth dderbyn gwybodaeth y gofynnwyd amdani a daeth yn amlwg wrth i ni dderbyn gwybodaeth gan awdurdodau lleol bod amrywiaeth yn natur y modd y cofnodir data, a'r dulliau ar gyfer gwneud hynny. Mae hyn yn ganlyniad i natur anstatudol y gwasanaeth. Nes i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen llunio ei gylch gorchwyl arfaethedig (gweler Atodiad 1), nid oedd cytundeb cyffredinol ynghylch beth y dylai pob gwasanaeth ei ddarparu. Nid oes yna Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyffredin. Mae hyn yn golygu, er bod y gwasanaethau'n darparu gwasanaethau tebyg, nad yw'r allbynnau a'r canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn ffyrdd cyson.

Efallai nad yw'n syndod, felly, nad oes unrhyw gasglu data cyson gan Wasanaethau Cerddoriaeth yr awdurdodau lleol o ran nifer y disgyblion, hyd y gwersi, ac a yw'r gwersi ar ffurf grwpiau neu'n cael eu darparu ar sail un-i-un. Y prif reswm am hyn yw bod eu cytundebau lefel gwasanaeth gydag ysgolion wedi'u seilio ar yr amser a roddwyd gan athrawon, nid ar yr allbynnau a gynhyrchir. Yn ogystal, mae cadw cofnod o fanylion y disgyblion yn aml yn ddyletswydd yr ysgolion ac felly, ychydig iawn o wybodaeth sydd ganddynt am eu cyfeiriadau cartref neu am eu hamgylchiadau eraill. O ystyried y data cyfyngedig a gasglwyd o ysgolion yn yr astudiaeth hon, nid yw'n bosibl asesu pa gofnodion y maent yn eu cadw eu hunain. O ganlyniad, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am y nifer sy'n manteisio ar wersi gan ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer yr astudiaeth hon.

Mae ysgolion yn adrodd ar eu defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion; fodd bynnag, ymddengys nad oes gofyniad penodol i adrodd ar faint sy'n cael ei wario ar Wasanaethau Cerddoriaeth. Cedwir unrhyw ddata ar lefel yr ysgol. Nid yw'r gwerthusiad yn 2017 yn sôn am gerddoriaeth, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gwasanaeth Cerddoriaeth[20].

Nid oes unrhyw orfodaeth ar ysgolion i adrodd ar niferoedd y disgyblion sy'n cael gwersi cerddoriaeth neu ble maent yn eu derbyn. Bydd ysgolion yn ymwybodol o wersi yn ystod oriau ysgol ond efallai na fyddant yn gwybod am wersi preifat yn cael eu trefnu gan rieni/warcheidwaid.

Tabl 2. Llywodraethant a rheolaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru

| Gwasanaeth Cerddoriaeth | Pennaeth i'r Gwasanaeth ar 01/08/19 | Cyfanswm y nifer o Ddisgyblion o fewn ardal y Gwasanaeth | Llywodraethiant y ddarpariaeth Gwasanaeth Cerddorol | Elusen Cyfeillion ? |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cerddoriaeth Pen-y-Bont ar Ogwr** | Oes | 22,935 | Adran Addysg | Friends of Bridgend Youth Music |
| **Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerffili** | Oes | 28,408 | Adran Addysg (Gwella Ysgolion) | Na |
| **Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg** | Oes | 77,212 | Adran Addysg Caerdydd | Nid oes Cyfeillion cyffredinol, ond mae gan ddau o'r ensembles gyfeillion |

[20] Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Gâr** | Oes | 27,265 | Adran Addysg | Na |
| **Gwasanaeth Cerdd Ceredigion** | Oes | 9,583 | Adran Addysg | Elusen Cyfeillion |
| **Gwasanaeth Cerdd Conwy** | Nac oes | 15,802 | Adran Addysg, Celfyddydau Mynegiannol | Grŵp Cyfeillion (nid elusen) |
| **Dinbych** | Nac oes | 15,598 | Nid oes Gwasanaeth Cerddoriaeth lleol; mae Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych yn darparu Gwasanaeth Cerddoriaeth annibynnol | - |
| **Gwasanaeth Cerdd Sir Y Fflint** | Oes | 23,395 | Adran Addysg | Elusen Cyfeillion |
| **Cerdd Gwent (Casnewydd, Blaenau Gwent, Mynwy, Torfaen)** | Oes | 61,754 | Newport Education Department + pwyllgor ar y cyd o bum ALl (gan gynnwys Caerffilli) | Elusen Cyfeillion a grwpiau Cyfeillion lleol |
| **Gwynedd & Ynys Môn** | Nac oes | 26,713 | Gwasanaeth Ysgolion William Mathias; Elusen CLG | Mae'r gwasanaeth cerddoriaeth yn elusen |
| **Gwasanaeth Cerdd Merthyr** | Nac oes | 8,915 | Adran Addysg (Cynhwysiant) | Ffrindiau Cerddoriaeth Ieuenctid Merthyr Tudful |
| **Gwasanaeth Cerdd Castell Nedd Port Talbot** | Nac oes | 20,929 | Adran Addysg | Ffrindiau Cerddoriaeth Ieuenctid Gorllewin Morgannwg + Cerdd NPT Music |
| **Gwasanaeth Cerdd Cyngor Sir Penfro** | Nac oes | 17,349 | Adran Addysg (Datblygu Chwaraeon) | Ffrindiau Cerddorion Ifanc Sir Benfro |
| **Cerdd Powys** | Nac oes | 17,207 | Nid oes Gwasanaeth Cerddoriaeth awdurdod lleol; mae ysgolion yn defnyddio ttoriaid preifat; ambell un yn defnyddio Gwasanaeth Cerdd CNPT | Cerddoriaeth Ieuenctid De Powys, a Band Ieuenctid Gogledd Powys |
| **Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf** | Nac oes | 38,635 | Adran Addysg | Friends of RCT Youth Music |
| **Cerdd Abertawe** | Oes | 35,846 | Adran Addysg | Ffrindiau Cerddoriaeth Ieuenctid Gorllewin Morgannwg |
| **Wrecsam** | Nac oes | 19,566 | Nid oes Gwasanaeth Cerddoriaeth lleol; mae Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych yn darparu Gwasanaeth Cerddoriaeth annibynnol | - |
| **Cyfanswm** | | 467,112 | | |

Mae penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth yn hunan-adrodd bod cyfran yr ysgolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a ariennir gan yr awdurdod lleol, lle mae'n bodoli, yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod lleol i'r llall ac yn amrywio o fod mor isel â 45% hyd at 98%, gyda chyfartaledd amcangyfrifedig o 83% yng Nghymru gyfan.

Tanlinellir yr economi gymysg ymhellach gan fod Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol yn gweithredu y tu allan i'w ffiniau eu hunain. Er enghraifft, darganfuom ysgol uwchradd a aeth i dendro am Wasanaethau Cerddoriaeth a dyfarnu'r contract i Wasanaethau Cerddoriaeth awdurdod cyfagos. Adroddwyd wrthym am sawl ysgol ble mae'n well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau awdurdodau lleol cyfagos yn hytrach na rhai eu hunain, am ba reswm bynnag.

## Codi tâl

O'r ALlau a ddarparodd ddata, mae'r ffioedd i rieni yn amrywio o sero ar gyfer yr holl wasanaethau cerddoriaeth sydd ar gael i uchafswm o £216 y tymor ar gyfer hyfforddiant (£30 i £60 fel arfer), yn ogystal â chost ychwanegol ar gyfer chwarae mewn ensemble (hyd at £62 y tymor). Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amrywiad rhwng awdurdodau.

Tabl 3. Ffioedd ar gyfer ysgolion a rhieni (ble bo yna ffigyrau ar gael)

| Math o Awdurdod | SLA Fees/Hour Lower Rate | Ffioedd CLG/Graddfa Awr Uwch | Ffi y rhieni y tymor | Cyllid Blynyddol ALl y pen |
|---|---|---|---|---|
| **Trefol** | £37.23 | £37.23 | Yn gyffredinol gwersi a llogi offerynnau am ddim | £25.56 |
| **Trefol** | £17.00 | £22.67 | Ysgol sy'n penderfynu ar y ffi | £17.60 |
| **Trefol** | £38.00 | £40.00 | Gwersi grŵp £55; gwersi unigol 30 munud £216 | £0.00 |
| **Trefol** | £30.00 | £32.00 | Holl wersi yn rhad ac am ddim | £10.77 |
| **Trefol** | £28.50 | £37.00 | £20 y tymor | £7.64 |
| **Trefol** | £29.70 | £42.40 | £100 a llogi offeryn £13 | £3.34 |
| **Trefol** | £40.40 | £60.00 | £20.00 y tymor | £1.20 |
| **Cymysg** | £34.42 | £34.42 | £130 i £195 y tymor | £3.73 |
| **Gwledig** | | | Llogi offeryn £10 y tymor | £0.00 |
| **Gwledig** | £42.50 | £42.50 | Yr ysgolion sy'n penderfynu ar y ffi | £2.70 |
| **Gwledig** | £53.20 | £53.20 | Yr ysgolion sydd â'r dewis; cadw a chynnal offerynnau £8 | £0.00 |
| **Gwledig** | £36.00 | £36.00 | Ysgolion sy'n penderfynu ar y ffi | £3.80 |
| **Gwledig** | £57.00 | £57.00 | Gwersi grŵp bach £195 | £0.00 |
| **Gwledig** | £46.50 | £46.50 | Yr ysgolion sy'n penderfynu ar y ffi | £9.22 |
| **Gwledig** | | | Ar gyfartaledd £72, ond yn amrywio yn ôl dewis yr ysgolion | £0.00 |

Mae'r tâl a godir ar ysgolion o'r gwasanaeth cerdd yn amrywio o £22.67 i £57.00 yr awr a chytunir arnynt drwy gytundebau lefel gwasanaeth (CLG). Mae'r ffioedd CLG a godir ar ysgolion yn tueddu i fod yn uwch lle mae cyfraniad yr ALl yn is. Fodd bynnag, cymhlethir hyn gan y polisi codi tâl ar gyfer ensembles a llogi offerynnau. Lle mae'r costau ychwanegol hyn yn is, mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar brif gyllideb y gwasanaeth cerddoriaeth ac, felly, mae'n rhaid i'r gwasanaeth ei adennill drwy ffioedd CLG uwch.

Ymhellach, mae'r data sydd ar gael yn dangos bod yna dueddiad i gynyddu taliadau CLG i'r ALlau gwledig. Gall hyn fod oherwydd y pellteroedd hwy rhwng ysgolion, sy'n golygu nid yn unig costau cludiant uwch, ond hefyd bod llai o wersi yn bosibl ar gyfer pob tiwtor oherwydd yr amser teithio. Byddem yn disgwyl i hyn gael rhywfaint o effaith ar y gyfradd sy'n manteisio ar y gwasanaeth ALlau gan ysgolion a lefel y taliadau a drosglwyddir wedyn i rieni gan yr ysgolion. Dywedodd penaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth fod ysgolion yn aml yn ceisio cadw'r taliadau hyn i rieni mor isel â phosibl drwy amserlennu gwersi byr. Gall gwersi un-i-un wythnosol rheolaidd ar gyfer disgyblion fod mor fyr â 10 munud.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ceir costau ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n cymryd rhan yn y gwahanol ensembles. Mewn nifer o awdurdodau lleol mae'r costau yma'n cael eu lleihau oherwydd cefnogaeth gan elusennau 'Cyfeillion ... '. Er bod y rhan fwyaf o'r

gwasanaethau'n darparu ystod amrywiol a chynhwysfawr o ensembles i'r awdurdodau lleol, maent hefyd yn cymryd rhan mewn trefniadau ar y cyd sy'n darparu ensembles ar draws awdurdodau lleol, a chenedlaethol. Mae'r taliadau arferol i rieni/warcheidwaid ar gyfer ensembles yr awdurdod lleol yn amrywio o £42 y tymor ar gyfer corau i £62 y tymor ar gyfer uwch ensembles. Gall costau ychwanegol i rieni gynnwys prynu neu logi offer o ansawdd gwell a chludiant i ddigwyddiadau. Fel rheol, adroddodd penaethiaid gwasanaethau cerdd nad yw ysgolion yn gwneud cyfraniadau at gostau ensemble, sy'n tueddu i gael eu hariannu'n llwyr gan rieni/warcheidwaid. Dyma ble mae elusennau'r 'Cyfeillion... ' yn chwarae rhan yn y gwaith o helpu teuluoedd sydd ag incwm is.

### Cost y gwasanaeth

Mae asesu cyfanswm costau'r gwasanaeth ledled Cymru yn gymhleth, o ystyried y data sydd ar gael. Ni ddarparodd pob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom siarad â hwy fanylion am y cyllid a/neu'r costau. Felly, mae angen edrych ar y data a drafodir yma fel un anghyflawn ac ni ddylid ei ystyried yn gwbl gynrychioliadol, ond gall roi dealltwriaeth o rai o'r materion y mae Gwasanaethau Cerddoriaeth yn eu hwynebu. Wrth geisio ymchwilio ymhellach i'r ffigurau sydd ar gael er mwyn archwilio'r gost fesul disgybl neu gost y gwasanaethau a ddarperir, mae cymhlethdod pellach oherwydd y diffyg data monitro.

Yn y rhan fwyaf o achosion telir cyfraniad yr awdurdod lleol yma i'r gwasanaeth cerddoriaeth; fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau lleol, fe'i telir yn uniongyrchol i'r ysgolion erbyn hyn, a gall ei ddefnyddio i dalu am wasanaeth yr awdurdod lleol drwy gytundeb lefel gwasanaeth neu i brynu sefydliadau allanol neu weithwyr llawrydd.

Yn gyffredinol, mae cyfraniad yr awdurdod lleol yn talu am staffio canolog gwasanaeth cerdd yr awdurdod lleol, yn ogystal ag am gyfran o gost ensembles. Mae ffioedd ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid yn talu am y balans sydd weddill.

Mae gweddill costau Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cynnwys taliadau i ysgolion o dan gytundebau lefel gwasanaeth, ble mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trosglwyddo o leiaf ran o'r costau i rieni/warcheidwaid, gydag unrhyw gostau sydd weddill yn dod o gyllideb yr ysgolion eu hunain.

Mewn o leiaf un ardal awdurdod lleol, mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i fod yn hunan-ariannu heb unrhyw gyfraniad gan yr awdurdod lleol. Mewn geiriau eraill, mae ffioedd rhieni/gwarcheidwaid ac ysgolion yn bwriadu talu am y ddarpariaeth a'r Gwasanaeth Cerddoriaeth ganolog.

Er nad oes unrhyw ddata monitro yn cael ei gasglu er mwyn asesu dilysrwydd yr hawliad, roedd nifer o benaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth o'r farn bod lefelau'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn ysgolion yn yr ardaloedd mwy cefnog a llai cefnog yn wahanol. Fodd bynnag, nid yw nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu, yr oriau a addysgir fesul disgybl, a nifer a hyd y gwersi yn cael eu cofnodi'n gyson gan y gwasanaethau; Felly, nid yw dadansoddiad llawn yn bosibl. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond yr ysgolion sy'n dal y data hyn.

Mae gan ddau awdurdod lleol bolisi lle mae'r gwasanaeth am ddim yn y man darparu, ond nid oes digon o dystiolaeth i ddangos p'un a yw hyn yn gwella'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ai peidio. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir, yn sgil trafodaethau â phenaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth a phenaethiaid, yw eu bod o'r farn bod cyfran y disgyblion hynny sy'n cael gwersi cerddoriaeth yn is o lawer na'r gyfran gyffredinol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod lleol. Awgrymodd rhai penaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth y gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys agwedd rhieni, lle i ymarfer yn y cartref, a chostau eraill fel cludiant, na all darpariaeth gwersi am ddim mynd i'r afael â nhw.

### Gweithlu cynaliadwy

Mae ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn dangos bod pryder mawr ymysg rhanddeiliaid a CAGAC mewn perthynas â chynaliadwyedd y gweithlu tiwtoriaid cerdd. Mae telerau ac amodau cyflogaeth wedi cael eu herydu'n raddol dros y blynyddoedd, sy'n cael effaith ar recriwtio a chadw staff. Roedd nifer o randdeiliaid yn besimistaidd am gynaliadwyedd y gweithlu yn y tymor hir.

Mae natur cyflogaeth a thelerau ac amodau cyflogaeth tiwtoriaid cerdd yn amrywio'n sylweddol, hyd yn oed o fewn gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol, a allai olygu bod rhai tiwtoriaid ar gontract cyflogedig a rhai'n hunangyflogedig. Yn ôl penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth, tan 20 mlynedd yn ôl mae'n debyg taw'r model amlycaf oedd un lle'r oedd yr holl Wasanaethau Cerddoriaeth yn cyflogi staff â Statws Athro Cymwysedig, ond cymharol ychydig sy'n gwneud hynny erbyn hyn.

Fel arfer, caiff tiwtoriaid eu contractio fesul tymor am nifer penodol o oriau mewn nifer o ysgolion. Mae hyn yn wir nid yn unig am wasanaethau awdurdodau lleol ond hefyd am ddarparwyr cydweithredol a phreifat. Yr hyn sy'n denu contract hyblyg neu'r model hunangyflogaeth ar gyfer y gwasanaeth cerddoriaeth yw bod y galw am hyfforddiant yn amrywio, wrth i ddysgwyr ddechrau'n frwdfrydig ond gallant golli diddordeb dros amser wedyn. Ar y llaw arall, bob blwyddyn ceir dysgwyr newydd. I diwtor, nid oes llawer o sefydlogrwydd oherwydd bod oriau ac enillion yn gallu newid yn flynyddol neu hyd yn oed bob tymor. Mae hyn yn berthnasol hefyd i diwtoriaid hunangyflogedig.

Mae barn a rannwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng tîm yr astudiaeth ag aelodau'r CAGAC yn crynhoi'r cyfyng-gyngor:

> ‘Dim ond mewn 30 – 34 wythnos o Wasanaethau Cerddoriaeth y mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn eu prynu (yn lle 39) ac nid yw athrawon llawrydd yn cael eu talu y tu allan i'r cyfnod hwnnw. Ar yr un pryd, lle mae athrawon yn dal i gael eu cyflogi, os yw ysgolion yn terfynu offeryn penodol hanner ffordd drwy'r tymor, ni all y Gwasanaeth Cerdd ddod â chontract yr athro i ben fel bod y cymhorthdal wedyn yn mynd i dalu'r athro am weddill y tymor.’

Adroddodd aelodau CAGAC: 'ni all Gwasanaethau Cerddoriaeth ddefnyddio cymwysterau fel amod cyflogaeth ar hyn o bryd, gan fod recriwtio yn ddigon anodd fel y mae. Hefyd, nid

oes unrhyw gymhwyster sy'n addas i'r diben. ' Ar ben hynny, fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith 'nad yw colegau'n arfogi myfyrwyr yn ddigonol ar gyfer gyrfa mewn addysgu. [Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru] hefyd yn cael anawsterau recriwtio, gan fod yr yrfa ar y cyfryw yn colli ei gwerth.'

Mae Tabl 4 yn archwilio sut y cyflogir tiwtoriaid cerddoriaeth gan y gwasanaethau a rannodd y wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani.  Mae penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth yn adrodd bod y ddarpariaeth gerddoriaeth yn cael ei gyflawni gan gymysgedd o athrawon cymwysedig ac anghymwysedig, sy'n amrywio o 4% i 60% o staff cymwysedig, ond nid yw pawb yn talu yn unol â hynny. Mae rhai gwasanaethau'n talu'r gyfradd anghymwysedig i bawb. Yn y cyfamser, mae rhai gwasanaethau yn talu ar gyfradd is na graddfeydd yr NJC. Y raddfa gyflog fwyaf cyffredin yw cyfradd yr athrawon heb gymhwyso, a'r pwynt uchaf yw pwynt 6 ar y raddfa, sef £27,21626 y flwyddyn ar hyn o bryd (neu £21.51 yr awr[21]).

Tabl 4. Statws cyflogaeth tiwtoriaid

| Math o Awdurdod | Staff TWE (Amser Llawn) | Gweithwyrdros dro | Athrawon Cymwys | Graddfa Cyflog | Recriwtio & Chadw staff |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefol** | 14.8 | 0 | 33% | Graddfa Anghymwys 3 | Gwan |
| **Trefol** | 20 | 0 | 4% | Graddfa Anghymwys 3 | Boddhaol |
| **Trefol** | 21 | 0 | 39% | Cymws ac Anghymwys | Gwan |
| **Trefol** | 18 | 3 | 28% | Cymws ac Anghymwys | Gwan |
| **Trefol** | 4.5 | 0 | 36% | Anghymwys | Gwan |
| **Trefol** | 0 | 41 | 60% | Hunangyflogedig | Da |
| **Trefol** | 15.8 | 0 | 33% | Graddfa Anghymwys 6 | Boddhaol |
| **Trefol** | 40 | 2 | | Graddfa Cymwys 5 | Boddhaol |
| **Cymysg** | 6.8 | 107 | 19% | Graddfeydd Cymwys 5–6 | Boddhaol |
| **Gwledig** | 21 | 0 | 60% | Cymws ac Anghymwys | Boddhaol |
| **Gwledig** | 10 | 0 | 20% | Anghymwys | Gwan |
| **Gwledig** | 11.4 | 0 | 20% | Graddfa Cymwys 5 | Gwan |
| **Gwledig** | 14 | 14 | 50% | Graddfa Cymwys 1 a Graddfa Anghymwys 1 | Gwan |
| **Gwledig** | 0 | 41 | 60% | Hunangyflogedig | Da |
| **Gwledig** | 0 | 54 | 13% | Hunangyflogedig | Yn amrywio yn ôl yr offeryn |

Gofynnwyd penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth am eu barn ar eu profiad o recriwtio a chadw tiwtoriaid, gyda'r rhan fwyaf o benaethiaid gwasanaethau cerddoriaeth ALlau yn nodi bod hyn yn foddhaol ar y gorau neu'n wan. Mae'r holl wasanaethau hynny sy'n talu ar y gyfradd 'pwyntiau graddfa 6' neu uwch yn nodi bod eu recriwtio a'u cadw yn foddhaol neu'n dda, tra bod y mwyafrif o'r rhai sy'n talu ar gyfraddau is yn dweud eu bod yn wan, a bod rhai yn adrodd yn foddhaol. Dywedodd rhai bod cadw staff yn anodd gan fod llawer o gerddorion cymwys newydd yn ymuno â'r gwasanaeth am flwyddyn neu ddwy cyn datblygu gyrfa gerddorol lawn neu ran amser rhywle arall neu adael cerddoriaeth yn gyfan gwbl. Dim ond y cwmnïau cydweithredol a nododd fod recriwtio a chadw staff yn dda.

Ategir yr argraff hon a geir o gyfweliadau rhanddeiliaid gan ymchwil a wnaed gan Undeb y Cerddorion yn Lloegr: ' [Mae cyflog ac amodau gwael] yn arwain at anfodlonrwydd ac

[21] NUT Directed Time Card

ansicrwydd mewn swyddi, sy'n golygu trosiant uchel o athrawon, sydd, yn ei dro, yn effeithio ar barhad dysgu a gallu canolfannau/Gwasanaethau Cerddoriaeth i ddarparu rhaglen eang o weithgareddau.'[22]

Mae statws addysg gerddorol fel gyrfa yn destun pryder arbennig. Gan nad oes fframwaith statudol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol na ddarparwyr eraill, nid yw Estyn yn eu harolygu'n ffurfiol.  Mae ansawdd addysgu a dysgu cerddoriaeth yn cael ei ystyried mewn arolygiadau ysgolion Estyn, fel y mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob pwnc.  Fodd bynnag, nid yw addysgu cerddoriaeth fel disgyblaeth yn cael ei archwilio mewn arolygiadau ysgol ac nid yw Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cael eu cynnwys mewn arolygiadau awdurdod lleol.

Mae statws addysg gerddorol fel gyrfa yn destun pryder arbennig. Gan nad oes fframwaith statudol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol na ddarparwyr eraill, nid yw Estyn yn eu harolygu'n ffurfiol.  Mae ansawdd addysgu a dysgu cerddoriaeth yn cael ei ystyried mewn arolygiadau ysgolion Estyn, fel y mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob pwnc.  Fodd bynnag, nid yw addysgu cerddoriaeth fel disgyblaeth yn cael ei archwilio mewn arolygiadau ysgol ac nid yw Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cael eu cynnwys mewn arolygiadau awdurdod lleol.

Nid oes angen lefelau cymwysterau gofynnol ar diwtoriaid cerddoriaeth, er yn ymarferol, mae gan lawer ohonynt raddau cerddoriaeth a chymwysterau addysgu ôl-raddedig.   Mae cymwysterau ar gael ar gyfer tiwtora cerddoriaeth sydd, gan ei fod yn aml yn cael ei ddarparu ar sail un-i-un, yn gofyn am dechnegau sy'n wahanol i'r rhai mewn addysgu dosbarth.

Oherwydd heriau recriwtio, mynegodd llawer o benaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth bryderon ynghylch proffil oedran eu tiwtoriaid. Mae penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth yn pryderu nad yw tiwtora cerddoriaeth yn cael ei ystyried fel gyrfa, ond yn hytrach i'r rhan fwyaf o raddedigion mae'n waith dros dro nes iddynt ddod o hyd i rywbeth gwell; felly, mae staff iau newydd yn tueddu i symud ymlaen yn weddol gyflym.

### 3.2 Mynd i'r afael â heriau ariannol

Un mater sylfaenol a ddeilliodd o'r drafodaeth a gawsom gyda rhanddeiliaid ar draws y system, yn ddisgwyliedig o bosib, oedd y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth. Mae hyn nid yn unig yn wir yng Nghymru ond hefyd yn un o nodweddion y drafodaeth ehangach ynghylch addysg gerddorol yn y Deyrnas Gyfunol. Mae adolygiad o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth yn Lloegr, lle mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno nifer o 'ganolbwyntiau ' i gydlynu'r ddarpariaeth gerddoriaeth, wedi crynhoi'r her sylfaenol hon fel a ganlyn:

> 'Mae'n rhaid i ganolfannau ddangos bod ganddynt fodel busnes sy'n gweithio'n llwyddiannus. Mae cyllid y prif ganolfannau yn dylanwadu ar arferion cyflogaeth a busnes, yn pennu prisiau masnachu ac yn codi rhwystredigaeth allweddol a

[22] Adroddiad Addysg 2017 Undeb y Cerddorion

> sylfaenol: sef gyda swm penodol o arian, pa lefel o ehangder cerddorol a dyfnder cyfle a phrofiadau y gall canolfannau eu cynnig mewn gwirionedd i'r 8.2 miliwn o blant a phobl ifanc rhwng pump a 18 oed yn Lloegr?'[23]

Yng Nghymru, gydag addysg cerddoriaeth yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol, mae'r pwysau cyllidebol sylweddol a brofwyd ganddynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn peri pryder arbennig. Mynegwyd hyn yn glir iawn mewn cyfarfod a gynhaliwyd gydag aelodau'r CAGAC ar gyfer yr astudiaeth hon. Clywsom safbwyntiau'n awgrymu bod 'adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn galw am safoni ar draws ALlau, ond oherwydd bod y cyllid yn lleihau wedyn, nid oedd hyn yn cael ei gyflawni '.

Codwyd pryderon difrifol gan gyfranogwyr y cyfarfod : 'Mae gwasanaethau cerddoriaeth yn agosáu at 'bwynt tipio' ynghylch toriadau.' Roeddent yn disgrifio

> 'cymysgedd grymus o fod dan fygythiad cyson o ailstrwythuro (e.e. cyflwyno contractau dim oriau), niferoedd gostyngol o ysgolion sy'n cynnig TGAU a Lefel A mewn cerddoriaeth (oherwydd celfyddydau mynegiannol), addysg gerdd yn cael ei gosod yn gynyddol yn erbyn - neu yn cael ei disodli gan - ' brofiadau cerddorol', ac arweinyddiaeth a chefnogaeth annigonol ' (cyfarfod CAGAC)

Mi ddaeth un pryder i'r amlwg mewn dadl am hyfforddiant cerddoriaeth mewn ysgolion a gynhaliwyd yn Senedd Yr Alban ym mis Ebrill 2019, a oedd yn awgrymu:

> 'un o'r pryderon mwyaf i'r Pwyllgor [Addysg a Sgiliau] yw'r ffaith bod rhai cynghorau'n gweld addysgu cerddoriaeth fel targed cymharol hawdd ar gyfer toriadau yn y gyllideb ac fel ffordd o gynhyrchu incwm ychwanegol, efallai er mwyn sybsideiddio gwasanaethau ysgol eraill. Credaf ein bod i gyd yn teimlo'n anghyfforddus iawn am hynny.'[24]

Mae sefydliadau cenedlaethol eraill sydd â rôl wrth gyfrannu at addysg cerddoriaeth yng Nghymru yr un mor ymwybodol o'r mater sylfaenol o ddiffyg arian, a dywedodd un bod 'y ddarpariaeth o Wasanaethau Cerddoriaeth yn frwydr lwyr yng Nghymru', gyda Gwasanaethau Cerddoriaeth 'yn teimlo mewn trafferthion', a sefydliad arall yn dyfynnu'r enghraifft o arian ychwanegol ar gyfer ensembles a oedd 'i fod i ddod gan awdurdodau lleol, ond na ddaeth'.

## 3.3 Profiadau Cerddorol, Addysg Gerddoriaeth a Dysgu cerddoriaeth

Mae pryder allweddol sy'n treiddio i ystyriaethau rhanddeiliaid, ac sy'n amlwg yn yr ymchwil ehangach ynglŷn â darparu addysg cerddoriaeth, yn ymwneud â'r cwestiwn o sut y gall gwahanol fathau o ddarpariaeth ategu ei gilydd orau er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu

[23] The UK Association of Music Education – Music Mark (2018), The Future of the National Plan for Music Education. Mae aelodaeth Music Mark yn cynnwys Mae'r aelodaeth yn cynnwys 95% o'r canolfannau addysg cerddoriaeth, dros 4,500 o ysgolion, addysgwyr cerddoriaeth allweddol, nifer cynyddol o sefydliadau addysg cerddoriaeth cenedlaethol a rhanbarthol, cwmnïau cerddoriaeth corfforaethol a'r sector ehangach.

[24] Scottish Government Debate Transcript: Music Tuition in Schools 30th April 2019

cymell i gymryd rhan mewn addysg cerddoriaeth ac yn gallu dysgu'r sgiliau angenrheidiol. Gall tri phrif fath o ddarpariaeth gael eu gwahaniaethu yn fras:

- ***Profiadau Cerddorol :*** ymyraethau byrdymor sydd fel arfer yn trochi dosbarthiadau cyfan (neu weithiau hyd yn oed yr ysgol gyfan) mewn gweithgaredd tymor byr sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth. Gall y rhain fod yn werthfawr i danio diddordeb mewn cerddoriaeth yn gyffredinol neu annog dysgwr i ymgymryd ag offerynnau dysgu yn y tymor hirach.
- ***Addysg Gerddoriaeth neu Diwtora*** sy'n ymwneud â'r ymrwymiad tymor hir i ddysgu sut i fynd ati i chwarae cerddoriaeth eich hunain, e.e. chwarae offeryn yn dda, neu hyfforddiant llais. Gall hyn gymryd blynyddoedd, o ran meithrin arbenigedd, a gall gynnwys dilyniant drwy gyfnodau arholiadau graddedig.
- ***Dysgu Cerddoriaeth***, sy'n ymwneud â darparu ystod o sgiliau cerddorol sylfaenol mewn ysgolion, wedi ei lywodraethu gan y cwricwlwm a'r galw sydd angen ei ateb mewn ysgolion.

## Profiadau cerddorol

Mae canfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod profiadau cerddorol yn ddeniadol i brifathrawon oherwydd eu bod yn hawdd i gynllunio a chyllido ar eu cyfer. Mae profiadau cerddorol yn arbennig o boblogaidd mewn ysgolion cynradd, sy'n annhebygol o fod ag arbenigwr cerddoriaeth ar eu staff. Atyniad arall yw bod yna elusennau lleol a chenedlaethol sy'n gallu defnyddio arian grant i ddarparu profiadau cerddorol am ddim, yn enwedig mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig.

Gan fod cyllidebau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhai penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol, wrth ystyried dulliau mwy fforddiadwy o addysgu cerddoriaeth mor eang â phosibl, wedi cynyddu eu hymdrech i ddarparu profiadau cerddorol yn hytrach na hyfforddiant hirdymor. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau rhagflas byr ar offerynnau 'safonol ' ond yn gynyddol gall gynnwys bwyslais ar offerynnau eraill megis drymiau samba, cerddoriaeth electronig, canu mewn grŵp, a gitâr. Fe'u cynhelir yn gyffredinol mewn grwpiau mawr, felly nid oes llawer o gyfle i hyfforddi'n unigol, ond maent yn ddeniadol i ysgolion sy'n chwilio am brofiad cerddorol llai drud.

Mae nifer o sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru hefyd yn darparu prosiectau neu raglenni sy'n cynnig profiadau cerddorol. Er enghraifft, roedd rhaglen pum mlynedd i ysgolion gan Opera Cenedlaethol Cymru yn cynrychioli ' buddsoddiad sylweddol ' gan sefydliad Jane Hodge, sydd â diddordeb mewn chwilota'n ehangach am y dalent sydd ar y gweill. Yn yr un modd, mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, fel rhan o'i gorchwyl gwaith allgymorth cymunedol, yn cyflwyno prosiectau cymunedol yn rheolaidd i ennyn diddordeb mewn cerddoriaeth a mwynhad ohono. Er enghraifft, cyrhaeddodd prosiect diweddar a oedd yn gweithio gyda Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol ledled y Gogledd 1,600 o blant. Mae cydnabyddiaeth yn cyd-fynd â'r gwaith hwn bod angen i'r mathau hyn o fentrau 'weithio drwy ryw fath o seilwaith canolbwynt' ac ' na allwn ymgysylltu â phob plentyn ' (CGG BBC NOW).

Fodd bynnag, roedd yna rhai pryderon ynghylch profiadau cerddorol a nodwyd drwy'r ymchwil.

Yn gyntaf, gwelwyd bod risg y gallai profiadau cerddorol ddigwydd yn lle cynigion mwy manwl, yn hytrach na chael eu cynnig fel pwynt mynediad — cyfres o brofiadau tymor byr fel rhan o'r cwricwlwm cerdd yn lle'r cyfle i chwarae offeryn yn y tymor hir.

Yn ail, roedd penaethiaid Gwasanaethau Cerddoriaeth a rhanddeiliaid eraill wedi tynnu sylw at y ffaith bod cwmnïau preifat yn cael eu contractio i gyflenwi ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) — yr amser statudol a ddyrennir i bob athro, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Nodir y materion posib sy'n deillio o hyn yn y dystiolaeth sy'n deillio o Loegr.

Roedd cynrychiolwyr y Canolfannau Cerddoriaeth yn Lloegr a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad o'r farn (yn benodol mewn perthynas ag addysgu ensemble dosbarth cyfan) ei fod 'erbyn hyn yn ddarpariaeth CPA, yn hytrach na bod ysgolion yn derbyn yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Beth yw ein rôl? Ar ben hynny, "fy ' mhrofiad mwyaf rhwystredig fel athro cerdd fu cwrdd â disgyblion newydd sydd heb unrhyw frwdfrydedd i ddilyn hyfforddiant offerynnol pan gaiff ei gynnig oherwydd nad ydynt wedi mwynhau eu profiad ehangach o gyfleoedd.[25]

Yn drydydd, mae pryder, yn enwedig gan CAGAC, fod darparwyr yn aml yn cyflogi pobl ifanc, frwdfrydig, a all fod â diddordeb mewn cerddoriaeth ond nad oes ganddynt gymwysterau ynddi. Mae'n cael ei weld fel ffordd dda i bobl ifanc ennill profiad cyn dechrau ar yrfa mewn ysgolion fel athrawon neu gynorthwywyr cymorth dysgu.

Mae cwestiynau ynghylch pa fath, ac a yw profiad cerddoriaeth wir yn creu pwynt mynediad priodol ar gyfer ymgysylltu mwy trylwyr â cherddoriaeth yn cael eu hategu yn y dewisiadau a wneir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Gyfunol hefyd. Tra yn Lloegr cafwyd y datrysiad i wreiddio dysgu ensemble dosbarth cyfan yn y ddarpariaeth sy'n ofynnol gan bob Canolfan Gerddoriaeth, mae'r Alban wedi dilyn trywydd gwahanol.

Un o rolau craidd Canolfannau Lloegr yw 'sicrhau bod pob plentyn rhwng 5-18 oed yn cael cyfle i ddysgu offeryn cerdd (heblaw llais) trwy raglenni addysgu ensemble dosbarth cyfan a hynny yn ddelfrydol am flwyddyn (ond am gyfnod o dymor fel isafswm) o hyfforddiant wythnosol ar yr un offeryn'.[26]

Mae'r enghraifft Albanaidd, ar y llaw arall, yn dangos sut y mae ffocws trosfwaol o barhad a dilyniant wedi arwain at ateb gwahanol i integreiddio gwasanaethau a gynlluniwyd i gyrraedd pob plentyn gyda chynigion mwy trylwyr ar gyfer y rhai sy'n dymuno mynd ar drywydd cerddoriaeth ymhellach. Wrth fynd y tu hwnt i brosiectau neu raglenni sy'n darparu profiadau cerddorol sy'n tueddu i ganolbwyntio ar ymyriadau cymharol fyrdymor, mae'r fenter cerddoriaeth ieuenctid YMI yn cynnig cronfa wedi'i thargedu ar gyfer cyflawni

[25] Music Mark (2018), The Future of the National Plan for Music Education, A Report on the Consultation of Music Mark members.

[26] Fautley M & Whittaker A (2018), Key Data on Music Education Hubs 2017.

ymrwymiad Llywodraeth yr Alban i bob disgybl ysgol yn Yr Alban i gael cynnig o flwyddyn o hyfforddiant cerddoriaeth yn rhad ac am ddim cyn iddynt adael ysgol gynradd[27].

### Addysg / hyfforddiant Cerddoriaeth

Addysg cerddoriaeth neu addysgu mewn perthynas ag offerynnau yw conglfaen y Gwasanaethau Cerddoriaeth bresennol yng Nghymru. Gwneir hyn ar hyn o bryd drwy grwpiau bach, fel arfer o ddau, tri neu bedwar disgybl neu ar ffurf hyfforddiant un-i-un. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae gwaith blaenorol ar ddarparu addysg cerddoriaeth yng Nghymru wedi canolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod argaeledd gwersi offerynnol yn decach yng Nghymru.

Mae hyn wedi cysylltu â gweithio tuag at gynnig mwy cyson o hyfforddiant mewn gwahanol offerynnau a chyflwyno mwy o gydlyniaeth a safoni'r ffyrdd y telir am gostau hyfforddiant o'r fath, h.y. gan rieni neu drwy gymorthdaliadau cyhoeddus. Ynghyd â hyn, mae'r rhyngwyneb gydag ensembles rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn galluogi dilyniant mewn perthynas â'r 'pyramid Cymreig' wedi bod yn ffocws. Soniodd rhanddeiliaid am yr angen i adnabod cerddorion talentog yn ifanc ac yna eu meithrin.

Er enghraifft, mae integreiddio darpariaeth leol mewn ysgolion â llwybrau dilyniant i'r lefel ranbarthol a chenedlaethol, y cyfeirir ati'n aml fel y system pyramid, wedi bod yn ganolbwynt sylw. Mae'r angen am gysylltiad cadarn â hyfforddiant cerddoriaeth leol yn parhau i gael ei gydnabod gan randdeiliaid allweddol: 'Mae angen recriwtio ar gyfer y Gerddorfa Genedlaethol drwy ddarparwyr lleol sy'n gweithio gydag ysgolion, oherwydd ar gyfer cerddorfa o 120 mae angen eu cefnogaeth' (Rhanddeiliad CAGAC)

Yn y gorffennol, fodd bynnag, dim ond pan fo'r awdurdod lleol yn rhedeg y Gwasanaeth Cerddoriaeth y mae wedi bod ar gael. Cyfeiriodd nifer o gyfweleion at y mater hwn, gan nodi yn y gorffennol, nad oedd modd i ddysgwyr a oedd ond wedi derbyn gwersi preifat gael mynediad at ensembles, a oedd ar gyfer dysgwyr yng Ngwasanaeth Cerddoriaeth yr awdurdod lleol yn unig. O ganlyniad, mynegodd llawer o benaethiaid Gwasanaethau cerddoriaeth bryderon ynghylch cyflwyno gwasanaethau gan gwmnïau cydweithredol, sefydliadau dielw neu'r sector masnachol. Fodd bynnag, mae datblygiadau yng Ngwynedd ac Ynys Môn, lle mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan elusen ar gontract o'r ddau awdurdod lleol sy'n cynnwys rheoli'r ensembles, a lle mae ysgolion yn cyrchu gwasanaethau gan gorff anllywodraethol, yn dangos bod ffyrdd eraill o integreiddio gwahanol fathau o addysg cerddoriaeth yn ymarferol.

Yn yr un modd, mae newidiadau i'r ffordd y mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru eu hunain yn gweithio i ymestyn eu cyrhaeddiad i leoliadau gwahanol er mwyn dod o hyd i dalent yn dangos tirlun addysg cerddoriaeth ar ei newydd wedd: ' Mae recriwtio ar gyfer rhai cynigion cenedlaethol bellach yn ehangach drwy'r sector ieuenctid yn ei gyfanrwydd. ' (Elusen celfyddydau cenedlaethol)

[27] Creative Scotland (2018), YMI Annual Plan 2018-19.

At ei gilydd, mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu bod her fwy sylfaenol i'r ffordd y caiff addysg cerddoriaeth ei fframio a'i chyflwyno ar hyn o bryd. Crynhodd un rhanddeiliad hyn, gan nodi bod 'yr argyfwng yn fwy cynnil o ran pa fathau o gelfyddyd sydd ar gael i bobl ifanc a pha lwybrau sy'n bodoli i wahanol offerynnau a ffurfiau celf '. (Elusen gerdd genedlaethol)

Mae'r her i'r ffyrdd presennol o feddwl am addysg/hyfforddiant cerddoriaeth yn gyfystyr â chwestiynu'r union ganlyniadau y mae angen eu cyflawni er mwyn ateb amcanion polisi ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru. Amlinellodd un rhanddeiliad hyn, gan ddatgan 'y gellir defnyddio gwahanol ddulliau i gyflawni amrywiaeth, o gynnig roc a phop i wahodd gwahanol alluoedd i gerddorfeydd. Ydy, mae llai o bobl ifanc yn dysgu offeryn, ond mae ysgolion yn edrych ar greadigrwydd mewn ffyrdd eraill.' Ymdrinnir â'r creadigrwydd datblygol hwn mewn ysgolion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. (Elusen celfyddydau cenedlaethol)

Mae hyn yn adleisio ymchwil academaidd gyfredol a diddordeb sectoraidd mewn mannau eraill hefyd. Mae'r mater o sut y gall addysg cerddoriaeth fynd y tu hwnt i'r hyn a welir yn aml yn ofod elitaidd yn un agwedd ar y ddadl sylfaenol hon sy'n ofynnol er mwyn llunio casgliadau ynglŷn â'r ddarpariaeth fwyaf priodol. Mae hyn yn cael ei gyfleu yng ngwaith Prifysgol Sydney ynghylch lle cerddoriaeth mewn addysg yn yr 21ain ganrif (a'r cwrs MOOC cysylltiedig34). Gan roi her i'r sector yn ei gyfanrwydd, mae'r academydd arweiniol ar gyfer y prosiect hwn yn awgrymu, 'er mwyn llwyddo mewn cerddoriaeth, rhaid i chi hyfforddi'r ffordd gerddoriaeth gelf orllewinol, gan gynhyrchu cenhedlaeth arall o gerddorion gyda gwerthoedd tebyg a byd-olwg am yr hyn sy'n bwysig yn addysg cerddoriaeth. Yn effeithiol ac o bosibl nid yn fwriadol, rydym wedi creu system addysg cerddoriaeth, nid ar gyfer pob myfyriwr, ond ar gyfer lleiafrif bach sy'n gallu ei barhau.'[28]

## Dysgu cerddoriaeth

Caiff profiadau cerddorol ac addysg/gwersi cerddoriaeth eu cyflwyno ar y cyd â darpariaeth addysgu cerddoriaeth yr ysgolion eu hunain, a disgwylir iddynt ategu'r rhain wrth sicrhau addysg gerddoriaeth gyflawn. Mewn ysgolion cynradd, mae addysgu cerddoriaeth yn tueddu i ddibynnu ar arbenigedd cerddorol y staff. Fel arfer, mae gan ysgolion uwchradd un neu fwy o athrawon cerddoriaeth arbenigol; yn gynyddol, fodd bynnag, bu symudiad i greu adrannau celfyddydau mynegiannol. Adlewyrchir hyn ym maes celfyddydau mynegiannol y cwricwlwm i Gymru, sy'n cwmpasu cerddoriaeth, dawns, drama, celf, ffilm a chyfryngau digidol. Mae'n rhy gynnar i ystyried a fydd y cwricwlwm newydd yn cryfhau statws cerddoriaeth mewn ysgolion, a sut, ond bu tuedd ostyngol dros y degawd diwethaf, fwy neu fwy, o ran disgyblion yn dewis cerddoriaeth fel pwnc: rhifau mynediad ar gyfer TGAU cerddoriaeth yn 2008/9 oedd 3,368 o'u cymharu â 2,138 yn 2017/18; roedd y ffigyrau ar gyfer cerddoriaeth safon uwch yn 575 yn 2008/9 o'i gymharu â 271 yn 2017/18[29].

Mae tystiolaeth o'r profiad yn Lloegr yn awgrymu bod un elfen allweddol o gyfuno addysgu cerddoriaeth yn seiliedig ar y cwricwlwm gydag addysg cerddoriaeth yn ymwneud â'r

[28] Humberstone J (2018), The Place of Music in 21st Century Education lectures: Introduction to Module.
[29] StatsCymru: Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU fesul grŵp pwnc

cysylltiad â'r union ffocws a'r swyddogaeth sydd ei angen ar bob un o'r rhain i fod yn glir. Mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth yn Lloegr (NPME) yn dangos bod yna berygl, heb eglurder, y bydd ysgolion yn mynd yn or-ddibynnol ar wasanaethau addysg cerddoriaeth ar gyfer darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm hefyd. ' Mae angen egluro'r NPME mewn perthynas â'r [Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer] cerddoriaeth, buasai hyn yn cael ei helpu gan gynnwys sydd wedi'i ddiffinio'n fwy eglur yn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth. Weithiau mae'n cael ei ddisgrifio fel ' rhy niwlog ' [...] dylai'r NPME nodi pa fath o ddarpariaeth gerddorol dda sydd ar gael mewn ysgolion.'[30]

Heb rwymedigaethau statudol, cafodd y canolfannau cerddoriaeth drafferth i ymgysylltu ag ysgolion, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar gontractau sero awr neu athrawon hunangyflogedig. Mae rhai yn ystyried bod darnio'r addysg cerddoriaeth o ganlyniad i ddiwygio'r cwricwlwm a'r amrywiaeth o ddulliau a fabwysiedir gan ganolfannau a chyrff eraill yn atgyfnerthu'r cysyniad o 'loteri cod post' yn sylweddol.

Mae'r adroddiad *State of Play*[42] o 2019 yn gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â:

- cryfhau amodau cyflogaeth athrawon cerddoriaeth, gan gynnwys canolbwyntio ar gymwysterau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus;
- yr angen i ddwyn canolfannau cerddoriaeth i gyfrif am eu perfformiad — gan gynnwys fel catalyddion ar gyfer rhwydweithio lleol a goruchwylio llwybrau datblygu effeithiol — a'r gwerth am arian y maent yn ei ddarparu, tra'n rhoi mwy o ryddid iddynt flaenoriaethu darpariaeth yn unol ag anghenion lleol;
- sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i blant o deuluoedd incwm isel;
- cryfhau statws cerddoriaeth fel pwnc craidd yn y cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys talu sylw iddi fel rhan o'r drefn arolygu ysgolion
- gwell defnydd o dechnoleg ar gyfer addysgu cerddoriaeth.

Ceir manylion pellach am y cyd-destun Seisnig yn Atodiad 2.

### 4.4 Y Profiad Albanaidd

Tynnwyd sylw at sefyllfa'r Alban yn 2019 mewn adroddiad a ysgrifennwyd gan y grŵp partneriaeth addysg cerddoriaeth (MEPG Scotland) o'r enw *What's Going On?*[43]. Mae'r strwythur cyflenwi yn debyg i'r un yng Nghymru gan ei fod yn seiliedig ar Wasanaethau Cerddoriaeth sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol.

Crynhoir canfyddiadau allweddol yr ymchwil hon fel a ganlyn:

- Mae'r cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth yn Yr Alban drwy'r awdurdodau lleol yn cyfateb i £ 24m, ynghyd â chyfraniadau gan rieni o tua £4m (neu tua 16% o gyfanswm y costau). Yn seiliedig ar boblogaeth o 5miliwn o bobl, mae hyn yn cyfateb i £4.8 fesul dysgwr o gymharu â £1.38 fesul dysgwr yn Lloegr.
- Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol, mae gwasanaethau cerddoriaeth wedi cynnal cyfradd o gyfranogiad cyfartalog o 8–9% mewn perthynas â disgyblion yn mynychu gwersi offerynnol.
- Mae tystiolaeth yn dangos bod y cynnydd yng nghodi tâl am wersi cerddoriaeth wedi cyflymu'r bwlch ansawdd bywyd rhwng y rhai cefnog a'r rhai mewn tlodi.
- Ceir canfyddiad bod cerddoriaeth yn cael ei dibrisio o'i gymharu â phynciau eraill addysg ffurfiol.

[42] State of Play: A Comprehensive report into the State of Music Education in England, Musicians Union, April 2019.
[43]: What's Going On Now: A study of young people making music across Scotland

- Ceir llai o ddealltwriaeth o'r cyfleoedd cyflogaeth o fewn y diwydiannau cerddoriaeth cyfredol.
- Yn 2017 – 18, roedd tua 244,000 o bobl ifanc wedi ymgymryd yn y fenter cerddoriaeth ieuenctid YMI, gydag o leiaf 202,000 yn rhan o weithgareddau yn yr ysgol ac o leiaf 42,000 mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.
- Er gwaethaf heriau ariannol, derbyniodd ychydig dros 60,000 o bobl ifanc hyfforddiant gan wasanaethau cerddoriaeth a ariannwyd gan awdurdodau lleol yn 2017–18.
- Mae darparwyr bach wedi wynebu anhawster wrth gynnal eu darpariaeth, ac nid yw effeithiolrwydd rhwydweithiau a phartneriaethau wedi cael ei wireddu'n llawn eto, er bod awydd clir i'w cryfhau.
- Gellid hyrwyddo arbedion maint a chynilion effeithlonrwydd drwy gyfuno'n genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- Mae'r galw gymaint yn fwy na'r hyn a ddarperir, i'r fath raddau fel bod gan sectorau trydydd-parti a chyflenwyr preifat le hefyd fel rhan o ecoleg y ddarpariaeth; sydd ar hyn o bryd, yn anghydlynus.
- Roedd y gyfran gyfartalog o ddisgyblion (canolrif) a oedd yn derbyn hyfforddiant trwy wasanaethau cerddoriaeth lleol oddeutu 8–9%. Mae hyn yn awgrymu mai'r cyflenwad sy'n pennu nifer y disgyblion sy'n cael hyfforddiant, nid y galw.
- Mae 70 y cant o ddisgyblion sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol yn cyfrannu at gost yr hyfforddiant.
- O'r 32 o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol, mae 25 bellach yn codi tâl am hyfforddiant. Y ffi gyfartalog (canolrif) yw £220. Uchafswm y ffi yw £524.
- Mae gwasanaeth cerddoriaeth Yr Ucheldiroedd bellach yn ymddiriedolaeth breifat — y cyntaf yn yr Alban, sef *The Highlands Music Service*.
- Mae dyfodol gwasanaeth cerdd Midlothian — sef y cyngor cyntaf yn Yr Alban i atal ariannu yn gyfan gwbl — yn cael ei adolygu ar hyn o bryd[44]. Gostyngodd hyfforddiant offerynnol o 39% wedi i'r Cyngor gynyddu'r taliadau i dros £200 y flwyddyn.
- Mae tua 19,000 o ddisgyblion yn derbyn hyfforddiant offerynnol yn rhad ac am ddim.

## 4.5 Gogledd Iwerddon

Am 50 o flynyddoedd, roedd addysg yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei rheoli gan fyrddau Addysg a Llyfrgelloedd lleol, tan grëwyd Asiantaeth Addysg unedig. O ganlyniad, cafodd Gwasanaethau Cerddoriaeth eu darparu'n annibynnol mewn pum ardal nes i wasanaeth cerddoriaeth Gogledd Iwerddon gael ei greu ym mis Ionawr 2017. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd 72% o ysgolion Gogledd Iwerddon. Mae hyn oherwydd y tybiwyd bod ysgolion gramadeg gyda'r gallu i ddarparu eu hyfforddiant cerddoriaeth eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn cyrraedd tua 54,000 o ddisgyblion.

Yn debyg iawn i Gymru, mae'r gwasanaeth yng Ngogledd Iwerddon mewn darnau. Mae pob un o'r pum rhanbarth yn darparu gwahanol wasanaethau ac mae ganddo strwythurau codi tâl a phrosesau cyflogaeth gwahanol ar gyfer tiwtoriaid; yn Belfast, er enghraifft, mae'r tiwtoriaid yn bennaf ar gyflog athro cymwysedig, ac nid yw hynny'n wir mewn mannau eraill. Fel yng Nghymru, ceir sector preifat cryf o diwtoriaid cerddoriaeth.

[44] Edinburgh Evening News

Mae'r gwasanaeth yn anfonebu ysgolion ar gyfer amser tiwtor. Yr ysgolion sydd yn penderfynu a ydynt yn trosglwyddo'r ffioedd hyn i'r rhieni, a sut. Mae rhai yn trosglwyddo'r tâl yn llawn, tra bo eraill yn rhoi graddfeydd o gymhorthdal i ddisgyblion difreintiedig.

Ceir ffyrdd i ddisgyblion talentog symud ymlaen drwy ensembles rhanbarthol i ensembles Gogledd Iwerddon megis cerddorfa ieuenctid Ulster a chôr ieuenctid Ulster.

Mae'r gwasanaeth newydd gychwyn adolygiad strategol gyda'r nod o ddatblygu i fod yn wasanaeth cenedlaethol gyda thri rhanbarth sy'n cynnig gwasanaeth unedig, polisi prisio cyffredin a thelerau cyflogaeth cyffredinol ar gyfer staff.

Caiff ansawdd y ddarpariaeth ei gynnal drwy gael rhaglen ar gyfer hyfforddi a datblygu staff yn rheolaidd, rhannu arbenigedd a monitro perfformiad arholiadau myfyrwyr. Ceir proses arfarnu flynyddol. Nid yw'r arolygiaeth hyfforddiant addysg yn arolygu gwasanaethau cerddoriaeth. Yn dilyn yr adolygiad, gall hyn newid.

Mae'r gwasanaeth yn anstatudol ond yn cael ei ariannu gan y llywodraeth ar lefel o £3.5miliwn y flwyddyn, gyda £3.5miliwn pellach yn deillio o godi tâl am wersi, gan gynhyrchu cyfanswm trosiant o £7miliwn y flwyddyn.

### 4.6 Sut mae'r Profiad mewn Mannau Eraill yn Berthnasol i Gymru?

Y prif bwynt i ddysgu o archwilio'r gwasanaethau cerddoriaeth uchod yw nad yw Cymru ar ei phen ei hun o ran wynebu'r materion a amlinellir yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Mae gan Yr Alban strwythur tebyg i un Cymru, gyda'r awdurdodau lleol yn brif ddarparwyr, er bod y sector elusennol wedi dechrau ymgymryd â rhywfaint o'r ddarpariaeth, gyda mwy o arian yn cael ei wario y pen nag yng Nghymru na Lloegr.

Mae Gogledd Iwerddon wedi pontio o fodel sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol i fodel cenedlaethol ond heb fynd i'r afael â materion gwasanaethau anghyfartal, modelau codi tâl, a thelerau ac amodau ar gyfer tiwtoriaid cerddoriaeth a etifeddwyd gan yr hen wasanaethau awdurdodau lleol hyd yn hyn.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cyfrannu £4.80 fesul dysgwr o'i gymharu â £1.38 y dysgwr yn Lloegr a £1.46 yng Ngogledd Iwerddon. Mae cyfraniadau rhieni yn llawer is o ran canran yn Yr Alban (17.5%) yn hytrach na bod yn agosach at 50% sy'n gyffredin ym mannau eraill.

Dim ond Lloegr sydd â Chynllun Cenedlaethol, er bod Gogledd Iwerddon yn ystyried hyn.

Mae Cynllun Cenedlaethol Lloegr wedi bodoli ers 2011, pan gafodd ei gomisiynu gan Michael Gove a oedd yn Weinidog Addysg y cyfnod. Mae cyflwyno canolfannau cerddoriaeth wedi hoelio sylw; fodd bynnag, erys pryderon difrifol ynghylch eu gweithrediad (gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion). Er enghraifft, mae Undeb y Cerddorion wedi bod yn feirniadol iawn o'r gwrthdaro buddiannau mewn rôl barhaus awdurdodau lleol sy'n rhedeg Hubs sy'n comisiynu gwasanaethau ganddynt hwy eu hunain yn ogystal â chyflenwyr eraill.

Mae'n ymddangos bod y profiad yn Lloegr yn awgrymu bod cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn gyfle unigryw i gryfhau statws cerddoriaeth fel pwnc mewn ysgolion. Ymddengys nad yw'r model canolfannau Lloegr yn mynd i'r afael yn ddigonol eto â'r angen

am gynnydd wrth addysgu cerddoriaeth, sy'n hanfodol er mwyn creu llwybrau ar gyfer hwyluso dysgwyr sy'n arbennig o dalentog.

Yn ogystal, mae'r adolygiad yn awgrymu bod nifer o ffactorau eraill yn angenrheidiol ar gyfer model llwyddiannus:

- bod pob un yn derbyn systemau atebolrwydd clir ac yn gallu canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n deillio o'r fframwaith cenedlaethol;
- rhywfaint o gydlyniaeth yn nhermau cyflog tiwtoriaid cerddoriaeth, telerau ac amodau, a'r cymwysterau;
- yr angen i ysgogi a chaniatáu arbrofi gyda chysyniadau arloesol ar gyfer addysg gerddorol (e.e. gwneud defnydd o dechnoleg).

# 5 A ddylid creu Cynllun Addysg Cerddoriaeth Cenedlaethol i Gymru?

## 5.1 Cefndir

Cafwyd awgrym cryf gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru bod angen Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth.

Roedd bron pob un o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cytuno bod angen cynllun o'r fath ar frys. Roedd hyn yn wir am y rhai a awgrymodd y dylai'r model cyflenwi fod yn seiliedig ar awdurdod lleol neu'n rhanbarthol yn ogystal â'r rhai a oedd yn ffafrio model cenedlaethol o ddarparu gwasanaethau.

'Yn sicr o blaid Cynllun Cenedlaethol/strategaeth y buasai'n ennyn gweithredu, ond dim byd rhy gymhleth.'

'Buasai Cynllun Cenedlaethol yn caniatáu cysondeb yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu er budd yr holl ddysgwyr.'

'Buaswn i o blaid model rhanbarthol ar gyfer darparu, ond mae angen strategaeth genedlaethol er mwyn sicrhau chwarae teg i bawb.

Sicrhau bod hyfforddiant cerddorol yn hawl statudol yw'r ffordd ymlaen, ond rhaid i hynny fod yng nghyd-destun cytundeb cenedlaethol ar sut i gyflwyno Gwasanaeth Cerddoriaeth.'

Roedd un rhanddeiliad o awdurdod lleol yn cysylltu'r angen am gynllun o'r fath i ariannu:

'Mae strategaeth gyffredinol yn bwysig, ond mae ariannu yn allweddol. A ellid cael pot o gyllid wedi'i neilltuo gydag arian o addysg, y celfyddydau, ac awdurdodau lleol? ... Gallai'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt bellach yn cyfrannu — Powys, Caerdydd, ac ati — gael eu gwirdroi yn ol i'r abwyd o fwy o arian ar gyfer y newydd, efallai'n gysylltiedig â'r cwricwlwm Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol.'

Yn fwy na hynny, roedd yn glir o'r rhanddeiliaid bod rhaid gwneud unrhyw gynllun o'r fath yn orfodol; fel arall, buasai'n parhau'n ddyhead yn hytrach nag yn realiti. Cydnabuwyd bod

ymdrechion blaenorol i newid gwirfoddol gan awdurdodau lleol (fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen) wedi methu dylanwadu ar benderfyniadau..

O ystyried y cymhlethdod presennol yn narpariaeth addysg cerddoriaeth yng Nghymru, gallai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ddarparu'r gallu i greu mwy o gydlyniad a sbarduno gwelliannau penodol. Gallai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ddarparu fframwaith cyfeirio i randdeiliaid allweddol ystyried a chytuno ar yr atebion mwyaf priodol ar gyfer agweddau unigol ar ddarparu addysg gerddorol yng Nghymru.

Rydym wedi ystyried rôl, a'r rhesymeg dros, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ar wahân i'r opsiynau ar gyfer model darpariaeth ar gyfer addysg gerddorol. Mae'r adran hon felly yn nodi'r cynnwys a'r egwyddorion cyffredinol y dylai'r cynllun cwmpasu. Yn amlwg, byddai angen i'r cynllun fod yn 'eiddo' i sefydliad neu i bartneriaeth ddiffiniedig.

Gallai union delerau'r cynllun gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ac yna eu rhoi i'r sefydliad a fuasai'n ei gyflawni.  Neu, gallai bod yn dasg gyntaf i sefydliad newydd greu'r cynllun mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, y gall sefydliad newydd wedyn ei gynnal a'i gadw.

Mae'r cynnwys a'r egwyddorion a gyflwynir yma yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, gan gynnwys yr adolygiad dogfennol, cyfweliadau â rhanddeiliaid, a'r arolwg o'r ddarpariaeth addysg cerddoriaeth bresennol yng Nghymru, yn ogystal â nodi unrhyw elfennau arfer da o'r adroddiadau am y newidiadau yn narpariaeth addysg gerdd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## 5.2 Beth yn union fyddai'r amcanion ar gyfer Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol?

Nododd y safbwyntiau a gasglwyd gan randdeiliaid y buasai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno'r mathau o gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cynnal gwasanaeth cerddoriaeth o ansawdd uchel drwy greu cydlyniad a chysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru. O'r cyfweliadau hyn, yr adroddiad Gorchwyl a Gorffen, adroddiad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol, ymchwil yn y maes addysg gerddorol, a defnyddio profiadau cynllun cenedlaethol Lloegr, buasai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru yn helpu cyflawnu yr amcanion canlynol:

***Yn nhermau addysgiadol:***

- darparu fframwaith ar gyfer addysg gerddorol mewn ysgolion, Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill sy'n caniatáu meincnodi clir o ran ansawdd a darpariaeth fel elfen gref o'r Profiad Dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol Cwricwlwm Cymru;
- codi safonau a darparu cysondeb wrth ddarparu cyfleoedd addysg cerddoriaeth i bob plentyn a pherson ifanc ledled y wlad;
- mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth bresennol a sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i blant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r wlad;

- codi dyhead ar draws y wlad mewn perthynas â manteision addysg cerddoriaeth i bawb;
- tynnu sylw at y dystiolaeth ymchwil allweddol sy'n gysylltiedig â manteision addysg cerddoriaeth i bawb
- amlinellu llwybrau dilyniant allweddol i gerddorion ifanc o'r cyfnod cyn-ysgol i'r brifysgol a thu hwnt;
- rhoi arweiniad a chymorth i rieni a gwarcheidwaid;

***Yn nhermau sefydliadol:***

- creu agenda a dyheadau ar y cyd ynghylch addysg gerddorol yng Nghymru;
- arddangos cyfleoedd ar gyfer dulliau arloesol a chreadigol o addysgu cerddoriaeth i sefydliadau newydd sy'n ceisio datblygu eu gwaith yn y maes hwn;
- cysylltu'r rheini â buddiannau masnachol ehangach a'r rhai sy'n darparu rhaglenni addysg cerddoriaeth yng nghyd-destun gwerthoedd ac amcanion craidd;
- helpu datblygu cymunedau cerddorol ledled Cymru a chyfeirio, darlunio a rhannu arfer gorau yng nghyd-destun amcanion a gwerthoedd y cynllun;

***Yn nhermau gwleidyddol***

- sefydlu momentwm gwleidyddol a chefnogaeth barhaus i addysg gerddorol o ran cymorth, strwythur atebolrwydd cliriach, ac ariannu parhaus gan y Llywodraeth a ffynonellau eraill;
- sicrhau bod addysg cerddoriaeth i bawb yn cael ei chydnabod fel gwerth democrataidd craidd sydd wrth wraidd yr holl sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y system addysg gerddorol yng Nghymru, sy'n ei chefnogi ac sy'n elwa ohoni;

***Yn nhermau economaidd:***

- cynhyrchu cerddorion er mwyn darparu gweithlu parhaus ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth ac adloniant a chyfrannu at economi ehangach Cymru;
- cefnogi gweithio mewn partneriaeth rhwng gwahanol sefydliadau cyhoeddus a phreifat, elusennau, cwmnïau cydweithredol, ac eraill sydd am ddatblygu dulliau newydd o fynd rhagddi i addysgu cerddoriaeth;
- annog creadigrwydd yn y sector, yn enwedig o ran defnyddio technolegau newydd, er mwyn helpu i ddarparu cyfleoedd addysg cerddoriaeth mewn ffyrdd newydd i'r rhai mewn rhannau anghysbell o'r wlad.

Felly dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ddarparu fframwaith a meincnod ar gyfer darparu addysg cerddoriaeth gynhwysfawr a datblygiadol o ansawdd uchel ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Dylai ddarparu sail resymegol glir fel sail i bawb sydd â diddordeb weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth.

## 5.3 Beth ddylai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru ei gynnwys?

Mae'r adran hon yn seiliedig ar ein cyfweliadau, adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, adroddiad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol, ymchwil addysg gerddorol, a gwneud defnydd o brofiadau cynllun cenedlaethol Lloegr. Bydd angen datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Gymru ar y cyd rhwng yr holl randdeiliaid.  Roedd hynny yn un o argymhellion adroddiad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol.

Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol annog a gwobrwyo'r gwaith o adeiladu partneriaethau cryf ar gyfer addysg gerddorol ledled Cymru. Dylai'r partneriaethau hyn gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion, awdurdodau lleol, gwasanaethau cerddoriaeth, elusennau, cwmnïau cydweithredol, a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn hyrwyddo addysg cerddoriaeth o safon i bawb. Ni ddylai'r cynllun fod yn fewnblyg; yn hytrach, dylai ddathlu'r lliaws o ddulliau gweithredu a lleoliadau y gall addysg cerddoriaeth ddigwydd o'u mewn, gan eu dwyn ynghyd a sicrhau bod gwerthoedd craidd sy'n gysylltiedig ag addysg gerddoriaeth ddemocrataidd a chynhwysol yn cael eu hyrwyddo. Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru nodi ac amlygu partneriaethau er mwyn sicrhau dilyniant a darparu tystiolaeth o arfer gorau wrth greu llwybrau priodol. Bydd y sylfaen adnoddau cryfaf ar gyfer addysg gerddorol yn cael ei sefydlu yn y partneriaethau hyn.

At hynny, dylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ddarparu manylion clir ynglŷn â chyllido addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys y gwariant disgwyliedig sy'n gysylltiedig â chyllid Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a chynnig syniad o'r hyn y dylid disgwyl i rieni ac ysgolion gyfrannu. Dylid cydnabod y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â phlant dawnus a thalentog, y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rheini mewn rhannau o'r wlad sy'n ddaearyddol anghysbell.

Er mwyn darparu fframwaith priodol i gyflawni’r hyn a ddisgwylid, rydym yn argymell y dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol meddu ar chwe elfen allweddol:

1. Cerddoriaeth yn ysgolion
2. Gwersi offerynnol ac ensembles
3. Hyfforddiant cychwynnol i athrawon
4. Datblygiad Proffesiynol
5. Adnoddau
6. Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru

### Cerddoriaeth yn ysgolion

Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol egluro sut y mae cerddoriaeth yn rhan o Gwricwlwm i Gymru fel y gall y Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol ddarparu addysg gerddorol gynhwysfawr, ddatblygiadol a chydlynol i bob plentyn rhwng 2 a 18 oed yn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion a gynhelir.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad i addysg gerddorol gynhwysfawr, sy'n cynnwys prif weithgareddau canu, perfformio, cyfansoddi, gwrando a gwerthuso. Mae cerddoriaeth yn un o'r pum maes y bydd angen i ysgolion eu darparu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae'r camau dilyniant yn eglur o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol sy’n amlinellu'r elfennau a'r ffurfiau y dylai dysgwyr eu cyflawni wrth iddynt aeddfedu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â dysgu cerddoriaeth i bob disgybl. Mae hyn yn wahanol i addysg gerddorol, ond yn gysylltiedig â hi. Dylai gwaith darparwyr eraill, gan gynnwys Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol, cwmnïau cydweithredol, elusennau a chwmnïau preifat, gefnogi cynnig y cwricwlwm (yn hytrach na chael ei ystyried yn rhywbeth sy'n ei ddisodli). Mae'n rhaid i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol weithio ar y cyd â'r Cwricwlwm i Gymru a chynorthwyo ysgolion gyda'u darpariaeth o'r cwricwlwm hwnnw.

Rhaid i'r fframwaith atebolrwydd sydd i'w gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol hefyd edrych ar fesuriadau o ansawdd, effaith a dilyniant o fewn y rhaglenni addysg cerddoriaeth a gynigir gan ysgolion. Fel rhan o'r broses hon, dylid nodi a dathlu arfer gorau drwy ysgolion ddisglair neu gampus. Gall hyn adeiladu ar y rhwydwaith o Ysgolion Creadigol a gafodd eu meithrin gan fentrau Cyngor Celfyddydau Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â gwaith Ysgolion Arloesi sydd wedi bod yn datblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Gallai'r ysgolion hyn gael adnoddau ychwanegol er mwyn helpu lledaenu eu harferion gorau ledled y rhanbarth ac ar-lein drwy rwydwaith adnoddau rhithwir pwrpasol (gweler isod).

Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ddangos llwybrau dilyniant clir ar gyfer datblygiad plant drwy'r rhaglenni addysg cerddoriaeth amrywiol a drefnir gan ysgolion mewn partneriaeth â darparwyr gwersi offerynnol, a gweithgareddau ensemble cerddorol - ac eraill - o ddiddordeb. Dylai'r llwybrau datblygu hyn fod yn eang eu cwmpas a dylent gynnwys enghreifftiau o'r plant hynny sy'n arddangos nid yn unig dalent gerddorol arbennig, ond hefyd anghenion dysgu amgen (megis y rhai ag anawsterau dysgu, corfforol, gwybyddol neu anawsterau eraill). Dylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol dynnu sylw at straeon allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawniadau pobl ifanc er mwyn codi disgwyliadau a dyheadau ar hyd a lled y wlad o ran ystod eang o agweddau gwybyddol, corfforol, emosiynol a chymdeithasol manteision addysg cerddoriaeth i bawb ar bob lefel cyrhaeddiad.

Dylai fod mecanwaith ariannu clir a chyson er mwyn sicrhau bod gwersi offerynnau cerdd a chyfranogi mewn ensembles ar gael i bawb sy'n dymuno manteisio arnynt. Dylai hyn gwmpasu nid yn unig ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond hefyd y rheini ag incwm isel ond nid PYADd nad ydynt yn gallu fforddio talu am wersi cerddoriaeth.

### Gwersi offerynnol ac ensembles

Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol amlinellu ffyrdd y dylai'r sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant offerynnau weithredu ledled y wlad. Dylai'r sefydliadau hyn gydweithio gydag ysgolion i gadarnhau ac adeiladu ar y rhaglen gerddoriaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm yn eu hardaloedd lleol, a bod hynny nid yn unig yn ofynnol, ond yn ganolog i'r ddarpariaeth honno.

Dylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol fanylu ar ystod y ddarpariaeth a ddisgwylir gan y sefydliadau hyn, gan gynnwys darparu rhaglenni dysgu offerynnol unigol a grŵp, darparu cyfleoedd ensemble cerddorol, cyrsiau gwyliau, cynlluniau llogi a phrynu

offerynnau, a llwybrau dilyniant clir o weithgareddau mewn ysgolion i ensembles rhanbarthol a chenedlaethol. Ni ddylai fod yn rhagnodol yn hyn o beth, ond yn hytrach dylid rhoi fframwaith eang i sefydliadau weithio oddi mewn iddo er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd addysgu offerynnol ac ensembles cerddorol yn ddidrafferth.

Dylai'r Cynllun Cenedlaethol annog a hwyluso ffurfiau newydd ar gyfer cyflwyno gwersi cerddoriaeth offerynnol gan ddefnyddio ystod o dechnolegau ar y we, e.e. defnyddio fideo a thechnoleg ar y rhyngrwyd. Mae gan y rhain hanes profedig o lwyddiant mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol, fel yr amlinellwyd yn 3.4 uchod. Mae'r dulliau hyn wedi galluogi plant 'anodd eu cyrraedd' mewn rhannau o Loegr a'r Alban sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol i gymryd rhan mewn dysgu offerynnol, yn y rhan fwyaf o achosion gyda'u hathro dosbarth. Dylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol gynnal astudiaeth achos o ymagweddau o'r fath a chyflwyno amlinelliad o sut y gallent weithio i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd cerddoriaeth ledled y wlad, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig ac anghysbell.

### Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Mae hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru wedi cael ei ddiweddaru ym mis Medi 2019. Yn y cyd-destun hwn, mi ddylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ystyried y llwybrau sy'n gysylltiedig â dyfarnu Statws Athro Cymwysedig i raddedigion cerddoriaeth o fewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. Dylai ymagwedd ehangach, rwydweithiol i hyn, gyda sefydliadau addysg uwch yn arwain a chydag ysgolion, Gwasanaethau Cerddoriaeth a darparwyr eraill yn gweithio mewn partneriaeth â hwy, gynnal y trylwyredd academaidd sy'n gysylltiedig ag astudio ar gyfer cymhwyster ôl-radd ynghyd â darparu lleoliadau addysgu mewn ystod o leoliadau.

Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer astudiaethau hyblyg, rhan-amser ac asesu yn unig ar gyfer y graddedigion cerddoriaeth hynny sy'n dymuno ennill cymwysterau addysgu lefel uwch ond nad ydynt yn gallu rhoi'r gorau i'w cyflogaeth er mwyn ymgymryd ag astudiaethau llawn amser.

### Datblygiad Proffesiynol

Dylai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol amlinellu ystod ehangach o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon mewn ysgolion a cholegau ac ar gyfer tiwtoriaid offerynnol. Dylai'r rhain fod yn hygyrch ac o ansawdd dda gydag amryw o fformatau (gan gynnwys fformatau wyneb-yn-wyneb ac ar-lein). Mi ddylai bod ymgysylltu â chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus yn hawl i bob athro sy'n gweithio ym maes addysg cerddoriaeth ac nid ond yn fraint i'r dethol rhai.

Gallai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol fabwysiadu cymhwyster ffurfiol ar gyfer tiwtoriaid cerdd, megis y dystysgrif i addysgwyr cerddoriaeth (CME) i diwtoriaid cerddoriaeth offerynnol nad sydd wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ar gyfer athrawon.

## Adnoddau

Gallai'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol gynnwys datblygu deunyddiau addysg cerddoriaeth ar-lein (megis siop-un-stop ar gyfer popeth sy'n ymwneud â cherddoriaeth). Gellid darparu hyn gyda'r system Hwb neu gyda gwefan annibynnol.

Gall gynnig arweiniad ar y canlynol:

- Manteision addysg gerddorol
- Deunyddiau ac adnoddau dosbarth yn rhad ac am ddim
- Dysgu canu offeryn cerddorol
- Fideos gan diwtoriaid
- Blogio, Podcast
- Cyfleoedd Ensemble
- Llwybrau dilyniant o grwpiau lleol i ensembles portffolio cenedlaethol
- Cynlluniau llogi a phrynu offerynnau
- Cysylltiadau gyda'r gymuned
- Cyngherddau, gwyliau a digwyddiadau
- Cyfleoedd dysgu i oedolion
- Addysg Uwch

Mi ddylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol ystyried ffyrdd o helpu i greu partneriaethau o fewn cymuned ar-lein. Gallai annog datblygu adnoddau ar y cyd a mannau ar-lein i bobl ifanc lle y gellid cynnig ymagweddau o ansawdd uchel yn ymwneud ag addysgu a dysgu cerddoriaeth, gan gynnwys y cyfle i wylio gwersi ar-lein am sut mae canu offerynnau cerdd. Porth dysgu Hwb Llywodraeth Cymru yw'r cyfrwng amlwg i alluogi hyn i ddigwydd.

Gellid ystyried adnoddau ar-lein y Cynllun Cenedlaethol Cerddoriaeth newydd yn symbyliad ar gyfer y ffurf hon o rannu, a gall adnoddau i hwyluso prosiectau newydd trwy weithio gydag ystod o ddarparwyr newydd ddeillio o hyn . Gellid annog cyrff cyhoeddus allweddol megis y BBC i fyned i'r gofod newydd hwn a gweithio law yn llaw â sefydliadau addysg cerddoriaeth eraill er mwyn helpu ddatblygu cynnwys sy'n gweddu'r rhaglenni corfforol a gynigir gan y darparwyr dysgu offerynnol a'r sector ehangach sy'n cyflenwi'r cwricwlwm ysgol mae pob plentyn yn derbyn drwy'r system addysg.

## Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru

Mae'n bwysig y bod y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yn sefydlu dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a olygir wrth addysg gerddorol o safon. Dylid mynegi hyn trwy feini prawf a meincnodau fel y gellid asesu ansawdd gwirioneddol y ddarpariaeth ar lawr gwlad, a hefyd o ran proses barhaus o drafod a gweithio tuag at ddealltwriaeth o ansawdd a fydd yn cael ei ddiweddaru'n gyson.

Dylai'r asesiad o ansawdd fynd y tu hwnt i'r ystadegyn moel o'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn mynediad at brofiadau cerddorol a hyfforddiant offerynnol. Yn hytrach, dylai dynnu ar ddangosyddion perfformiad allweddol a gaiff eu hymgorffori yn yr holl drefniadau cytundebol mewn perthynas ag addysg cerddoriaeth.

Gall y meini prawf perthnasol gynnwys amrywiaeth ac ansawdd y cyfleoedd a gynigir, parhad y ddarpariaeth, cydlyniad ac effeithiolrwydd llwybrau dilyniant, ond, yn yr un modd, agweddau megis cymhwyster addysgu a cherddorol athrawon, ymatebolrwydd i ddewisiadau ac adborth pobl ifanc, a diogelu.

Er mwyn i fframwaith ansawdd o'r fath fod yn effeithiol, buasai angen i Estyn chwarae rhan yn y gwaith o'i 'blismona'. Mae'r drefn arolygu ysgolion yn cael ei ail-ystyried er mwyn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, a gallai datblygu fframwaith ansawdd fod yn sail i arolygiadau Estyn ystyried rôl cerddoriaeth wrth ddarparu'r cwricwlwm ac ymgysylltiad yr ysgol â deilliannau'r addysg gerddorol.

O'n trafodaethau gydag Estyn, deallwn fod y diffyg fframwaith ar gyfer sut a beth yw gwasanaeth cerddoriaeth awdurdod lleol yn gyffredinol, neu beth yn union y dylai ei gyflawni, yn golygu ei bod yn amhosibl llunio barn ynghylch a yw'n gweithredu'n ddigonol.

# 6 Ystyriaethau allweddol wrth gamu tuag at fodel cyflenwi newydd

## 6.1 Rhanddeiliaid Allweddol

### Rôl yr ysgolion

Mae ysgolion yn rheoli eu cyllidebau dirprwyedig eu hunain ac yn gallu prynu'n uniongyrchol gan ddarparwyr. Maent felly yn weithredwyr penderfyniadau allweddol o ran addysg gerddorol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, er bod rheidrwydd i ddarparu addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion, nid oes gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu Gwasanaeth Gerddoriaeth, nid oes manyleb ffurfiol o'r hyn y dylai Gwasanaeth Cerddoriaeth ei ddarparu, ac ysgolion (drwy eu penaethiaid a chyrff llywodraethu) sy'n penderfynu yn y pen draw sut y cyflwynir addysg gerddoriaeth.

Maent yn diffinio ac yn siapio'r hyn sy'n cael ei ddarparu drwy ddefnyddio adnoddau mewnol (athrawon neu gynorthwywyr sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol) a thalu am wasanaethau (e.e. gan diwtoriaid unigol, Gwasanaethau Cerddoriaetj yr awdurdod lleol, cwmnïau preifat, elusennau neu fentrau cymdeithasol, a mentrau cydweithredol).

Mae cyllidebau ysgol dan bwysau ac mae'n debygol y bydd ysgolion yn ceisio cadw'r gost o ddarparu addysg gerddorol yn isel. Mae'n bosibl y gellid lleihau costau cyrchu Gwasanaethau Cerddoriaeth i ysgolion trwy mentrau dosbarth cyfan.

Gellid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n cefnogi ymyriadau a gweithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, i dalu am wersi cerddoriaeth cyn belled ag y cytunir eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer ariannu. Er na fuasai hyfforddiant offerynnau cerdd ynddo'i hun yn gymwys, buasai'n gymwys pe gellid gweld ei fod yn cyfrannu at welliannau yn nisgyblaeth a chariad at ddysg trwy ehangu gorwelion, er enghraifft[45].

O ystyried y pwysau hwn, mae dibynnu ar arweinwyr ysgolion i werthfawrogi addysg gerddorol a'r manteision ehangach y gall ei chynnig, ac annog rhieni i dalu am wersi yn annhebygol o ddarparu addysg gerddorol gydlynol a chyson yng Nghymru.

[45] Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol

Mae'r model Seisnig yn defnyddio pensaernïaeth ariannu wahanol ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth. Daeth y cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg gerddorol (NPME) yn Lloegr 'ag ymrwymiad ariannol i'w weledigaeth, sef y grant Hub ar gyfer addysg cerddoriaeth. Roedd ysgolion yn parhau i fod yn gyfrifol am ariannu'r gwaith o ddarparu'r cwricwlwm cenedlaethol a'r grant Hub, a ddyfarnwyd i'r sefydliad arweiniol, gan alluogi creu cerddoriaeth y tu hwnt i gyfrifoldebau'r ysgol.' Gweinyddir y cyllid grant ar gyfer y canolbwyntiau (sy'n cyfateb i £75miliwn o'u hadran addysg yn y flwyddyn ariannol 2017/18) gan eu Cyngor Celfyddydau hwythau ac mae'n disodli unrhyw gyllideb ar gyfer addysg gerddorol y tu hwnt i ddarpariaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm i ysgolion. Mae hyn yn seiliedig ar y casgliad yn y NPME gwreiddiol yn 2011 a awgrymodd: 'ni ellir disgwyl i ysgolion ynysig gyflawni popeth sy'n ofynnol ar gyfer addysg gerddorol: Mae angen isadeiledd cerddorol sy'n gweithio uwchlaw ac yn rhagori ar ysgolion hefyd.'’[46]

Mae'r canolfannau cerddoriaeth yn aml yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod ysgolion yn ymgysylltu er mwyn cyflwyno addysg gerddorol y tu hwnt i'r cwricwlwm. Felly, mae'n dod i’r amlwg bod penderfyniadau cyllido o'r fath yn gysylltiedig yn gynhenid â rhyngddibyniaethau darpariaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm ac elfennau eraill addysg gerddorol. Yng Nghymru, nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys yn derfynol a bydd llawer yn dibynnu ar sut y caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno.

Yn y sefyllfa hon, buasai symud y cyfrifoldeb am wneud dewisiadau o ran addysg gerddorol (a'r gyllideb gysylltiedig) o'r ysgolion eu hunain yn cynrychioli gwyriad rhy radical o'r sefyllfa bresennol. Mae'n anodd gweld sut y gellid rheoli cyfnod pontio o'r fath yn effeithiol er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth. Felly, mae'n ymddangos yn syniad da cadw rôl i ysgolion wrth wneud y dewisiadau hynny, er yng nghyd-destun fframwaith llawer cliriach a thrylwyr o ran yr hyn a ddisgwylir.

Mae enghraifft menter cerddoriaeth ieuenctid YMI Yr Alban yn dangos y gellid defnyddio ffrydiau ariannu ychwanegol i ategu penderfyniadau gwariant sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol neu ysgolion er mwyn sbarduno amcanion llywodraethol penodol o ran addysg gerddorol. Mae hyn yn seiliedig ar benderfyniad Yr Alban i barhau i reoli gwasanaethau cerddoriaeth offerynnol ar lefel awdurdodau lleol, lle gellid eu hategu drwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol er mwyn cyflawni amcanion cenedlaethol.

Felly, mae deall sut y bydd gwneud penderfyniadau mewn ysgolion yn rhyngweithio â gwahanol fodelau darparu yn sylfaenol i unrhyw ddatrysiad arfaethedig.

### Darparwyr

Fel yr amlinellwyd eisoes, mae ystod eang o ddarparwyr yn cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'n farchnad go orlawn. O fewn y cymhlethdod hwn, ceir ffactorau eraill sy'n cymhlethu pethau. Nid yw tiwtoriaid cerddoriaeth wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled Cymru. Er enghraifft, mae gan Dde-ddwyrain Cymru fwy o gyfleoedd swyddi i gerddorion, lle mae llawer ohonynt yn ategu eu hincwm gyda thiwtora cerddoriaeth rhan-

[46] Key Data on Music Hubs 2017, Arts Council England

amser. Mae tystiolaeth o'r arolwg yn awgrymu bod gan Dde-ddwyrain Cymru brisiau is nac ardaloedd gwledig Cymru, lle mae'n debygol y bydd yna lai o gystadleuaeth yn y farchnad.

Bydd sut y dylai, a sut y bydd, gwahanol ddarparwyr yn y farchnad yn gallu rhyngweithio â ffordd newydd o gaffael Gwasanaethau Cerddoriaeth yn ystyriaeth bwysig wrth ymwneud â datblygu opsiynau ar gyfer model cyflenwi newydd, yn ogystal â sut y bydd dewisiadau'n effeithio ar a chost ac ystod y gwahanol wasanaethau.

### Y gweithlu – tiwtoriaid cerddoriaeth

Yn yr un modd y mae'r farchnad yn amrywiol, felly hefyd y gweithlu, sy'n cael ei gyflogi ar ystod amrywiol o drefniadau cytundebol. Mae'r adran hon wedi'i seilio ar wybodaeth o'r arolwg o Wasanaethau Cerddoriaeth ac o gyfweliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolydd Undeb y Cerddorion yng Nghymru.  Buasai hefyd yn ddefnyddiol cael barn y tiwtoriaid cerdd eu hunain ynglŷn â'r modd maent yn cael eu cyflogi, eu teimladau am sut y maent yn cael eu gwerthfawrogi, ac a ydynt yn gweld dyfodol tymor hir fel tiwtoriaid cerddoriaeth neu beidio.

Mae'r materion a ddisgrifir yn wir ledled Y Deyrnas Gyfunol a gan Undeb y Cerddorion nifer o gyhoeddiadau am y pwnc, sydd wedi llywio'r dadansoddiad hwn yn ehangach[47].

Mae'r dystiolaeth yn caniatáu nodi'r ystod ganlynol o delerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer tiwtoriaid cerdd:

- Tiwtoriaid hunangyflogedig unigol sydd yn gweithio i rieni ar gytundeb uniongyrchol: Nid yw hyn yn cael ei reoleiddio, ac nid yw'n glir a yw'r holl rieni'n sicrhau a yw tiwtoriaid wedi cael eu gwirio gan y DBS ac/neu wedi'u hyswirio'n briodol.
- Tiwtoriaid hunangyflogedig unigol sydd wedi'u contractio'n uniongyrchol gan ysgolion: er bod gan bob ysgol weithdrefnau diogelu ar waith, dylent hefyd wirio a yw'r yswiriant angenrheidiol yn ei le, ac a yw unigolion wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, sydd yn ofyniad statudol.
- Tiwtoriaid hunangyflogedig unigol sy'n cael eu contractio'n uniongyrchol gan awdurdod lleol/cwmni cydweithredol/elusen neu gwmni preifat.
- Tiwtoriaid hunangyflogedig unigol dan gytundeb asiantaeth o gwmni preifat: yma, mae'r cyfrifoldeb ynghlwm â'r cwmni preifat, a allai gael ei reoleiddio fel asiantaeth cyflogaeth..
- Tiwtoriaid a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol, fel arfer ar sail barhaol gyda lleiafswm o oriau yn rhan o'r cytundeb.
- Mae ambell i diwtor yn gweithio mewn nifer o'r moddau yma, gyda'u horiau yn gymysgedd o waith awdurdod lleol a hyfforddiant preifat.

Er bod hi’n amlwg bod y staff sydd ar gytundebau TWE uniongyrchol â'r awdurdod lleol yn cael eu gwirio gan y DBS ac wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, nid oedd

[47] 2017 Musicians Union Music Education Report
The State of Play: A review of Music Education in England 2019:

pob pennaeth gwasanaeth yn sicr bod y staff ar fathau eraill o gytundebau wedi cofrestru gyda'r CGA (sy'n ofynnol, yn ôl y gyfraith).

Bydd angen cadw mewn cof p'un a fyddai unrhyw fodel cyflenwi newydd yn effeithio ar amodau cyflogaeth ar gyfer tiwtoriaid cerddoriaeth, a sut i gydnabod hynny, pe cydnabyddir mai sicrhau gweithlu cynaliadwy yw un amcan i ddatblygiad model cyflenwi newydd.

## 6.2 Yr Ysgogiadau Allweddol ar gyfer Gweithredu

### Cydweithio Strategol

Mae nifer o sefydliadau'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth drwy amryw o fodelau a dulliau cyflawni. Mae gan eraill ran yn y dirwedd ehangach sy'n sail i addysg gerddorol (e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru, Anthem). Mae nifer o'r trafodaethau trawsbynciol sy'n ymwneud â natur fwyaf priodol gwasanaethau a dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni'r nodau trosfwaol ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru yn bell o gael consensws.

Bydd nifer o ddyfyniadau o gyfweliadau'r rhanddeiliaid yn arddangos hinsawdd y sector ar hyn o bryd:

> 'Mae yna'r argraff bod sefydliadau yn brwydro i barhau.'
>
> 'Mae hyd yn oed yr ysgolion eu hunain bellach yn diriogaethol (e.e. dim ond yn gweithio ar draws eu clystyrau—cyfun o ysgolion bwydo) ac nid oes ganddynt arian i brynu gwasanaethau. '
>
> 'Mae'r gwasanaethau cerddoriaeth presennol dan warchae hen hanes — hyd yn oed gyda buddsoddiad. ni fyddai hynny'n diflannu.'
>
> 'Dwi'n besimistaidd ynghylch y posibilrwydd y gallai unrhyw beth ddatblygu o'r model presennol. '

Er gwaethaf rhywfaint o densiwn yn y sector, mae'r ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu, er gwaetha'r argraff o ddirywiad, bod parodrwydd mawr i ddod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â'r materion hefyd. Mae'n ymddangos bod cyfle i fanteisio ar asedau y tu hwnt i'r lefel leol er mwyn adeiladu addysg gerddoriaeth yng Nghymru ar sylfaen newydd: 'Rydym yn barod i chwarae rôl ragweithiol (law yn llaw â sefydliadau cenedlaethol eraill) wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn, a chredwn y dylai hyn fod yn ddisgwyliedig o bob sefydliad cenedlaethol (gan ei fod yn rhan o'n cylch gwaith i fod yn agored i eraill). ' (Elusen gerddoriaeth cenedlaethol)

Fodd bynnag, mae yna ddisgwyliad o adnewyddu gwirioneddol i gyd-fynd â hyn: 'Mae angen inni roi sgwytad i'r system er mwyn ymateb i'r hyn y mae pobl ifanc eisiau.' Yn ogystal ag hynny, ceir awydd i gwestiynu'r hen sicrwydd: 'Rydym am gael mwy o arweiniad gan gyfranogwyr; er enghraifft, ni fydd angen darllen cerddoriaeth i ganu yn y côr mwyach, wrth i ni roi llwybrau datblygu ar waith. Beth bynnag, mae hyn yn anoddach i offerynnau, ond oes rhaid cael eich graddau er mwyn chwarae mewn ensemble? ' (Elusen gerdd)

I lawer o randdeiliaid, mae newid mwy sylfaenol yn arddangos yr angen am ddechrau newydd: 'Byddem yn croesawu corff cenedlaethol, a allai ddarparu ynni ffres a darparu tîm “Bant â'r Cart” i fwrw ati '. (Elusen genedlaethol) Mae cyflwyno Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn cael ei weld fel ffordd o ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae angen i Wasanaethau Cerddoriaeth cyflawni a sut orau i wneud hynny.

Mae dechrau’r broses o ddatblygu a sefydlu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru yn sbardun pwysig i Lywodraeth Cymru ysgogi a fframio cydweithio strategol. Fodd bynnag, o ystyried y cymhlethdod sefydliadol a gwleidyddol, a'r tensiynau presennol ynghylch dyrannu adnoddau a rolau ac amcanion gwahanol sefydliadau, heb ddefnyddio ysgogiadau eraill yn effeithiol, ni fydd hyn yn arwain at newid.

## Ysgogiadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru

Y tu hwnt i rôl y cynullydd ar gyfer cydweithredu strategol i ysgogi a chefnogi newid yn y tymor canolig, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ddulliau mwy uniongyrchol i ysgogi newid.

### Ariannu

Y tu hwnt i'r dull ariannu presennol, gellid defnyddio nifer o fecanweithiau i sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru. Gellid, er enghraifft, ddarparu cyllid wedi'i dargedu drwy frigdorri'r Grant Cynnal Refeniw.  Buasai hyn yn parhau i ganiatáu awdurdodau lleol ychwanegu at y dyraniad cenedlaethol pe dymunent.

Fel arall, gellid dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer amcanion penodol (e.e. sicrhau mynediad cyfartal i blant o gartrefi llai cefnog) a’i weinyddu gan sefydliad newydd neu gorff sy'n bodoli eisoes.

### Deddfwriaeth

Rôl y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod canlyniadau addysgol yn cael eu cyflawni. Gallai awdurdodau lleol, er enghraifft, anwybyddu cyfarwyddyd sy'n ymwneud â darparu addysg cerddoriaeth nad sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnyddio'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru fel llwyfan ar gyfer mentrau strategol ar y cyd â rhanddeiliaid, a nodi'r angen penodol i ddefnyddio statud lle nad yw cydweithredu gwirfoddol yn ddigon effeithiol.

Gan gydnabod y rôl hollbwysig sydd gan ysgolion, mae'n bosibl felly y bydd angen ystyried cyflwyno dyletswydd statudol ar ysgolion — yn gysylltiedig â dyraniadau cyllid cyfatebol — er mwyn cyflawni canlyniadau penodol ac/neu ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i sicrhau cyfundrefn arolygu briodol ar gyfer addysg gerddorol. Mae datblygu canllawiau statudol i gyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn gyfle unigryw i ymgorffori ffocws cryfach ar addysg gerddorol yn ysgolion Cymru.

## Dulliau cyflawni penodol

Gellir cynnwys nifer o fecanweithiau penodol o fewn yr opsiynau model cyflawni gwahanol er mwyn iddynt gyflenwni'r allbynau a'r safonau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru sydd wedi'u nodi yn yr astudiaeth hon.

Mae sawl ffactor allweddol i droi disgwyliadau rhanddeiliaid i mewn i ymarfer. Mae ystyried sut y gallai'r mecanweithiau canlynol chwarae rôl mewn gwahanol opsiynau yn eu tro, felly yn cynnig ffordd o asesu pa mor ddymunol yr ydynt hefyd:

1. **Diffinio'n glir yr hyn y dylai gwasanaeth addysg cerddoriaeth ei ddarparu** (fel y crynhoir yn rhestr wirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen). Cam cyntaf i sicrhau darpariaeth gyson o ansawdd uchel.
2. Mae bodloni amcanion amrywiol a darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion a dewisiadau o ran addysg gerddorol yn golygu bod angen i'r ddarpariaeth fod yr un mor amrywiol. Er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, mae angen i fecanwaith ar gyfer **rheoli ansawdd** gael ei ymgorffori yn y system. Buasai cyflwyno model comisiynu cryf gyda throthwyon ansawdd diffiniedig yn un ffordd o wneud hynny yn yr economi gymysg bresennol. Fel arall, efallai y bydd yn bosibl cyflwyno **trefn arolygu**; fodd bynnag, gallai bod yn anodd gwneud hynny ar sail awdurdod lleol, o gofio bod darparwyr wedi ymestyn ar draws ffiniau. Gallai ei gwneud yn rhan o'r fframwaith arolygu ysgolion fod yn ddichonadwy, gan gysylltu ansawdd addysg â darparu celfyddydau mynegiannol, gan gynnwys cerddoriaeth, a darparu fframwaith clir i asesu ansawdd addysg cerddoriaeth.
3. Heb ariannu cyhoeddus ar y raddfa angenrheidiol i hwyluso'r holl ganolbwyntiau addysg gerddorol i fod ar gael yn rhad ac am ddim, bydd angen ar ryw fath o **fecanwaith i'r farchnad** yn y cynlluniau. Fodd bynnag, dylid cytuno ar eglurder ynghylch union natur a rôl mecanweithiau marchnad o'r fath ledled Cymru.
4. Er mwyn osgoi tiwtoriaid cerdd mewn swyddi ansicr yn cystadlu â'i gilydd, gellid cytuno ar **egwyddorion allweddol ar gyfer cyflog ac amodau** unrhyw fodel cyflenwi newydd i Gymru, a gweithredu ar y cyd o ran athrawon cerddoriaeth annibynnol.
5. Yn ogystal â sicrhau cyflog cymesur ar gyfer athrawon cerddoriaeth, mae angen **fframwaith cymwysterau** er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, ac o ran adennill y buddsoddiad a wnaed ar gyfer y cymwysterau.
6. Dylid dyrannu unrhyw **gyllid** ar gyfer addysg gerdd ar sail **dealltwriaeth glir o wahanol amcanion** mewn perthynas ag addysg gerddoriaeth a'r amryw o lwybrau i ragoriaeth gerddorol (megis cerddor, athro neu wrandäwr).
7. Fe ddylai unrhyw **gytundebau** ar gyfer darparu addysg cerddoriaeth fod yn seiliedig ar **ganlyniadau cytunedig** ar gyfer cynhwysiant a dilyniant sy'n mynd y tu hwnt i'r nifer o blant sy'n mynychu gwersi cerddoriaeth
8. Dylai unrhyw ddull cyflenwi newydd ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru **sicrhau'r cydweithio mwyaf posib** er mwyn sicrhau bod (cyllid ar gyfer) cyfleoedd amrywiol o ddilyniant ar gael; cyfleoedd gweladwy a hygyrch; gan gynnwys cyfleoedd sydd y tu

hwnt i ffiniau gweinyddol lleol; ac yn ddelfrydol, wedi'u hwyluso gan sefydliad arweiniol er mwyn sicrhau cyrhaeddiad lleol hefyd.

### 6.3 Crynhoad

Cadarnhaodd yr ymchwil hyd yma, gan gynnwys corff sylweddol o waith sy'n bodoli eisoes, bod yna heriau allweddol yn ymwneud â'r diffyg cysondeb a chydlyniad wrth ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg yn un o gryn gymhlethdod ar sawl lefel:

1. Cymhlethdod y manylion o ran cydlynu'r defnydd o diwtoriaid cerddoriaeth, offerynnau, cefnogaeth cwricwlwm ac ystod eang o gynigion gwahanol sy'n ymwneud â phrofiadau cerddorol a gwersi cerddoriaeth gydag adnoddau sy'n prinhau, a hefyd statws aneglur Gwasanaethau Cerddoriaeth yn ysgolion Cymru.
2. Cymhlethdod strategol addasu Gwasanaethau Cerddoriaeth i dirwedd sy'n newid o ran deall sut mae angen iddynt gael eu cynllunio i gyflawni canlyniadau penodol (e.e. cynhwysiant, lles, adnabod a chyrhaeddiad talent gerddorol).
3. Cymhlethdod gwleidyddol o ran cydberthnasau a'r straen rhwng rhanddeiliaid allweddol, y pwysau sydd ar y seilwaith darparu presennol, a'r hen hanes a oedd yn atal datrysiadau ar y cyd mewn perthynas â chyflwyno cysondeb a chydlyniant yn narpariaeth Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru.

Mae cydgysylltu cenedlaethol cryfach wrth gyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth bwysig o osod addysg gerddorol ar seilwaith newydd sbon. Felly, y cwestiwn allweddol ar gyfer model cyflenwi newydd yw: sut y gellir creu fframwaith addas i gynorthwyo rhanddeiliaid ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y sydd ei angen o ddarpariaeth addysg gerddorol yng Nghymru er mwyn cyflawni canlyniadau ac amcanion penodol?

## 7 Opsiynau i'w hystyried

O'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid, yn ogystal â'n dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol ledled Cymru (fel yr amlinellir yn adran 4), daeth i'r amlwg bod nifer gyfyngedig o ddewisiadau realistig ar gael i'w hystyried, a drafodir yn yr adrannau dilynol. Yn ogystal, daeth i'r amlwg, oherwydd y cymhlethdod sylweddol sy'n gysylltiedig â'r dewisiadau, bod angen i'r broses o ddatblygu opsiynau ganolbwyntio ar greu fframwaith priodol ar gyfer llywodraethu a chydgysylltu darpariaeth go iawn ar lawr gwlad (yn hytrach na'r seilwaith cyflenwi ei hun).

Mae rhai awdurdodau lleol a CLlLC yn parhau i ffafrio ymreolaeth awdurdodau lleol.  Mae rhai o aelodau CAGAC yn ffafrio model rhanbarthol.  Fodd bynnag, y farn gyffredinol yw y dylai fod rhyw fath o gydgysylltu cenedlaethol trwy Gynllun Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol. Heb hyn, bydd y gwahaniaethau presennol yn y ddarpariaeth yn parhau.

Ceir economi gymysg yn y ddarpariaeth, lle mai ysgolion yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a prin yw dylanwad y Llywodraeth arnynt.  Buasai'n anodd datgymalu a

dychwelyd hyn i'r sector cyhoeddus.   Pwynt allweddol arall yw nad yw'r farchnad hon yn parchu ffiniau awdurdodau lleol.   Gall darparwyr annibynnol — darparwyr sector preifat, cwmnïau cydweithredol ac elusennau — weithredu'n annibynnol ar draws rhanbarthau, sydd hefyd yn wir am rai Gwasanaethau Cerddoriaeth ALlau.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, rydym o'r farn nad yw'n bosibl dychwelyd i'r dyddiau pan fu yna Wasanaeth Cerddoriaeth yn gweithredu fel yr unig ddarparwr ym mhob ardal awdurdod lleol (neu ranbarth hyd yn oed).   Nid yw hyn yn golygu nad oes yna le i Wasanaeth Cerddoriaeth awdurdod lleol sydd dan reolaeth gref ac yn defnyddio gwybodaeth leol er budd y gymuned; fodd bynnag, rhaid i'r gwasanaeth bod o ansawdd uchel a sicrhau'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Wrth ddadansoddi'r opsiynau, awgrymwn fodel comisiynu a fyddai'n ymdrin â'r cymysgedd cymhleth o ddarpariaeth yn y farchnad mewn modd a fuasai'n rhoi chwarae teg i ddarparwyr ac yn creu'r gagendor i fodelau darparu newydd ddod i'r amlwg pan fo eu hangen (e.e. cwmnïau cydweithredol). Ond, yn llawer pwysicach na hynny, mae angen darparu gwasanaeth tecach gyda chanlyniadau cyson ledled Cymru i'r disgyblion sydd wrth wraidd y broses hon.

Potential options that were considered for the institutional infrastructure governing the provision of Music Education Services in Wales include:

Ymhlith yr opsiynau posibl a ystyriwyd ar gyfer y seilwaith sefydliadol i lywodraethu'r ddarpariaeth o Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru mae:

1. *status quo* – gwasanaethau ar wahân sydd yn crebachu'n raddol gyda chydgysylltu llac, yn seiliedig ar ddarpariaeth awdurdodau lleol
2. grymoedd y farchnad benderfynu'r ddarpariaeth
3. corff cydlynu cenedlaethol cryf sy'n cael ei redeg gan ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/busnesau preifat, a thiwtoriaid unigol.  Buasai'r corff hwn yn estyniad o'r CAGAC er mwyn ffurfio corff ffurfiol mwy cynrychioliadol
4. gwasanaeth rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol
5. Gwasanaeth Cenedlaethol

## 7.1 Meini Prawf

Mae angen i'r gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer model cyflenwi newydd ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru ystyried:

- **Y Meini Prawf:**. Yn gyntaf, mae angen asesu gwahanol opsiynau ar sail yr hyn y maent yn ei gyflawni ar gyfer addysg gerddorol yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymchwiliad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol wedi arwain at gyfres o ystyriaethau allweddol o ran dewisiadau, sef

gweithlu cynaliadwy, mynediad cyfartal, a dilyniant o ran ein 'pyramid Cymru'. Felly, mae angen asesu'r opsiynau o ran pa mor dda y maent yn cyflawni'r amcanion hyn.

- **Gweithgareddau/dulliau:** Sut y trefnir y ddarpariaeth yn erbyn yr amcanion hyn? Pa ddulliau a fydd yn cael eu defnyddio? Pa weithgareddau fydd yn cael eu cyflwyno? Mae barn rhanddeiliaid yn awgrymu, er enghraifft, gonsensws cryf bod angen mecanwaith er mwyn sicrhau bod pob darpariaeth yn cael ei sicrhau o ran ansawdd.
- **Model Trosfwaol:** Er mwyn i fodel darparu fod yn effeithiol, mae angen integreiddio'r gweithgareddau a ddarperir a'u plethu ag amrywiaeth o weithgareddau a chyd-destunau sy'n bodoli eisoes. Un cwestiwn allweddol ar gyfer ystyried opsiynau, felly, yw sut y gellir gweithredu opsiwn mewn cydweithrediad â'r lefel leol (ALlau/Gwasanaethau Cerddoriaeth presennol a darparwyr eraill; athrawon; rhieni a phlant; sefydliadau cyflenwol), beth yw'r ysgogiadau/anogaethau iddynt gymryd rhan, a sut mae hyn yn cyd-fynd ag asedau ac adnoddau mewn mannau eraill?
- **Y daith/pontio:** Yn olaf, bydd dichonoldeb gwahanol opsiynau yn dibynnu ar sut y gellir trefnu'r newid i fodel newydd. Mae newid yn cymryd amser ac yn galw am ymgysylltu a buddsoddi helaeth gan randdeiliaid. Efallai na fydd opsiwn sy'n ddymunol yn y tymor hir yn ymarferol i'w weithredu ar unwaith.

Yn ogystal â'r meini prawf penodol hyn, mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cadarnhau y buasai'r rhan fwyaf o'r opsiynau a allai gael eu rhoi ar waith yn wynebu'r broblem bod gwella gwasanaethau addysg cerddoriaeth a thegwch mynediad yn y pen draw yn dibynnu ar rywun yn talu ar eu cyfer. Felly, mae angen mynd i'r afael â dau fater allweddol arall:

- **Arian:** Bydd angen i unrhyw opsiwn naill ai gael mynediad i arian/adnoddau ychwanegol y gellir eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth bresennol neu ddefnyddio dull i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol o ran dyrannu adnoddau. Y tu hwnt i gwestiwn cost a ffynhonnell cyllid, roedd sefydlogrwydd ariannol hirdymor unrhyw fodel cyflenwi newydd yn bryder allweddol yn y mwyafrif llethol o gyfnewidfeydd a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid ar gyfer yr astudiaeth hon.
- **Gweithredu penderfyniadau a strategaeth:** Er mwyn sicrhau gwerth am arian a gwneud y gorau o adnoddau prin, bydd angen i unrhyw opsiwn roi eglurder o ran sut y gellir cyflwyno cyfeiriad strategol i addysg gerddorol ar gyfer Cymru gyfan.

## 7.2 Opsiynau Heb Gorff Cenedlaethol

Gellir nodi dau brif opsiwn a fyddai'n gweithredu heb gydlynu cenedlaethol nac integreiddio strategol.

### Opsiwn 1: Y *status quo* – gwasanaethau ar wahân sydd yn crebachu'n raddol gyda chydgysylltu llac

| **Opsiwn 1 – Y status quo** | |
|---|---|
| ***Natur y ddarpariaeth*** | • Parhau â'r model presennol o ddarparu gwasanaethau o dan arweiniad awdurdodau lleol yn wyneb llawer o awdurdodau lleol sy'n ystyried lleihau/tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaeth; |

| | |
|---|---|
| | • Elfennau o ddarpariaeth amgen yn dod i'r amlwg i lenwi'r bwlch a grëwyd. |
| **Meini prawf asesu allweddol** | |
| ***Gweithlu cynaliadwy*** | • Statws cyflogaeth athrawon cerddoriaeth yn amrywio;<br>• Dim telerau ac amodau safonedig ar gyfer cyflogaeth;<br>• Dim fframwaith cymwysterau clir ac i raddau helaeth mae disgwyl i athrawon ofalu am eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain. |
| ***Mynediad cyfartal*** | • Amrywiadau yn lefel y cymhorthdal ar draws ALlau;<br>• Amrywiadau yn lefel y costau y disgwylir i ddysgwyr eu cyfrannu;<br>• Tystiolaeth o ddiffyg sylw i ddyrannu adnoddau yn unol ag amcanion clir (e.e. o ran mynediad cyfartal);<br>• Y Grant Datblygu Disgyblion yn rhoi rhywfaint o ryddid i fynd i'r afael â mynediad cyfartal, ond heb fawr o gwmpas a hyblygrwydd. |
| ***Dilyniant i fyny 'pyramid Cymru'*** | • Mae'r llwybr i ensembles cenedlaethol yn debygol o ddod yn llai teg dros amser (oherwydd bod lefelau'r cymhorthdal yn debygol o grebachu ymhellach gyda chydlynu yn dibynnu ar drefniadau lleol annibynnol). |
| **Dulliau a gweithredoedd er mwyn trefnu darpariaeth** | |
| ***Cyfundrefn sicrhau ansawdd*** | • Diffyg goruchwyliaeth o hyfforddwyr cerddorol gan rai Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br>• Diffyg rheoli'r ansawdd i'r ysgolion sy'n talu am y gwasanaeth<br>• Y gallu i sicrhau ansawdd yn cael ei erydu o ganlyniad i doriadau. |
| ***Perthnasoedd cytundebol*** | • Ysgolion yn bennaf yn ymrwymo i gontractau gyda darparwyr unigol (Gwasanaeth Cerddoriaeth awdurdod lleol neu ddarparwr arall);<br>• Contractau yn canolbwyntio i raddau helaeth ar faint y ddarpariaeth a'r telerau talu gyda meini prawf ansawdd cyfyngedig neu absenoldeb ganlyniadau penodol. |
| ***Rôl yr ysgolion*** | • Ysgolion fel prif 'gwsmeriaid' Gwasanaethau Cerddoriaeth ALlau a darparwyr amgen sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad;<br>• Penderfyniadau prynu yn dibynnu ar ddealltwriaeth penaethiaid o addysg cerddoriaeth, mewn cystadleuaeth am adnoddau gyda darpariaeth arall. |

| **Pensaernïaeth y model trosfwaol** | |
|---|---|
| ***Fframwaith llywodraethu a chyfeiriad strategol*** | • Cydlynu llac drwy gyfnewidfeydd nad ydynt yn rhwymedig o dan ymbarél Cymdeithas Addysg Gerdd Authorities Cymru (CAGAC), is-bwyllgor gwasanaethau cerdd awdurdodau lleol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC);<br>• Mentrau cydweithredol a chyflenwyr preifat nad ydynt wedi'u cynrychioli gan CAGAC;<br>• Toriadau cyllidebol parhaus sy'n arwain at leihad parhaus mewn gwasanaeth a darnio pellach. |
| ***Integreiddio darpariaeth genedlaethol/ leol*** | • Cyfarfodydd CAGAC rheolaidd ond dim ond ychydig o ddulliau i ysgogi/annog/gorfodi cysondeb;<br>• Dim cynrychiolaeth/integreiddiad cwmnïau cydweithredol a chyflenwyr preifat, na chynrychiolwyr rheolaidd o awdurdodau heb Wasanaeth Cerddoriaeth. |

| | |
|---|---|
| ***Ffynhonnell ariannu*** | • Heb ryw fath o ymyriad, disgwyliad rhanddeiliaid yw y bydd gostyngiad parhaus yn y cyllid gan awdurdodau lleol sy'n parhau i gefnogi gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn ariannol;<br>• Cyllidebau ysgolion;<br>• Ffioedd dysgu yn cael eu talu gan rieni/warcheidwaid. |
| ***Ffurf sefydliadol*** | • Awdurdodau lleol yn cydlynu darpariaeth, gyda rhai yn cyflogi tiwtoriaid, rhai yn is-gontractio tiwtoriaid llawrydd a rhai yn gadael i sefydliadau annibynnol gyflenwi yn gyfan gwbl;<br>• Ffurfiau sefydliadol newydd yn datblygu mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol (gan gynnwys strwythurau cydweithredol, elusennol) sy'n contractio'n uniongyrchol ag ysgolion;<br>• I bob pwrpas, yn cystadlu â Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol. |
| ***Trosglwyddo i'r model darparu newydd*** | amherthnasol |
| ***O blaid*** | • Nid oes angen llawer o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru;<br>• Cost isel. |
| ***Yn erbyn*** | • Y sefyllfa bresennol yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn anghynaladwy;<br>• Gwasanaethau ar wahân sy'n crebachu'n raddol;<br>• Yn cael ei ystyried yn annheg oherwydd dim cysondeb cenedlaethol na ddarpariaeth ddigonol ar gyfer dilyniant i fyny 'pyramid Cymru' neu gydraddoldeb. |

## Opsiwn 2: Caniatáu i'r farchnad benderfynu ar y ddarpariaeth

| **Opsiwn 2 – Anrhefn** | |
|---|---|
| ***Natur y ddarpariaeth*** | • Pwysau parhaus ar gyllidebau sy'n debygol o arwain at ragor o awdurdodau'n torri cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br>• Darpariaeth yn dibynnu fwyfwy ar athrawon unigol neu sefydliadau annibynnol sy'n cynnig gwasanaethau. |
| **Meini prawf asesu allweddol** | |
| ***Gweithlu cynaliadwy*** | • Tiwtoriaid cerdd hunangyflogedig annibynnol, cwmnïau preifat a mentrau cymdeithasol sy'n debygol o ddarparu mwy a mwy o wasanaethau'n uniongyrchol i rieni ac ysgolion;<br>• Dim dylanwad gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid strategol dros feini prawf mynediad ac ansawdd/cynaliadwyedd y gweithlu. |
| ***Mynediad cyfartal*** | • Ddim yn cael ei warantu gan y farchnad;<br>• Yn debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn dewis gosod gofyniad/gwneud buddsoddiad wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r methiannau mwyaf yn y farchnad, e.e. darparu cyllid i ddysgwyr sydd o dan anfantais. |
| ***Dilyniant i fyny 'pyramid Cymru'*** | • Ddim yn cael ei warantu gan y farchnad;<br>• Yn debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn dewis gosod gofyniad/gwneud buddsoddiad wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r |

| | |
|---|---|
| | methiannau mwyaf yn y farchnad, e.e. darparu cyllid ar gyfer ensembles rhanbarthol a sefydlwyd er i hwyluso symudiad at ensembles cenedlaethol. |
| **Dulliau a gweithredoedd er mwyn trefnu darpariaeth** | |
| ***Cyfundrefn sicrhau ansawdd*** | • Yn cael eu gadael i'r farchnad, gydag ysgolion a/neu rieni yn gwneud dewisiadau ar sail canfyddiadau ansawdd/cost;<br>• Prin yw'r dulliau ysgogi i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliad strategol o ran rheoli ansawdd. |
| ***Perthnasoedd cytundebol*** | • Yn cael ei bennu gan y farchnad (e.e. nid yw'n bosibl cyflwyno rheolaethau prisio);<br>• Risg bod rhai ardaloedd heb ddarpariaeth oherwydd nad yw'n economaidd i'w cyflenwi. |
| ***Rôl yr ysgolion*** | • Rôl fwy fyth wrth wneud dewisiadau sy'n seiliedig ar y farchnad;<br>• Gyda thoriadau parhaus, buasai cyllidebau ar gyfer addysg cerddoriaeth yn cael eu herydu ymhellach;.<br>• Lle mae diffyg arbenigedd cerddoriaeth mewnol, yn debygol o gael anhawster i ddod o hyd i gymorth priodol ar gyfer darpariaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm |

| **Pensaernïaeth y model trosfwaol** | |
|---|---|
| ***Fframwaith llywodraethu a chyfeiriad strategol*** | • Dim ymyriad i sianelu adnoddau a sicrhau darpariaeth yn unol ag amcanion strategol;<br>• Adnoddau prin a ddyrennir gan y farchnad;<br>• Dim cysondeb yn y cynnig mewn gwahanol rannau o Gymru. |
| ***Integreiddio darpariaeth genedlaethol/ leol*** | • Yn parhau â'r duedd bresennol, gan ddibynnu fwyfwy ar elusennau cenedlaethol a lleol i ddarparu profiadau cerddorol heb fod yna gydlyniad o'r ddarpariaeth. |
| ***Ffynhonnell ariannu*** | • Cyllid Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r methiannau mwyaf yn y farchnad, a allai gael eu darparu drwy sefydliadau sy'n bodoli eisoes neu drwy ysgolion (e.e. fformiwla yn seiliedig ar niferoedd PYADd, swm wedi'i neilltuo efo'r Grant Datblygu Disgyblion);<br>• Fel arall, proses ymgeisio gystadleuol ar gyfer gwasanaethau mewn ardaloedd daearyddol diffiniedig. |
| ***Ffurf sefydliadol*** | • Cwmnïau preifat, mentrau cymdeithasol a Gwasanaethau Cerddoriaeth ALlau yn cynnig gwasanaethau'n annibynnol;<br>• Gyda diflaniad gwasanaethau canolog, potensial i sefydliadau lleol newydd gael eu sefydlu gan ysgolion, rhieni a thiwtoriaid a/neu fusnesau preifat i sicrhau darpariaeth sylfaenol;<br>• Gallai sefydliadau newydd ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth priodol. |
| ***Trosglwyddo i'r model darparu newydd*** | • Eisoes ar waith mewn rhannau o Gymru i bob pwrpas<br>• Cyfeiriad y daith i'r ffordd arall. |
| ***O blaid*** | • Nid oes angen llawer o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru; |

| | |
|---|---|
| | • Mae mecanweithiau i sicrhau bod addysg cerddoriaeth ar gael i'r rhai sy'n gallu ei fforddio yn debygol o ddod i'r amlwg;<br>• Gallu sefydliadol ar gael i ddarparu rhaglenni cyllid wedi'u targedu er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau mwyaf yn y farchnad (h.y. dysgwyr dan anfantais a/neu dilyniant i 'byramid Cymru '). |
| ***Yn erbyn*** | • Yn debygol o arwain at flaenoriaethu addysg cerddoriaeth i ddysgwyr o gefndiroedd cefnog;<br>• Nid yw'n bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid o ran darparu addysg cerddoriaeth yn deg fel budd cyhoeddus pwysig;<br>• Gall fygwth tiwtora cerddoriaeth fel dewis gyrfa gynaliadwy;<br>• Yn debygol y byddai'n rhaid i LIC osod rhyw ofyniad am gydraddoldeb mynediad/dilyniant heb fynd i'r afael â chydlyniant cyffredinol y ddarpariaeth;<br>• Byddai angen canfod/gweinyddu cyllid ar gyfer yr ymyriad lleiaf posibl ar wahân i fecanweithiau ariannu presennol yr awdurdodau lleol, bydd yn ychwanegu at gymhlethdod y system;<br>• Os newidir trefniadau ariannu trosfwaol (e.e. clustnodi cyllid ar gyfer addysg cerddoriaeth), sy'n debygol o gyflawni gwrthwynebiad gwleidyddol sylweddol. |

## 7.3 Opsiynau 3, 4 a 5 – Beth ddylid ei wneud yn genedlaethol?

Mae'r ymchwil gan randdeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu cefnogaeth gref ar gyfer rhywfaint o gydgysylltu cenedlaethol ac integreiddio strategol. I ryw raddau, mae hyn yn gwrthddweud y casgliad a gyflwynwyd yn yr adroddiad cynnydd terfynol yn 2019 gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ‘mai'r ffordd orau o reoli gwasanaethau cerddoriaeth yw ar lefel leol '.

Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod bod ystyried dichonoldeb ‘opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau cerddoriaeth yn y dyfodol ac ystyried cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth...yn ymhelaethu ar waith argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ac yn cynnig llwybr arall ar gyfer ystyried y ddarpariaeth o gerddoriaeth ledled Cymru i sicrhau bod cynlluniau’r dyfodol yn gynaliadwy ac yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru.’ Ategwyd y teimlad hwn yn gryf mewn trafodaethau gydag aelodau CAGAC a oedd yn ymddangos eu bod yn cydnabod y gallai cydgysylltu cenedlaethol cryfach fynd i'r afael â'r pwysau o fygythiadau i'r ddarpariaeth yn lleol, ac a fyddai'n croesawu proses o weithio tuag at fwy o ddarpariaeth gyfartal ledled Cymru.

Roedd y cyfweliadau â rhanddeiliaid bron yn unfrydol wrth gytuno ag awgrym Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu bod angen Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol.

Mae'r opsiynau canlynol felly yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn effeithiol; sydd drwy ddiffiniad yn creu endid sy’n cydlynu datblygiadau strategol a gweithgareddau yn y gwahanol rannau, sef 'corff cenedlaethol' o ryw fath. Mae'r blwch testun canlynol yn amlinellu sut y gallai endid cydlynu cenedlaethol o'r fath weithio.

**Beth fyddai gwasanaeth cenedlaethol yn ei wneud?**

Mae cysondeb a chydlyniaeth gwasanaethau addysg cerddoriaeth ledled Cymru yn gofyn am ymyrraeth genedlaethol. Ceir isod gweithgareddau i'r perwyl hwn y gellid eu cyflawni ar sail genedlaethol:

- Goruchwylio
- Gweithredu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol
- Gweithredu strwythur prisio cenedlaethol
- Gweithredu tâl ac amodau cenedlaethol i diwtoriaid, gan gynnwys DPP penodedig
- Gweithredu fframwaith ansawdd
- Diogelu mynediad i ddysgwyr dan anfantais
- Darparu llwybr clir i ddisgyblion sy'n dalentog yng ngherddoriaeth i symud ymlaen i ensembles cenedlaethol
- Cydlynu marchnata'r gwasanaeth i rieni ac ysgolion
- Darparu arweiniad cyson, clir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion a'r cyhoedd yn ehangach am fanteision cerddoriaeth
- Gweithredu system dalu gydlynol, hawdd ei defnyddio ar gyfer ysgolion a rhieni
- Darparu cynnyrch safonol

Buasai angen darparu gwasanaethau yn lleol o hyd ar lefel awdurdod lleol a/neu ranbarthol. Gallai hyn fod trwy gomisiynu gwasanaethau neu gyflogi staff i weithio gydag ysgolion gyda thiwtoriaid unigol, a gallent sicrhau bodolaeth yr awdurdod lleol ac ensembles rhanbarthol.

O'r gwaith ymchwil yr ydym wedi’i gynnal, ysgolion ac, i ryw raddau, rhieni/gwarcheidwaid yw'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch sut ac a yw addysg gerdd yn cael ei darparu.

**Ariannu**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y lefel briodol o gyllid.

**Sut y gellir sicrhau bod hyn yn digwydd?**

Gallai Llywodraeth Cymru ddeddfu. Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru creu rheolaeth drwy osod cylch gorchwyl cryf ar gyfer corff cenedlaethol neu gyrff rhanbarthol o fewn ei gytundebau cyllido. Wrth gomisiynu gwasanaethau, gellid nodi safonau uchel mewn perthynas â rheoli ansawdd, telerau ac amodau ar gyfer tiwtoriaid cerddoriaeth, gwiriadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd, cymwysterau gofynnol, a chofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg. Buasai hyn yn gweithredu gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer Cymru gyfan.

Byddem yn awgrymu model fframwaith yn ôl y gofyn ar gyfer comisiynu, y gall sefydliadau neu unigolion wneud cais i fod ar restr gymeradwy ar gyfer ysgolion neu awdurdodau lleol i dderbyn gwasanaethau. Gallai fframweithiau fod ar gyfer:

- Profiadau cerddorol yn ysgolion;
- Hyfforddiant offerynnol a llais;

- Darparu ensembles ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r rhanbarth;
- Gwasanaethau ategol (e.e. datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, systemau archebu a thalu, llogi offerynnau, ac ati).

Gallai darparwyr bod megis:

- Gwasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol os ydynt yn dewis parhau i'w cadw fel darpariaeth fewnol, gan ddefnyddio'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo fel y maent yn awr neu drwy gadw Gwasanaeth Cerddoriaeth hunan-ariannu;
- Elusennau ar sail leol neu genedlaethol
- Mentrau cydweithredol neu fentrau cymdeithasol eraill;
- Cwmnïau yn y sector preifat;
- Unigolion sy'n tiwtora.

Gellid cynghori ysgolion yn gryf i ddefnyddio'r fframwaith yn ôl y galw. Fel nawr, bydden nhw'n defnyddio:

- Eu cyllidebau dirprwyedig os dewisant wneud hynny;
- Y Grant Datblygu Disgyblion heb ei neilltuo os gallent fodloni ei ganllawiau
- Ffioedd rhieni/warcheidwaid;
- Cyllid gan Lywodraeth Cymru naill ai'n uniongyrchol neu drwy awdurdodau lleol

Fel yn awr, buasai rhieni/warcheidwaid yn gallu sefydlu trefniadau eu hunain gydag unrhyw ddarparwr y tu allan i oriau ysgol. Fodd bynnag, buasai ganddynt fynediad i ddarparwyr yn y fframwaith, a fyddai'n rhoi sicrwydd o ran ansawdd.

Mae opsiynau 3, 4 a 5 yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd swyddogaeth gydgysylltu genedlaethol yn weithredol ac y caiff contractau fframwaith eu defnyddio i gomisiynu a goruchwylio'r broses gyflawni. Felly, mae'r tri opsiwn yn rhannu nifer o nodweddion allweddol sy'n cael eu nodi ar y cyd isod.

Ceir gwahaniaethau rhwng y tri opsiwn o ran:

- Y model cyffredinol o bensaernïaeth;
- Y strwythurau a'r mecanweithiau ariannol;
- Y dull o drefnu'r trosglwyddo; sy'n dylanwadu ar
- Eu dichonoldeb a'u dymunoldeb.

Felly, ystyrir y rhain ar wahân ar gyfer pob opsiwn mewn ail set o dablau isod.

| **Opsiynau 3, 4 a 5 – Cydlyniad cenedlaethol** | |
|---|---|
| ***Natur y ddarpariaeth*** | • Buasai'r corff cenedlaethol yn gosod safonau ac yn cydgysylltu'r ddarpariaeth drwy gontractau fframwaith;<br>• Darpariaeth wirioneddol yn dal i gael ei chyflawni gan sefydliadau ar lawr gwlad (gan gynnwys Gwasanaethau Cerddoriaeth presennol awdurdodau lleol, darparwyr cyfredol eraill, a newydd-ddyfodiaid posibl); |

<table>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>Buasai'r Cynllun Cenedlaethol, ar y cyd â chontractau fframwaith, yn diffinio natur a nifer y gwasanaethau i'w comisiynu yn unol ag amcanion a chanlyniadau clir;</li>
<li>Anelu at gynnig cyfuniad o'r canlynol:
<ul>
<li>Gwasanaethau rheolaidd (e.e. DPP i athrawon, gwersi cerddoriaeth, llogi offerynnau, ensembles lleol a rhanbarthol) gan fanteisio ar asesiadau o anghenion lleol;</li>
<li>Gwasanaethau wedi'u cynllunio i lenwi bylchau penodol (e.e. offerynnau prin, treialu gwasanaethau arloesol gan ddefnyddio technoleg/cyflwyno mewn lleoliadau a all fod yn fwy deniadol i grwpiau nad ydynt yn ymwneud â gwersi cerddoriaeth confensiynol);</li>
<li>Gwasanaethau ategol (e.e. systemau archebu a thalu, rheoli ansawdd).</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td colspan="2">Meini prawf asesu allweddol</td></tr>
<tr><td>Gweithlu cynaliadwy</td><td>
<ul>
<li>Cyfle i athrawon cerddoriaeth wneud dewisiadau gwybodus am yrfa yn seiliedig ar eglurder mewn perthynas â natur y ddarpariaeth, safonau cymhwyster clir, a galluogi cystadleuaeth deg rhwng gwahanol ddarparwyr;</li>
<li>Amgylchfyd sy'n galluogi athrawon cerddoriaeth i gymryd rhan yn y farchnad ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth (e.e. drwy sefydlu cwmnïau cydweithredol);</li>
<li>Seilwaith sy'n esblygu sy'n caniatáu datblygu modelau busnes clir a dyrannu adnoddau i wahanol swyddogaethau (h.y. rheolaeth, darpariaeth wirioneddol, potensial ar gyfer croesnoddi rhwng gwasanaethau ag 'ymylon' gwahanol), gan alluogi dewisiadau gyrfa tymor hwy;</li>
<li>Gallai systemau achredu ar gyfer unigolion a masnachwyr unigol sicrhau mwy o eglurder a chysondeb ar gyfer tiwtoriaid cerddoriaeth.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>Mynediad cyfartal</td><td>
<ul>
<li>Mecanwaith ar gyfer mynediad cyfartal wedi'i ymgorffori mewn contractau fframwaith (e.e. cyhoeddi contractau ar wahân ar gyfer gwasanaethau dysgu cerddoriaeth â chymhorthdal sylweddol ar gyfer disgyblion PYADd a/neu DPAau ynghylch y cymysgedd o ddisgyblion sy'n derbyn hyfforddiant neu ganlyniadau perthnasol);</li>
<li>Wedi'i sicrhau drwy:
<ul>
<li>Trawsgymorthyddu mewn modelau busnes darparwyr;</li>
<li>Dyrannu cyllid penodol;</li>
<li>Cymell darparwyr i ymgysylltu â thrawsdoriad eang o ddisgyblion (e.e. cynnig dewis ehangach o genres cerddorol, cyflwyno addysg cerddoriaeth y tu allan i amgylchedd yr ysgol, ac ati).</li>
</ul></li>
<li>Cynghorir ysgolion yn gryf i ddefnyddio'r fframwaith yn ôl y gofyn, gan ddefnyddio:</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | ▪ y Grant Datblygu Disgyblion os gallent fodloni ei ganllawiau;<br>▪ eu cyllideb ddirprwyedig, a allai gael ei hategu gan gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. |
| ***Dilyniant i fyny 'pyramid Cymru'*** | • Comisiynu gwasanaethau ar wahân i sicrhau y caiff disgyblion sy'n dalentog eu hadnabod a'u datblygu;<br>• Strwythuro contractau fframwaith drwy lotiau gwahanol sy'n gwahodd pecynnau gwasanaeth sy'n integreiddio profiadau cerddorol, gwersi cerddoriaeth cyffredinol, a darparu ensembles ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r rhanbarth. |
| **Dulliau a gweithredoedd er mwyn trefnu darpariaeth** | |
| ***Cyfundrefn sicrhau ansawdd*** | • Meini prawf ansawdd a gofynion canlyniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;<br>• Yn cael eu rheoli gan berthnasoedd cytundebol (e.e. defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol, y berthynas adrodd) gyda darparwyr. |
| ***Perthnasoedd cytundebol*** | • Contractau fframwaith y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i gaffael gwasanaethau'n lleol. |
| ***Rôl yr ysgolion*** | • Parhau i brynu gwasanaethau gan gyflenwr a ffefrir. |

### Opsiwn 3: Corff cydlynu cenedlaethol cryf yn cynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/darparwyr preifat

| **Opsiwn 3 – Corff cydlynu cenedlaethol cryf yn cynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/darparwyr preifat** | |
|---|---|
| ***Fframwaith llywodraethu a chyfeiriad strategol*** | • Corff cydlynu cenedlaethol (yn hytrach na chorff cyflenwi) sy'n cynnwys pob darparwr, gan gynnwys aelodaeth CAGAC presennol, er mwyn cydgysylltu gwasanaethau lleol yn genedlaethol;<br>• Y gellid eu sefydlu'n ffurfiol fel elusen neu fenter gydweithredol eilaidd, gydag awdurdodau lleol (lle maent yn parhau i ddewis darparu gwasanaethau), penaethiaid, cwmnïau cydweithredol, elusennau, cwmnïau preifat, a chynrychiolwyr tiwtoriaid unigol fel aelodau;<br>• I gael ei lywodraethu gan Fwrdd (o 12 ar y mwyaf, wedi'u hethol o'r aelodau), wedi'u hethol gan grwpiau diffiniedig (e.e. awdurdodau lleol, elusennau/cwmnïau cydweithredol, cwmnïau preifat sy'n fwy na maint penodol, tiwtoriaid unigol, penaethiaid), sy'n gallu cyfethol aelodau ychwanegol a Chadeirydd a recriwtiwyd yn annibynnol;<br>• Contract fframwaith ar y cyd â'r Cynllun Cenedlaethol fel ysgogiad strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru (mewn partneriaeth â chorff cydgysylltu cenedlaethol) i ysgogi arloesedd a nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad. |

| | |
|---|---|
| ***Integreiddio darpariaeth genedlaethol/ leol*** | • Darpariaeth leol nad effeithir arni ar unwaith, gyda'r holl ddarparwyr presennol yn rhydd i barhau i gynnig eu gwasanaethau yn y farchnad;<br>• Rheoleiddio'r farchnad yn gryfach ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br>• Gofynion cytundebol yn ysgogi datblygiadau sy'n ddymunol yn wleidyddol o ran natur, ansawdd a chydbwysedd y ddarpariaeth. |
| ***Ffynhonnell ariannu*** | • Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br>• Ffioedd dysgu a delir gan rieni/warcheidwaid;<br>• Cyllid grant ychwanegol posibl i'w ysgogi gan ddarparwyr unigol (wedi'u hysgogi gan fwy o ryddid i ddatblygu a marchnata ystod ehangach o wasanaethau);<br>• Cyllid ychwanegol, o bosibl, wedi'i dargedu ar gyfer mynediad cyfartal. |
| ***Trosglwyddo i'r model darparu newydd*** | • Mae angen cymorth cadarn i hwyluso'r broses a rheoli newid er mwyn gallu gwyro'n wirioneddol oddi wrth yr arferion presennol a chreu fframwaith newydd cadarn ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth drwy'r contractau fframwaith;<br>• Mae datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol sydd wedi'i gymeradwyo gan randdeiliaid allweddol yn gam cyntaf pwysig tuag at sicrhau y gall cysondeb/cydlyniad cenedlaethol gael ei gyflawni drwy gorff cydlynu cenedlaethol yn rheoli contractau fframwaith. |
| ***O blaid*** | • Buasai'n darparu corff i dderbyn arian gan Lywodraeth Cymru;<br>• Cyfle i gronni cyllid a mwy o eglurder o ran dyrannu cyllid i wahanol fathau o Wasanaethau Cerddoriaeth/canlyniadau (e.e. croesnoddi costau uwch mewn ardaloedd gwledig);<br>• Mae arbedion maint[48] posibl ar gyfer rhai swyddogaethau (e.e. datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, datblygu offer i ymgorffori technoleg ddigidol mewn gwersi cerddoriaeth, swyddogaethau sicrhau ansawdd) wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl a ddatblygwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen (Atodiad 1) drwy gomisiynu mewn lotiau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol ehangach;<br>• Elfen ddemocrataidd gref gyda rhanddeiliaid yn gweithio ar y cyd;<br>• Dilyniant cryf trwy fod darparwyr presennol wrth y llyw yn gweithio tuag at gysondeb cenedlaethol ynghyd â hwyluso cadarn a chymorth i reoli newid;<br>• Rhoi llwyfan i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i bennu cyfeiriad strategol ac ysgogi arloesi wrth ddarparu gwasanaethau. |

[48] Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn manteisio ar arbedion maint o'r fath; Er enghraifft, mae Cerdd Gwent eisoes yn darparu ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol Casnewydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

| | |
|---|---|
| ***Yn erbyn*** | • Yr opsiwn drutaf oherwydd yr angen i weithredu ar lefel awdurdod lleol, ynghyd â'r Cyfarwyddwr/Swyddfa Genedlaethol;<br>• Perygl y gallai awdurdodau lleol, neu'r rhai a etholwyd gan nifer fawr o diwtoriaid, fod yn rhan fawr o'r angen i sefydlu strwythur llywodraethu teg ar gyfer corff aelodaeth ffurfiol;<br>• Gwrthdaro posibl rhwng buddiannau darparwyr presennol fel rhan o'r strwythur llywodraethu sy'n goruchwylio contractau fframwaith ac yn cystadlu am ddarparu gwasanaethau o dan fframweithiau;<br>• Byddai darpar ddarparwyr/sefydliadau/gwasanaethau arloesol newydd (y bwriedir i fodel contract y fframwaith eu hysgogi) nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn y corff cenedlaethol yn gwaethygu'r gwrthdaro buddiannau posibl ymhellach;<br>• Gwahaniaethau amlwg yn y patrymau darparu presennol a'r adnoddau a ddyrennir ar lefel leol (e.e. lefelau gwahanol iawn o gymhorthdal ar gyfer hyfforddiant mewn cerddoriaeth, graddfeydd gwahanol o daliadau ar gyfer staff gwasanaethau cerdd, gwahanol delerau ac amodau ar gyfer cerddoriaeth athrawon) yn anodd eu goresgyn (e.e. oherwydd pontio i ffioedd uwch lle mae lefel y cymhorthdal sy'n uchel ar hyn o bryd yn anodd);<br>• Rhwystrau aruthrol i'r swyddogaeth gydgysylltu genedlaethol sy'n cynnwys darparwyr presennol drwy densiynau presennol (e.e. 'hen hanes' o gydweithrediad blaenorol awdurdodau lleol; her ganfyddedig i annibyniaeth swyddogaethau awdurdodau lleol; sefydliadau annibynnol yn cael eu hystyried yn gystadleuaeth annheg);<br>• Sefydliadau cenedlaethol â chylch gwaith allgymorth nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â hyn, er gwaethaf y parodrwydd a fynegwyd i ymgysylltu â chydgysylltu ac integreiddio eu gweithgareddau'n strategol (e.e. profiadau cerddorol, DPP ar gyfer athrawon cerddoriaeth) yn y cynllun cyfannol ar gyfer cerddoriaeth addysg yng Nghymru;<br>• Nid oes modd manteisio ar arbedion maint ychwanegol pwysig (e.e. drwy systemau talu a threfnu canolog) heb gorff cydgysylltu cenedlaethol i gyflawni swyddogaethau o'r fath. |

## Opsiwn 4: Model rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol

| Opsiwn 4 – Model rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol | |
|---|---|
| ***Fframwaith llywodraethu a chyfeiriad strategol*** | • Pedair Canolfan Gerddoriaeth rhanbarthol â strwythur llywodraethu cyffredin, yn debygol wedi'u sefydlu fel elusennau (e.e. gan ddefnyddio ffiniau consortia rhanbarthol presennol);<br>• Canolfannau i gomisiynu Gwasanaethau Cerddoriaeth ar gyfer ysgolion o fewn ardaloedd daearyddol gan ddarparwyr presennol; |

| | |
|---|---|
| | • Ymddiriedolwyr a ddewisir o bosibl gan Lywodraeth Cymru/awdurdodau lleol drwy ddefnyddio prosesau penodi cyrff cyhoeddus safonol;<br><br>• Grwpiau rhanddeiliaid rhanbarthol wedi'u creu i roi cyngor ar faterion lleol;<br><br>• Gweithgareddau cenedlaethol i'w cyflawni gan bedwar Canolfan yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymagweddau cenedlaethol;<br><br>• Cylch gorchwyl a ddatblygwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ffurfio sail i fframwaith;<br><br>• Contract fframwaith (ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol) yn darparu ysgogiad strategol i Lywodraeth Cymru (gan weithio mewn partneriaeth â phedwar canolfan ranbarthol) i ysgogi arloesedd a nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad. |
| ***Integreiddio darpariaeth genedlaethol/ leol*** | • Mae'n bwysig osgoi camgymeriad sylfaenol yn y model Hub Seisnig, h.y. caniatáu i ganolfannau ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol — ni ddylai canolfannau rhanbarthol ddarparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth yn uniongyrchol;<br><br>• Ond dylai sefydliadau'r canolfannau rhanbarthol feddu ar y gallu trefniadol i ddarparu/comisiynu gwasanaethau ategol canolog yn uniongyrchol (e.e. systemau archebu a thalu canolog) er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gwersi cerddoriaeth i ysgolion;<br><br>• Bod darparwyr presennol (gan gynnwys Gwasanaethau Cerddoriaeth presennol) yn cael eu hannog i fod yn rhan o fframweithiau yn ôl y gofyn a pharhau i ddarparu gwasanaethau'n lleol. |
| ***Ffynhonnell ariannu*** | • Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br><br>• Ffioedd dysgu a delir gan rieni/warcheidwaid;<br><br>• Cyllid grant ychwanegol posibl i'w ysgogi gan ddarparwyr unigol (wedi'u hysgogi gan fwy o ryddid i ddatblygu a marchnata ystod ehangach o wasanaethau);<br><br>• Cyllid ychwanegol, o bosibl, wedi'i dargedu ar gyfer mynediad cyfartal. |
| ***Trosglwyddo i'r model darparu newydd*** | • Cyfle i wneud defnydd da o sgiliau a phrofiad presennol yng nghyd-destun fframwaith strategol a chyflenwi ar ei newydd wedd; |

| | |
|---|---|
| | • Mae'n bosibl ystyried trefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau ar gyfer staff presennol y gwasanaeth cerddoriaeth er mwyn creu gallu sefydliadol ar gyfer canolbwyntiau rhanbarthol;<br><br>• Mae datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol wedi'i gymeradwyo gan randdeiliaid allweddol yn gam cyntaf pwysig o ran sicrhau y gall cysondeb/cydlyniad cenedlaethol gael ei gyflawni drwy reoliad contractau fframwaith gan gorff cydlynu cenedlaethol;<br><br>• Roedd angen cytundeb gydag awdurdodau lleol mai dyma'r ffordd orau o gyflwyno addysg gerdd yng Nghymru ac y dylai cyllid ar gyfer addysg cerddoriaeth gael ei wahanu oddi wrth y trefniadau ariannu presennol ar gyfer awdurdodau lleol. |
| ***O blaid*** | • Buasai'n darparu cyrff er mwyn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru;<br><br>• Cyfle i gronni cyllid a mwy o eglurder o ran dyrannu cyllid i wahanol fathau o Wasanaethau Cerddoriaeth/canlyniadau (e.e. croesnoddi costau uwch mewn ardaloedd gwledig);<br><br>• Mae model rhanbarthol sy'n seiliedig ar ôl-troed consortia addysg rhanbarthol yn cynnig arbedion maint dros ddarpariaeth bresennol awdurdodau lleol;<br><br>• Cysondeb/cydlyniad cenedlaethol drwy bedwar Canolfan sydd gyda'i gilydd yn 'berchen' ar Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol;<br><br>• Rhywfaint o annibyniaeth o ran cyfyngiadau pwysau ar awdurdodau lleol drwy endidau rhanbarthol annibynnol;<br><br>• Mae strwythurau llywodraethu elusennau yn gyswllt uniongyrchol â phenderfyniadau lleol, gan fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid ynghylch y diffyg gwybodaeth ac atebolrwydd lleol;<br><br>Cyfuniad o ganolfannau rhanbarthol a chorff cenedlaethol yn cynnig strwythur i sicrhau bod darpariaeth addysg cerddoriaeth yn parhau i fod yn ymatebol i ddatblygiadau newydd o ran anghenion sy'n dod i'r amlwg (o'r gwaelod i fyny) a chyfleoedd strategol newydd (o'r brig i lawr);<br><br>• Sefydliadau rhanbarthol sydd â'r gallu ar gyfer swyddogaethau cydlynu canolog yn gwneud gwasanaethau'n fwy deniadol i ysgolion na gwasanaethau annibynnol (fel yn opsiwn 3); |

| | |
|---|---|
| | • Rhoi llwyfan i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i bennu cyfeiriad strategol ac ysgogi arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau;<br><br>• Mae cyfuniad o strwythurau llywodraethu rhanbarthol a chenedlaethol yn rhoi mwy o gyfle i sefydliadau cenedlaethol â chylch gwaith allgymorth gymryd rhan uniongyrchol yn y broses o lunio a chodi eu hasedau. |
| ***Yn erbyn*** | • Cymhlethdod ychwanegol — yn weinyddol ac yn wleidyddol — o gymharu ag un haen genedlaethol drwy integreiddio atebolrwydd rhanbarthol â chydgysylltu cenedlaethol;<br><br>• Awdurdodau lleol yn debygol o herio'r penderfyniad i ddyrannu cyllid Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r ffocysau rhanbarthol (yn hytrach na thrwy'r trefniadau presennol);<br><br>• Cymhlethdod ychwanegol yn y strwythur llywodraethu, gyda phedair swyddfa ranbarthol, wedi'i adlewyrchu hefyd mewn costau ychwanegol;<br><br>• Perygl bod y system dameidiog bresennol yn cael ei hefelychu mewn pedair gwahanol system (yn hytrach na chysondeb/cydlyniad). |

### Opsiwn 5: Gwasanaeth cwbl genedlaethol

| **Opsiwn 5 – Gwasanaeth cwbl genedlaethol** | |
|---|---|
| ***Fframwaith llywodraethu a chyfeiriad strategol*** | • Llywodraeth Cymru yn arwain wrth weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru;<br>• Comisiynu sefydliad allanol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun (sefydliad cenedlaethol sy'n bodoli eisoes neu gorff 'hyd braich' newydd gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru);<br>• Rôl weithredol wrth sicrhau darpariaeth leol drwy gaffael pecyn wedi'i ddiffinio'n glir o Wasanaethau Cerddoriaeth gan sefydliadau cyflenwi ar lefel awdurdod lleol neu ranbarthol;<br>• Pe gallai llywodraethu corff newydd fod yn elusen (yn haws i ddenu arian ychwanegol ar gyfer prosiectau/rhoddion rhodd cymorth), cwmni cyfyngedig drwy warant;<br>• Gall fod yn bosibl cael Byrddau wedi'u penodi'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru o dan delerau recriwtio safonol ar gyfer cyrff 'hyd braich', a rhai Ymddiriedolwyr/Aelodau o'r Bwrdd wedi'u penodi gan bartïon eraill â diddordeb;<br>• Atebolrwydd rhanbarthol a lleol drwy grwpiau rhanddeiliaid ymgynghorol rhanbarthol. |

| | |
|---|---|
| ***Integreiddio darpariaeth genedlaethol/ leol*** | • Y corff cenedlaethol i reoli'r fframwaith yn uniongyrchol yn ôl y galw a chontractau ar gyfer cyflawni penodol;<br>• Dylai darparwyr presennol (gan gynnwys Gwasanaethau Cerddoriaeth presennol) gael eu hannog i fod mewn fframweithiau yn ôl y gofyn/parhau i ddarparu gwasanaethau. |
| ***Ffynhonnell ariannu*** | • Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth;<br>• Ffioedd dysgu a delir gan rieni/warcheidwaid;<br>• Cyllid grant ychwanegol posibl i'w ysgogi gan ddarparwyr unigol (wedi'u hysgogi gan fwy o ryddid i ddatblygu a marchnata ystod ehangach o wasanaethau);<br>• Cyllid ychwanegol, o bosibl, wedi'i dargedu ar gyfer mynediad cyfartal. |
| ***Trosglwyddo i'r model darparu newydd*** | • Mae datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol a gymeradwyir gan randdeiliaid allweddol yn gam cyntaf pwysig tuag at sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn gwbl weithredol gyda'r dull o gyflawni cysondeb/cydlyniad cenedlaethol;<br>• Angen cytundeb gydag awdurdodau lleol mai dyma'r ffordd orau o gyflwyno addysg gerdd yng Nghymru ac y dylai cyllid ar gyfer addysg cerddoriaeth gael ei wahanu oddi wrth y trefniadau ariannu presennol ar gyfer awdurdodau lleol. |
| ***O blaid*** | • Buasai'n darparu corff i dderbyn arian gan Lywodraeth Cymru;<br>• Cyfle i gronni cyllid a mwy o eglurder o ran dyrannu cyllid i wahanol fathau o Wasanaethau Cerddoriaeth/canlyniadau (e.e. croesnoddi costau uwch mewn ardaloedd gwledig);<br>• Atebolrwydd cenedlaethol clir yng nghyd-destun un Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru;<br>• Mecanwaith rheoli ansawdd clir a syml;<br>• Arbedion maint o'u cymharu â strwythurau mwy gwasgaredig |
| ***Yn erbyn*** | • Aneglur a/sut y mae unrhyw sefydliad sy'n bodoli eisoes yn gallu darparu a chynnal y symbyliad strategol sydd ei angen ar y cyd i roi addysg gerddorol yng Nghymru ar sail newydd;<br>• Anodd i sefydliad canolog barhau i ymateb i anghenion a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ar lefel leol;<br>• O bell, gellid ei ystyried fel ateb o'r uchelion nad yw'n gallu ysgogi arloesedd ac annog cynigion a darparwyr gwahanol;<br>• O bosibl yn rhy fonolithig i feithrin amgylchedd addysg cerddoriaeth bywiog yng Nghymru (e.e. *genres* cerddorol gwahanol, sefydliadau/lleoliadau amrywiol yn cyfrannu at amcanion a rennir). |

## 7.4 Beth fuasai ffynhonnell y cyllid?

### Cyllid cyhoeddus

Yn y cyfweliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, yn fras roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r angen a'r achos i sicrhau arian cyhoeddus ar gyfer addysg gerddorol. Amlygir hyn yn gryno gan un sylw a awgrymai *'nid oes modd osgoi'r angen am arian. Beth bynnag, o ystyried y rheidrwydd economaidd enfawr (e.e. gwobrau'r Brits), dylai bod yna gyllid ar gael i addysg gerddoriaeth.'*

Ar hyn o bryd, ceir dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Ngrant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol. Nid yw'r grant hwn wedi'i glustnodi, ac mae sawl awdurdod lleol wedi dewis ei wario ar weithgareddau eraill gan nad yw Gwasanaethau Cerddoriaeth yn wasanaeth statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.5miliwn i Wasanaethau Cerddoriaeth drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2018/19 a 2019/20.

### Marchnad breifat – rhieni/warcheidwaid

The Welsh Government published Guidance for Governing Bodies on Charging for School Activities in 2015, which summarises the statutory position regarding the possibility of charging for Music Services:

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Codi tâl am weithgareddau ysgol: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaethiaid* yn 2015, sy'n crynhoi'r sefyllfa statudol o ran y posibilrwydd o godi tâl am Wasanaethau Cerddoriaeth:

> 'Er bod y gyfraith yn nodi bod yn rhaid i'r holl addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol fod yn rhad ac am ddim, mae gwersi cerddoriaeth yn eithriad i'r rheol hon. Caiff ysgolion godi tâl am hyfforddiant offerynnau cerdd a ddarperir i ddisgyblion unigol, neu grŵp o uchafswm o bedwar disgybl, os nad yw'r addysgu'n rhan hanfodol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus y mae'r disgybl yn ei ddilyn.'[49]

Mewn egwyddor, byddai'n bosibl felly symud i sefyllfa lle mae rhieni yn talu am gyfran fwy o gostau Gwasanaethau Cerddoriaeth. Er mwyn i hwn fod yn llwybr ariannu dichonadwy, mae'n rhaid i rieni fod yn argyhoeddedig bod hyfforddiant cerddoriaeth, boed yn offeryn neu'n hyfforddiant llais, yn werth chweil, a bod cerddoriaeth yn rhywbeth sy'n werth i'w plentyn neilltuo amser ac ymdrech iddi.

Mae profiad ar lawr gwlad yn awgrymu, y byddai'n heriol i fudo i system lle mae rhieni yn cyfrannu cyfran fwy sylweddol o gost addysg gerddorol, yn sicr yn y tymor byr. 'Os taw darpariaeth am ddim yw'r hyn y mae rhieni'n gyfarwydd â hi, mae'n amhosibl dechrau codi tâl. Yng Ngwent, er enghraifft, mae'r gwasanaeth cerddoriaeth wedi rhoi cynnig ar godi tâl ym Mlaenau Gwent (o weld bod gan Sir Fynwy system o godi tâl am 100% o'r ddarpariaeth)

[49] Codi tâl am weithgareddau ysgol: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaethiaid

ond bod yn rhaid iddi roi'r gorau i hyn am fod y niferoedd yn gostwng mor sydyn.' (Pennaeth Gwasanaeth Cerdd)

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ymhellach bod diffyg cefnogaeth gan rieni i hyfforddiant cerddoriaeth yn benodol yn dylanwadu ar ddewisiadau'r ysgolion eu hunain, gydag un ymatebydd o Wasanaeth Cerddoriaeth yn dyfynnu pennaeth a oedd yn awgrymu 'nad oedd galw gan rieni am hyfforddiant offerynnol,' ac a ddewisodd i anwybyddu cynnig y Gwasanaethau Cerddoriaeth ar y sail honno.

Mae ymchwil ehangach ar y mater yn nodi ymhellach, heb waith ychwanegol er mwyn codi proffil addysg cerddoriaeth a hyrwyddo ei gwerth, bod cyfraniadau ychwanegol gan rieni yn annhebygol o lenwi'r bwlch ariannu. Mae ymchwil gan Music Commission yn awgrymu na ellir cymryd yn ganiataol y bydd rhieni yn cydnabod gwerth cerddoriaeth ac yn cefnogi eu plant yn ariannol ac yn eu hannog i ddilyn trywydd cerddorol. Maen nhw'n awgrymu bod *'cymorth wedi'i dargedu i rieni trwy gydol dysgu cerddorol eu plentyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar eu cymhelliant i gefnogi ac ymrwymo adnoddau i gynnydd eu plentyn mewn cerddoriaeth.'* Felly nid yw'n debygol y bydd dibynnu ar rieni i wneud cyfraniad a allai gymryd lle cymhorthdal cyhoeddus tuag at hyfforddiant cerddoriaeth yn cynnig llwybr ariannu amgen oni bai — a tan fod — gwerth cerddoriaeth yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol.

### Grantiau a chodi arian

Opsiynau eraill gwerth eu hystyried o ran cyllid ychwanegol i ddarpariaethau Gwasanaethau Cerddoriaeth yw codi arian ac ymgeisio am grantiau.

Mae nifer o'r rhaglenni o brofiadau cerddorol sy'n cael eu darparu yng Nghymru ar hyn o bryd yn defnyddio cyllid grant (e.e. cefnogodd sefydliad Jane Hodge Opera Cenedlaethol Cymru y rhaglen Ieuenctid a Chymuned).[50]

Yn Lloegr, mae canolfannau cerddoriaeth wedi datblygu modelau busnes sy'n cael eu harwain gan ddisgyblaethau masnachol sy'n gwneud y gorau o incwm, prisio cystadleuol a lleoliad strategaethol eu gwasanaethau. Ymhellach, maent yn ysgogi eu statws fel elusennau er mwyn ymgymryd â gwaith codi arian uniongyrchol o'r cyhoedd.[51] Mae cyngor celfyddydau Lloegr (Arts Council England) yn bwriadu datblygu prosiectau ariannu torfol i gefnogi’r canolfannau addysg cerddoriaeth MEH (Music Education Hubs), yn ogystal ag ateb yr arian a godir gydag ariannu cyfatebol o'u cyllid canolog.[52]

Yng Nghymru, buasai disgwyl i fodel cyflenwi newydd sicrhau grantiau a chodi arian yn ei ddodi mewn cystadleuaeth uniongyrchol â sefydliadau sydd eisoes yn dibynnu ar ffrydiau ariannu o'r fath. Yr hyn sydd fwyaf nodedig yw, y buasai yna wrthdaro buddiannau uniongyrchol ag Anthem, sef y gronfa gerddoriaeth newydd i Gymru; sydd wrthi'n codi arian er mwyn gallu dyrannu grantiau i fireinio a datblygu addysg gerddorol yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf. Yn yr un modd, dim ond yn rhannol y caiff Celfyddydau Cenedlaethol

[50] Hodge Foundation - WNO Youth & Community programme
[51] Music Mark (2019), Developing Organisational Resilience, A Guide for Music Education Hubs.
[52] Arts Professional Website

Ieuenctid Cymru eu hariannu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ac felly maent yn dibynnu ar strategaeth o ddenu arian gan ymddiriedolaethau a sefydliadau am gyllid ychwanegol.

Ac eto, nid yw'r seilwaith sefydliadol ar gyfer darparu addysg cerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru yn gymwys i fabwysiadu dull cwbl fasnachol fel yr un a ddefnyddir gan y canolfannau cerddoriaeth yn Lloegr (MEH).

## 8 Casgliadau

Roedd y brîff ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn ymwneud â nodi ac asesu opsiynau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Ei waith oedd ystyried dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau addysg ledled Cymru, nodi arfer gorau, ystyried modelau amgen yn unol â'r anghenion a'r galw am wasanaethau o'r fath, ac ystyried dichonoldeb yr opsiynau sydd ar gael. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyflenwi i gorff 'hyd braich' cenedlaethol, gan gyflwyno dewisiadau ar gyfer pa ffurf y dylai'r corff hwn ei gymryd, ac ystyried a ddylid creu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru.

Fe seiliwyd yr astudiaeth ddichonoldeb hon ar y gwaith sylweddol a oedd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru, yn arbennig gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau bryd hynny gyda Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ymchwilio ariannu addysg gerddorol a'r mynediad iddi. Er bod y gwaith hwn wedi nodi'r un heriau allweddol o ran diffyg cysondeb a chydlyniad wrth ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru, lluniwyd casgliadau croes o'r canfyddiadau. Un o nodau pwysig yr astudiaeth ddichonoldeb hon, felly, oedd datblygu dealltwriaeth fanylach o oblygiadau cydlynu cenedlaethol cryfach wrth ddarparu Gwasanaethau Cerddoriaeth, a'r gofynion ar gyfer hynny.

Mae barn rhanddeiliaid a'r galwadau cynyddol am fwy o gydlyniant a gwell cydgysylltu yn awgrymu y dylid cael Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol yng Nghymru. Er mwyn symud hynny ymlaen yn effeithiol, buasai angen i gynllun o'r fath fod yn eiddo i randdeiliaid allweddol yng Nghymru a chael ei ddefnyddio i ymgorffori nifer o egwyddorion a dyheadau yn natblygiad Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru. Mae glasbrint ar gyfer cynllun o'r fath wedi'i nodi yn yr adroddiad er mwyn cynnig templed trafod cychwynnol ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru.

Yn ogystal â darparwyr cyfredol a thiwtoriaid cerddoriaeth unigol, yn hollbwysig mae'r rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion sydd â rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwneud addysg cerddoriaeth yn hygyrch i ddysgwyr yng Nghymru. Mae adborth gan gynrychiolwyr presennol y Gwasanaeth Cerddoriaeth yn awgrymu bod y gost a'r diddordeb cymharol mewn addysg gerddorol o ran penaethiaid yn benderfynyddion pwysig ar gyfer darpariaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm a'r defnydd o Wasanaethau Cerddoriaeth. Bydd cyrraedd y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau yn yr ysgolion eu hunain a'u cynnwys yn y drafodaeth hon yn hanfodol er mwyn cryfhau addysg gerddorol yng Nghymru. Felly dylid gwneud gwaith ymchwil ychwanegol gydag ysgolion er mwyn profi'r gwahanol opsiynau a deall sut y

gallent ymwneud yn effeithiol â chyflawni allbynnau go iawn mewn perthynas ag addysg cerddoriaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ddulliau i ddylanwadu a helpu i lywio'r ddarpariaeth addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'n hanfodol cydweithio'n strategol â chyrff allweddol sy'n rhanddeiliaid, ynghyd ag ysgogiadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru megis cyllid (e.e. arian ychwanegol wedi'i dargedu), deddfwriaeth (e.e. canllawiau statudol i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd), a dulliau cyflwyno (e.e. mecanweithiau rheoli ansawdd, fframwaith cymwysterau ar gyfer athrawon cerdd, defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol mewn cytundebau). Mae'r rhain i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymyriadau unigol neu gellir eu defnyddio fel rhan o fodel cyflenwi trosfwaol.

Amlinellir pum opsiwn ar gyfer model cyflenwi posib, rhai'n fwy dymunol nag eraill, yn yr adroddiad hwn:

1. Cadw'r *status quo* – gwasanaethau ar wahân sydd yn crebachu'n raddol gyda chydgysylltu llac, yn seiliedig ar ddarpariaeth awdurdodau lleol
2. Caniatáu i rymoedd y farchnad benderfynu’r ddarpariaeth
3. Corff cydlynu cenedlaethol cryf sy'n cael ei redeg gan ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol/cwmnïau cydweithredol/elusennau/busnesau preifat, a thiwtoriaid unigol.  Buasai'r corff hwn yn estyniad o'r CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru) sy'n is-bwyllgor o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC/ADEW), er mwyn ffurfio corff ffurfiol mwy cynrychioliadol
4. Gwasanaeth rhanbarthol gyda chorff cydlynu cenedlaethol
5. Gwasanaeth Cenedlaethol

Trafodir pob opsiwn yn nhermau cyfres gyson o feini prawf ac ystyriaethau. Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn cadarnhau y bydd y rhan fwyaf o'r opsiynau a allai gael eu rhoi ar waith yn wynebu'r broblem bod gwella cynhwysiant a'r Gwasanaethau Cerddoriaeth yn dibynnu yn y pen draw ar rywrai yn talu am hynny. Felly, i ryw raddau, bydd y dewis o opsiwn yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael i gefnogi seilwaith newydd a gwell darpariaeth.

Nid oes angen fawr ddim ymyriad neu gyllid ychwanegol ar y ddau ddewis heb gorff cenedlaethol — sef y *status quo* a chaniatáu i'r farchnad bennu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn debygol o oresgyn materion cyfredol sy'n ymwneud â chysondeb a chydlyniaeth ac, yn benodol, diffyg cynhwysiant, gweithlu cynaliadwy, a llwybrau dilyniant priodol ar gyfer disgyblion dawnus.

Mae pob un o'r tri opsiwn sydd â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol a chorff cydlynu cenedlaethol yn ychwanegu dull o gyfuno a darparu cydlyniad at y defnydd o gyllid llywodraethol ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth, trwy greu amgylchedd ble bydd rhanddeiliaid yn chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu a darparu'r gwasanaethau eu hunain. Mae'r cydbwysedd rhwng atebolrwydd lleol a chydgysylltu cenedlaethol yn amrywio o opsiwn i opsiwn.

Mae'r defnydd o gontractau fframwaith yn cael ei gyflwyno fel dull allweddol i greu cyswllt effeithiol rhwng y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol, y trafodaethau ehangach yn ymwneud â natur Gwasanaethau Cerddoriaeth, a'r ddarpariaeth ar lawr gwlad.

Ble bo angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau, mae'n debygol y bydd cyfleoedd cyllido cyfyng ar gael heblaw defnyddio cyllid cyhoeddus.

Mae datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gerddorol a gymeradwyir gan randdeiliaid allweddol yn gam cyntaf hollbwysig o ran sicrhau cydlyniant a chysondeb cenedlaethol. Felly, bydd yn bwysig profi'r opsiynau a nodwyd yn yr adroddiad hwn gyda'r holl randdeiliaid allweddol yn gyntaf, cyn unrhyw un arall.

**Casgliadau**

- Dylid ystyried datblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg gerddorol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen sefydliad newydd er mwyn datblygu a chyflawni'r cynllun. Dylid profi'r opsiynau a awgrymwyd gyda rhanddeiliaid strategol a darparwyr Gwasanaethau Cerddoriaeth.
- Ysgolion sy’n gwneud y penderfyniadau allweddol o ran sut y caiff addysg gerddorol ei chyflwyno. Dylid ystyried ymchwil pellach er mwyn ystyried sut y maent yn gwneud y penderfyniad hwn a pha ffactorau maent yn eu hystyried. y
- Mae cynaliadwyedd gweithlu'r tiwtoriaid cerddoriaeth yn peri pryder. Dylid ystyried gwneud gwaith pellach er mwyn cael barn tiwtoriaid cerdd am eu telerau a'u hamodau.

## Atodiad 1. Y grŵp gorchwyl a gorffen – Y cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru

Dylai gwasanaethau cerddoriaeth gynnig darpariaeth i bob ysgol yn eu hardal fel bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael cyfle i ddysgu chwarae a chanu. Gyda chefnogaeth gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol, mae gan ysgolion le creiddiol yn narpariaeth gwersi offerynnol a lleisiol

O ran gwersi offerynnol a lleisiol, disgwylir i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- fodloni anghenion ysgolion o ran ystod ac ansawdd y gwasanaeth;
- bodloni'r angen ymhlith y dysgwyr am wersi grŵp/unigol fforddiadwy o ansawdd uchel ar ystod o offerynnau, wedi'u darparu gan staff hyfforddedig;
- cynorthwyo adrannau cerddoriaeth ysgolion i gynnig darpariaeth allgyrsiol o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfleoedd i berfformio mewn ensemble, yn ogystal â chyfleoedd eraill i berfformio.
- cynnig cyfleoedd i symud ymlaen, mynediad at gyngor a chefnogaeth i ddysgwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau;
- cefnogi dysgwyr wrth baratoi am arholiadau cerddoriaeth;
- gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu polisïau teg a chyson ar gyfer codi tâl;
- rhoi lle canolog i waith partneriaeth wrth weithredu, a mynd ati'n weithredol i ddatblygu partneriaethau newydd;
- cynnig darpariaeth gyson ar draws rhanbarth, sy'n cyd-ffinio â rhanbarthau'r consortia addysg rhanbarthol;
- sefydlu systemau sicrhau ansawdd, ynghyd â gofyniad i ddatblygu cyflog ac amodau cyson;
- darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod am y newidiadau diweddaraf o ran y polisi a'r arfer cyfredol ym maes addysg.
- gweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau'r opsiynau mwyaf effeithiol o ran cost wrth gyflenwi offerynnau cerdd;
- cydweithio ar draws ac oddi mewn i ranbarthau i rannu adnoddau cerddoriaeth wedi'u hargraffu; a
- lle bo'n berthnasol, cynnwys y defnydd o dechnoleg ddigidol i wella canlyniadau gwersi.

Yn ogystal â hyn, ac yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol yn y dyfodol, gellid disgwyl i wasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol:

- Gynorthwyo athrawon dosbarth cyffredinol ac ymarferwyr anarbenigol i gyflenwi gofynion y cwricwlwm cenedlaethol i bob dysgwr, gan roi ystyriaeth dda i arfer gorau a chanfyddiadau ymchwil er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'u sgiliau a'u harbenigedd eu hunain;
- Cynorthwyo athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn i ennyn hyder wrth gyflwyno gwersi cerddoriaeth i'w dosbarthiadau;
- Cynorthwyo ysgolion i hyrwyddo canu fel ysgol gyfan a pherfformiadau cerddorol o safon.

## Atodiad 2. Cynllun Cerddoriaeth Cenedlaethol Lloegr

**Cerddoriaeth yn y cwricwlwm**

Casglodd yr adroddiad *State of Play* a gyhoeddwyd gan Undeb y Cerddorion yn 2019 (gyda chefnogaeth cymdeithas y diwydiannau cerddorol MIA, Music for All, ac UK Music) ddata gan dros 1,000 o athrawon, gwasanaethau cerddoriaeth, ysgolion, a phenaethiaid; a dilynwyd hynny gan 42 o gyfweliadau un-i-un dros y ffôn. Mae'n crynhoi sefyllfa gyffredinol addysg gerddorol yn Lloegr a dyma'r prif gyfeirbwynt yn y ciplun yma o addysg cerddoriaeth yn Lloegr.

Cyn i'r llywodraeth glymblaid ddiwygio o 2010 ymlaen, roedd yn ofynnol i ysgolion yn Lloegr fodloni gofynion statudol a bennwyd gan y cwricwlwm cenedlaethol. Roedd y fframwaith cyfreithiol hwn, am y 25 mlynedd flaenorol, wedi darparu cynllun cydlynol i fyfyrwyr gael mynediad at addysg cerddoriaeth a mynd ati i wneud hynny. Mewn egwyddor, roedd yn amlinellu'r hyn y dylai cwricwlwm 'eang a chytbwys' ei gynnwys fel hawl sylfaenol i fyfyrwyr.

Mae'r sefyllfa heddiw, fodd bynnag, yn wahanol iawn. Mae'r Gweinidog Addysg, Michael Gove AS, yn 'gwanhau' pwysigrwydd y cwricwlwm cenedlaethol, 'academeiddio' ysgolion a hyrwyddo ysgolion rhydd (nid yw'r naill neu'r llall yn gorfod dilyn y cwricwlwm cenedlaethol), ac mae toriadau sylweddol yn y gyllideb wedi gwanhau'n lle cerddoriaeth ym mhrofiad addysgol pobl ifanc yn sylweddol. Erbyn hyn, mae gan ysgolion y rhyddid i gynllunio a gweithredu eu trefniadau cwricwlaidd eu hunain, ac ychydig iawn o rwystrau a gwrthbwysau sydd ar waith i sicrhau bod plant yn cael cwricwlwm eang a chytbwys. Yn ogystal, o ystyried Bagloriaeth Lloegr (roedd 96% o'r athrawon a ymatebodd i'r ymchwil *State of Play* yn dweud bod yr EBacc wedi cael effaith negyddol ar gerddoriaeth), tablau cynghrair a mesurau perfformiad (sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyflog athrawon), nid yw'n syndod bod cerddoriaeth wedi cael cwymp i bwnc lleiafrifol. Yn wir, mae rhai ysgolion wedi dileu TGAU cerddoriaeth o'r cwricwlwm yn gyfan gwbl, trwy ei disgyn i gwrs allgyrsiol y mae rhieni'n talu amdano ([https://www.tes.com/news/how-can-it-be-2018-pupils-are-having-pay-study-music-gcse](https://www.tes.com/news/how-can-it-be-2018-pupils-are-having-pay-study-music-gcse)). Yn sgil hyn, mae’r astudiaeth o Lefel A Cerddoriaeth wedi gostwng 25.4% ers 2014 (JCQA 2018).

Amlygwyd yr argyfwng mewn perthynas â cherddoriaeth yn y cwricwlwm cynradd dros 20 mlynedd yn ôl, ac ers hynny mae polisi'r llywodraeth o bwysleisio pynciau 'craidd' megis llythrennedd a rhifedd wedi ategu hynny. O ganlyniad, mae hyn wedi dylanwadu ar ddirywiad cerddoriaeth mewn ysgolion uwchradd. Nododd ymchwil o 700 o ysgolion y wladwriaeth ledled Lloegr, a gynhaliwyd gan Brifysgol Sussex (2019), fod trefniadau amserlennu ar gyfer cerddoriaeth wedi newid yn ddramatig. Roedd yr addysgu carwsél ar draws cyfnod allweddol 3 (lle mae disgyblion yn astudio cerddoriaeth ar gyfer un tymor yn unig mewn cylchdro â phynciau eraill) yn gyffredin, gyda'r enghraifft waethaf lle y cynigiwyd cerddoriaeth am ddim ond 25 munud yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos neu, mewn geiriau eraill, 2.5 awr ar draws y flwyddyn academaidd gyfan.

Yn hynny o beth, datgelodd adroddiad Prifysgol Sussex fod y nifer cyfartalog o athrawon cerddoriaeth dosbarth llawn-amser (neu gyfwerth) wedi gostwng yn sylweddol hefyd. Cynyddodd nifer yr adrannau cerddoriaeth ag un athro o 22% yn 2012/13 i 30% yn 2016/17.

Datgelodd yr adroddiad *State of Play* mai nifer cyfartalog yr athrawon cerddoriaeth fesul ysgol uwchradd yw 1.47.

**Cerddoriaeth offerynnol**

O ran cerddoriaeth offerynnol, mae'r cyfrifoldeb dros y ddarpariaeth wedi symud o awdurdodau lleol i ganolfannau cerddoriaeth, a ariennir yn uniongyrchol (£75,840,000 y flwyddyn ar hyn o bryd yn seiliedig ar fformiwla fesul disgybl) gan yr adran addysg drwy Gyngor Celfyddydau Lloegr. Ffurfiwyd canolbwyntiau cerddoriaeth yn 2011 fel rhan o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth (NPME, i'w ddiwygio cyn bo hir). Ffurfiwyd cyfanswm o 123 o ganolfannau cerddoriaeth, llawer ohonynt yn Wasanaethau Cerddoriaeth awdurdod lleol, er bod rhai yn ymddiriedolaethau neu'n asiantaethau preifat.

Roedd gan eu cynllun cenedlaethol NPME pedwar prif nod:

- Sicrhau bod pob plentyn 5 i 18 oed yn cael cyfle i ddysgu offeryn cerddoriaeth, a hynny'n ddelfrydol am flwyddyn (neu o leiaf un tymor), trwy addysgu ensemble dosbarth cyfan (hynny yw, nid dim ond gwersi canu).

- Darparu cyfleoedd cynnar i berfformio a chwarae mewn ensembles.

- Sicrhau bod llwybrau dilyniant clir ar gael ac yn fforddiadwy i bob person ifanc (Noder: Mae traean o bob plentyn 7–10 oed yn datgan eu bod yn chwarae offeryn, ond dim ond chwarter sy'n parhau i chwarae yn 16 neu 17 oed — arolwg cerddoriaeth ieuenctid gan Ipsos MORI)

- Datblygu strategaeth ganu i sicrhau bod pob disgybl yn canu'n rheolaidd, a bod corau ac ensembles lleisiol eraill ar gael yn eu hardal.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau craidd hyn, roedd adroddiad canolfannau addysg cerddoriaeth Cyngor y Celfyddydau (2017) gan yr Athro Martin Fautley a Dr Adam Whittaker yn tynnu sylw at y canfyddiadau allweddol canlynol:

- Roedd nifer y disgyblion a oedd yn derbyn hyfforddiant dosbarth cyfan yn 2016 – 17 yn 711,241, gyda 69.17% o'r rhain yn derbyn hyfforddiant am y tro cyntaf. O'r rhain, roedd 91.22% yn blant oedran cynradd ym mlwyddyn 4. Mae'r gyfradd barhad, h.y. nifer y disgyblion sy'n symud ymlaen o weithgareddau dosbarth cyfan i hyfforddiant grŵp bach neu unigol, yn cyfateb i tua 28.87%.

- Cynyddodd y nifer y disgyblion a oedd yn derbyn addysg ensemble dosbarth cyfan am lai na thymor yn sylweddol o 24,892 i 35,340 — cynnydd o 41.97% dros bedair blynedd.

- Cyrhaeddodd canolfannau cerddoriaeth 9.23% o boblogaeth yr ysgol (cynradd ac uwchradd).

- Mewn perthynas â gweithgareddau ensemble, roedd canolfannau cerddoriaeth yn darparu 16,809 o ensembles neu gorau yn 2016–17 i 321,363 o ddisgyblion — sy'n cynrychioli 4.56% o'r boblogaeth ysgol a ariennir gan y wladwriaeth.

- Gostyngodd y nifer y disgyblion a oedd yn cymryd rhan mewn ensembles rheolaidd o 347,556 yn 2014 – 15 i 321,363 yn 2016-17.

- Roedd nifer y disgyblion a oedd yn derbyn hyfforddiant mewn grŵp bach neu'n unigol yn 541,910, ac roedd 238,909 ohonynt yn dysgu mewn grwpiau.

- O ran y gweithgaredd craidd olaf, h.y. *Support for Singing*, dangosodd ymchwil fod canolfannau cerddoriaeth yn darparu 3,647 o ensembles lleisiol drwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd 88.62% o ysgolion. Ysgolion cynradd oedd y rhain yn bennaf.

Mae incwm Hubs cerddoriaeth yn deillio o amryw o ffynonellau:

| **Ffynhonnell** | **incwm 2016–17 (£)** | **2016–17 fel canran** |
|---|---:|---:|
| llywodraeth | 75,030,001 | 38.68% |
| grantiau Awdurdod Lleol | 5,663,156 | 2.9% |
| grantiau Cyngor y Celfyddydau | 754,877 | 0.39% |
| cyfraniadau ysgolion | 58,580,748 | 30.20% |
| cyfraniadau rhieni | 33,774,084 | 17.41% |
| grantiau ieuenctid YMG | 1,009,359 | 0.52% |
| nawdd | 160,599 | 0.08% |
| rhoddion elusennol | 1,038,666 | 0.54% |
| rhoddion eraill | 444,802 | 0.23% |
| incwm masnachol arall | 13,445,899 | 6.93% |
| incwm arall | 4,072,796 | 2.10% |
| **CYFANSWM** | **193,974,987** | **100%** |

O gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd y gostyngiadau mwyaf mewn incwm mewn termau real a chanrannol mewn grantiau awdurdodau lleol ac mewn cyfraniadau, gostyngiad o 15.12% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd incwm arall a fasnachwyd hefyd wedi gostwng 12.02% o'r flwyddyn flaenorol.

Datgelodd yr adroddiad ar y canolfannau addysg gerdd a gynhyrchwyd gan Undeb y Cerddorion yn 2014, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y gweithlu a sut yr oedd newidiadau mewn arferion gweithio yn effeithio arno, ddau densiwn allweddol:

- Yn gyntaf, roedd yr ymreolaeth gynyddol a roddir i ysgolion — gan gynnwys eu hawl i osod eu cwricwlwm eu hunain, symud oddi wrth reolaeth awdurdodau lleol ac ennill annibyniaeth ariannol — fel pe bai'n gwrthddweud cyngor Ofsted bod yn rhaid i ysgolion ymgysylltu â chanolfannau, tra’n methu â gosod unrhyw rwymedigaethau statudol i wneud hynny;

- Yn ail, roedd dibyniaeth gynyddol ar athrawon sero awr neu hunangyflogedig, heb unrhyw warant o waith, pensiynau, tâl gwyliau, ac ati, ac ychydig iawn o ddatblygiad gyrfaol a datblygiad proffesiynol.

Datgelodd yr adroddiad dilynol, o'r enw *State of Play* (2019), y canlynol:

- Roedd 89% o rieni yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at wersi offerynnol (Noder: Mae teuluoedd ag incwm is, sy'n ennill llai na £ 28k y flwyddyn, hanner mor debygol o fod â phlentyn yn dysgu offeryn cerdd i gymharu gyda theuluoedd ag incymau uwch sydd yn ennill mwy na £ 48k y flwyddyn — Undeb y Cerddorion 2018)

- Roedd  64% o'r athrawon yn hunangyflogedig

- Y gyfradd gyfartalog fesul awr ar gyfer athrawon oedd £29.22

- Roedd 53% o ganolfannau cerddoriaeth yn cystadlu â darparwyr preifat anatebol (Noder: Mae mwy o bobl ifanc yn ymwneud â cherddoriaeth yn eu hamser hamdden, gyda 39% yn adrodd eu bod, i ryw raddau, yn addysgu eu hunain — arolwg cerddoriaeth ieuenctid Ipsos MORI)

- Nid oedd 73% yn athrawon cymwysedig 73%

- Ni chafodd 87% o'r athrawon dâl ar gyfer amser teithio

- Ni chafodd 74% gyflog gwyliau

- Nid oedd gan 43% unrhyw syniad beth oedd NPME

- Roedd 64% yn teimlo yn ddihyder yn ymdriniaeth y Llywodraeth o addysg cerddoriaeth

Fe ddaeth yr adroddiad i'r casgliad:

*‘Ers cyflwyno'r NPME mae newidiadau sylweddol wedi bod mewn addysg cerddoriaeth o fewn Lloegr. Er bod rhai yn dathlu ffigurau sy'n nodi mwy o fynediad ac ymgysylltiad, mae gan lawer o athrawon ac eraill yn y diwydiant bryderon dilys o hyd ynghylch ansawdd yr addysg gerddoriaeth a gynigir mewn ysgolion, gwasanaethau cerddoriaeth a chanolfannau. Mae pryderon hefyd ynghylch yr agwedd anghydlynol ac anghyson at addysg gerddorol ar draws y wlad. Byddai llawer yn dadlau bod y cyfle i gael mynediad at addysg gerddorol o safon uchel yn 'loteri cod post'. Ceir ymdeimlad bod darnio addysg cerddoriaeth o ganlyniad i ddiwygio'r cwricwlwm ac amrywiaeth y dulliau a gymerir gan ganolfannau a chyrff eraill wedi gwella'r diffyg cydlyniant hwn yn sylweddol.’*

Mae'n werth nodi argymhellion *State of Play* yng nghyd-destun cynllunio'r strategaeth ar gyfer Cymru:

**Gweithlu**

- Mae angen rhoi diwedd ar y hunan-gyflogaeth ffug ar gyfer athrawon offerynnau. Rhaid i fodelau cyflogaeth neu hunangyflogaeth a chontractau cysylltiedig gael eu cynllunio'n briodol a'u rhoi ar waith yn unol ag arfer gorau a chanllawiau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi.

- Rhaid defnyddio contractau sero awr mewn cyd-destunau priodol ac fel dewis olaf. Rhaid i awdurdodau lleol a chanolfannau addysg cerddoriaeth adolygu eu harferion sy'n gysylltiedig â defnyddio cytundebau sero oriau yn unol â chanllawiau CThEM.

- Mae'n rhaid i athrawon gael lefelau priodol o dâl a thelerau ac amodau cysylltiedig, e.e. tâl gwyliau a thâl amser teithio. Dylai'r rhain gynnwys hawl i gyfleoedd am dâl ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd.

- Mi ddylai'r dystysgrif ar gyfer addysgwyr cerddoriaeth (sydd ar gael hefyd i athrawon yng Nghymru) a'u manteision gyfer y rhai sy'n ceisio ymuno â'r sector addysgu cerddoriaeth offerynnol gael ei marchnata'n fwy effeithlon, Dylai unrhyw athro/athrawes ifanc sy'n gweithio gyda chanolfan addysg cerddoriaeth, yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, gael cynnig hyn fel hawl sylfaenol, yn rhad ac am ddim, gan eu canolfan addysg gerddorol.

- Mi ddylai canolfannau addysg cerddoriaeth a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'r sector addysgu weithio'n fwy rhagweithiol gyda sefydliadau addysg uwch wrth ystyried ffyrdd o wneud cymwysterau addysgu lefel 7 (ôl-raddedig) sydd ar gael i'w staff, heb fod angen iddynt gymryd seibiant sylweddol o'u cyflogaeth.

- Dylai arfer da ar gyfer cytundebau gael eu cynllunio gan sefydliadau addysg cerddoriaeth blaenllaw i'w defnyddio ar draws y sector. Dylid darparu amrywiaeth o ganllawiau a deunyddiau cymorth i'r rhai sy'n gweithio fel athrawon offerynnau, athrawon dosbarth ac arweinwyr ensemble.

- Dylai cyngor a chymorth wedi'u teilwra mewn perthynas â chyfraith contract, cyflog, telerau ac amodau gael eu cynllunio a'u darparu'n rhad ac am ddim i athrawon ifanc sy'n ymuno â'r proffesiwn addysgu.

- Dylai cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus sy'n archwilio cyfraith contractau, arferion gorau o ran ei weithredu, a'i oblygiadau i'w gweithlu gael eu cynllunio a'u cynnig i bob rheolwr cerddoriaeth sy'n arwain sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Gyngor y Celfyddydau.

**Ysgolion**

- Gwerthfawrogir y cyllid sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg gerddorol. Fodd bynnag, dros gyfnod mae hyn wedi lleihau ac mae'n hanfodol nad yw'n cael ei dorri ymhellach. Mae angen i ganolfannau addysg cerddoriaeth gael eu dwyn i gyfrif am eu penderfyniadau mewn ffordd gadarnach a dylid herio canolfannau sy'n tangyflawni ac, os oes angen, eu hailddynodi pan fyddant yn tanberfformio.

- Dylai canolfannau addysg cerddoriaeth barhau i ddarparu mynediad am ddim i wersi offerynnol i blant o deuluoedd incwm isel. Dylai llunwyr polisi ystyried cynnydd yn y premiwm i gyllid disgyblion er mwyn helpu sicrhau bod y mynediad hwn yn cael ei gynnal.

- Mae cerddoriaeth yn bwnc craidd yn y cwricwlwm cenedlaethol. Rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu ei gymryd o ddifrif a bod yn rhan o'r cwricwlwm a brofir gan bob plentyn ym mhob ysgol. Rhaid i ysgolion sy'n methu â chyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol yn llawn gael eu dwyn i gyfrif yn fwy trwyadl.

- Rhaid i gerddoriaeth barhau i fod yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n rhaid cynnal egwyddorion addysg gerddorol sy'n cael eu hadeiladu ar y prosesau cerddorol rhyngberthynol sef perfformio, cyfansoddi, gwrando, adolygu a gwerthuso. Mae addysg cerddoriaeth yn llawer mwy na rhoi cyfle i blentyn ddysgu offeryn cerdd yn unig.

- Dylai pob ysgol gynradd gael ei herio ynglŷn â'i darpariaeth o arlwy addysg cerddoriaeth sy'n seiliedig ar y cwricwlwm yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Dylai ysgolion cynradd nad ydynt yn darparu'r arweinyddiaeth ar gyfer addysg cerddoriaeth, y gofod wedi'i amserlennu neu'r adnoddau gael eu herio gan Ofsted, gyda chamau'n cael eu cymryd i wella mynediad eu myfyrwyr a'u hawl i addysg gerddoriaeth o safon uchel.

- Mae'n rhaid archwilio datblygiadau a chyfleoedd pellach ar gyfer cymhwyso technolegau ffrydio byw er mwyn helpu ysgolion i gynnig ystod eang o gyfleoedd addysg cerddoriaeth i bob myfyriwr. Rhaid cryfhau rhwydweithiau addysg cerddoriaeth yn y maes digidol yn ogystal â'r amgylchedd corfforol.

- Nid yw dysgu offeryn cerdd yn gyfystyr ag addysg gerddorol systematig a chynhwysfawr. Dylai pob plentyn gael mynediad i addysg cerddoriaeth ddosbarth o safon uchel sy'n seiliedig ar egwyddorion craidd y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth.

- Rhaid i lunwyr polisïau gydnabod a gwrthdroi effaith niweidiol y Fagloriaeth Seisnig ar ddarpariaeth cerddoriaeth a'r celfyddydau. Ni fydd dirywiad cerddoriaeth mewn ysgolion uwchradd yn cael ei wrthdroi hyd nes y caiff y mesur a'r atebolrwydd artiffisial a niweidiol hwn ei ddileu.

- Ni ddylai ysgolion gael eu dynodi'n rhai rhagorol gan Ofsted oni bai bod eu rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddydau wedi'u gwreiddio drwy'r cyfnodau allweddol priodol, wedi'u staffio a'u hariannu'n briodol ac o ansawdd da.

- Dylai sefydliadau addysg cerddoriaeth blaenllaw weithio'n agosach gydag Ofsted wrth enghreifftio sut mae addysg gerddorol o safon yn ysgol i glywed ac yn edrych fel er mwyn cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol.

**Canolfannau cerddoriaeth**

- Dylid rhoi mwy o ryddid i ganolfannau cerddoriaeth flaenoriaethu eu nodau a'u hamcanion eu hunain o fewn eu cyd-destun lleol. Nid yw'r nodau allweddol a osodwyd yn genedlaethol wedi gwella'r anghysondeb sy'n gysylltiedig ag addysg cerddoriaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Dylid pwysleisio atebolrwydd lleol, ond mi ddylai bod canolfannau cerddoriaeth yn atebol am eu penderfyniadau yn unol â'r argymhellion eraill a wneir yn yr adroddiad hwn.

- Dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i roi cyllid datganoledig i mewn i raglenni addysg cerddoriaeth ynghyd â gwaith eu canolfannau cerddoriaeth a'u hysgolion. Mae anghyfartaledd yma y mae angen mynd i'r afael ag ef. Ni ddylai cyllid gan Gyngor Celfyddydau Lloegr atal buddsoddiad lleol.

- Dylid annog canolfannau cerddoriaeth i ehangu eu rhwydweithiau gyda phob sefydliad yn eu hardal leol sy'n cynnig cyfleoedd addysg cerddoriaeth i bobl ifanc, yn amodol ar fframweithiau sicrhau ansawdd priodol. Dylai hyn gynnwys darpariaeth y blynyddoedd cynnar, stiwdios ymarfer, ysgolion annibynnol, a grwpiau eraill.

- Dylid annog canolfannau cerddoriaeth i ymgysylltu ag ysgolion annibynnol yn eu hardaloedd er mwyn datblygu prosiectau ar y cyd, gweithgareddau ensemble a chyfleoedd eraill i wella. Byddai hyn o fudd ychwanegol i ysgolion annibynnol o ran eu helpu i gyfiawnhau eu statws elusennol.

- Dylai canolfannau cerddoriaeth archwilio'r llwybrau dilyniant i fyfyrwyr o ysgolion i golegau addysg bellach. Dylent chwarae mwy o ran yn y gwaith o oruchwylio'r dilyniant hwn a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion penodol myfyrwyr.

- Dylid annog canolfannau cerddoriaeth i gysylltu â chanolfannau eraill wrth rannu adnoddau ac offerynnau. Rhaid gwacau'r cypyrddau o'r holl offerynnau cerdd nad sydd yn cael defnydd.

- Dylai Cyngor Celfyddydau Lloegr herio gwaith canolfannau cerddoriaeth yn gadarnach pan nad ydynt yn cyrraedd y safon, a phenodi canolfannau newydd os oes angen. Dylai'r broses o benodi canolfannau newydd fod yn glir ac yn dryloyw. Dylid canolbwyntio o'r newydd ar ansawdd gwaith Hub mewn prosesau achredu a dilysu.

- Dylai Cyngor Celfyddydau Lloegr ddarparu fframwaith ar gyfer arolygiad mwy cadarn o fodelau llywodraethu canolfannau cerddoriaeth. Lle ceir arfer gwael, dylid herio hyn; os na, dylid penodi sefydliadau newydd, gwell i fod yn Hub.

- Dylai Cyngor Celfyddydau Lloegr ail-edrych ar y broses o gasglu data gan ganolfannau cerddoriaeth a dehongli'r data hynny. Mae angen mireinio prosesau casglu data er mwyn blaenoriaethu ansawdd cerddorol yn ogystal â niferoedd ymgysylltu sylfaenol. Dylid rhoi rhyw fath o arolygiad annibynnol o ganolfannau cerddoriaeth ar waith er mwyn monitro hunanasesiadau o ansawdd cerddorol ar y cyd â'r gweithdrefnau archwilio sylfaenol..

- Dylai Cyngor Celfyddydau Lloegr weithredu cylch cyllido safonol, rheolaidd 3 – 5 mlynedd ar gyfer canolfannau cerddoriaeth er mwyn helpu i hwyluso a chryfhau cynllunio tymor hwy.

- Dylid annog canolfannau cerddoriaeth a sefydliadau eraill i archwilio'r defnydd priodol o gerddoriaeth a thechnolegau cyfathrebu eraill, gan gynnwys ffrydio byw, er mwyn rhoi mynediad i addysg cerddoriaeth i bob person ifanc.

Rhaid bod darparu cyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer addysg gerddorol yn y blynyddoedd cynnar ac ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd yn ffurfio rhan strategol o unrhyw gynllun cenedlaethol ar gyfer addysg gerddorol yn y dyfodol. Dylid darparu cyllid er mwyn cefnogi cynigion o ansawdd uchel a dylid ystyried gwobrwyo ac amlygu arfer gorau er mwyn helpu rhieni ac eraill i adnabod darpariaeth orau.

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83933-830-4
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2020
WG39798